

Gwasanaeth Rheilffyrdd Cymru a'r Gororau a Metro De Cymru

Llinellau Craidd y Cymoedd

Datganiad Rhwydwaith CVL 2027

Rhifyn 1.1

CYHOEDDUS

Mae Seilwaith Amey Cymru / Amey Infrastructure Wales Ltd yn gwmni sydd wedi'i gofrestru yng Nghymru a Lloegr

Rhif cofrestredig: 11389544

Swyddfa gofrestredig: Depo Seilwaith CVL Trafnidiaeth i Gymru Tŷ Trafnidiaeth, Ystad Ddiwydiannol Trefforest, Ffordd Gwent, Pontypridd, y Deyrnas Unedig CF37 5UT

Rheoli Fersiwn

Fersiwn	Dyddiad	Disgrifiad o'r newid
Datganiad Rhwydwaith CVL 2027 Drafft 0.1	Medi 2025	Dogfen Ymgynghori
Datganiad Rhwydwaith CVL 2027 Drafft 1.0	Hydref 2025	Rhifyn cyntaf yn dilyn ymgynghoriad
Datganiad Rhwydwaith CVL Drafft 1.1 2027	Rhagfyr 2025	Diweddariad bach i adran 3.4.1 at ddibenion egluro. (Cau allan ORR)

Cynnwys

1.	Gwybodaeth gyffredinol.....	9
2.	Seilwaith	19
3.	Amodau Mynediad.....	31
4.	Dyrnnu Capasiti	43
5.	Gwasanaethau a Thaliadau.....	55
6.	Gweithrediadau	71
7.	Cyfleusterau Gwasanaethau	76
	Appendix A – Map o Seilwaith a Reolir gan AIW.....	82
	Appendix B – Gorsafoedd CVL	83
	Appendix C – Calendr Amserlen CVL.....	86

Rhestr Termau

Term/Byrfodd	Ystyr
Buddiolwr Mynediad	yn golygu, mewn perthynas â Chytundeb Mynediad, y Gweithredwr Trenau neu'r Deiliad Opsiwn Mynediad sy'n rhan o'r Cytundeb Mynediad hwnnw
Contract Mynediad	cytundeb ar gyfer mynediad i drac, gorsafoedd neu ddepos (fel sy'n berthnasol).
Cynnig Mynediad	unrhyw hysbysiad a wneir gan unrhyw Ymgeisydd am Slot Trên fel y darperir o dan y Cod Rhwydwaith CVL.
AIWAP	Panel Cymeradwyaethau Seilwaith Amey Cymru. Fe'i defnyddir ar gyfer awdurdodi cyflwyno seilwaith, cerbydau rholio a chynhyrchion newydd neu wedi'u newid i Seilwaith CVL.
Ymgeisydd	unrhyw berson sy'n dymuno gwneud cais am Lwybr Trên, gorsaf neu fynediad arall i gyfleusterau gan gynnwys Mentrau Rheilffordd a gweithredwyr trafniadaeth cyfun sy'n gwneud cais ar ran Mentr Reilffordd.
Calendr Digwyddiadau	Calendr o Ddigwyddiadau a baratowyd gan Network Rail ar ran IM CVL (gweler Atodiad C y ddogfen hon), yn unol â Rhan D Cod Rhwydwaith CVL.
Cytundeb Trin a Dyrannu Hawliadau	y contract amlochrog rhwng cwmnïau sydd â thrwydded i weithredu asedau rheilffyrdd ynghylch dyrannu rhwymedigaethau a thrin hawliadau.
Hawl Ddibynnol	hawl: nad yw'n gadarn, ac mae'n amodol ar ffactorau ychwanegol y tu allan i reolaeth y gweithredwr – fel arfer hawliau cwmni gweithredwyr eraill, ond hefyd meini prawf penderfynu.
Cyfnod Rheoli, neu CP	cyfnodau safonol y diwydiant y mae adolygiad o daliadau mynediad Network Rail yn berthnasol iddynt, gyda CP7 yn dechrau ar 1 Ebrill 2024 - 31 Mawrth 2029
Rheolau Datrys Anghydfodau Mynediad CVL	y rheolau ar gyfer datrys anghydfodau mynediad ar Rwydwaith CVL fel y'u cyhoeddwyd gan IM CVL ac sydd wedi'u hatodi i God Rhwydwaith CVL.
Datganiad Mynediad Peirianeg CVL	Mae EAS CVL wedi'i gynnwys fel rhan o EAS Network Rail o dan yr adran trac sy'n ffurfio Rhwydwaith CVL. Mae'n manylu ar y rheolau sy'n rheoleiddio'r trefniadau ar gyfer mynediad i wahanol rannau o'r prif rwydwaith rheilffyrdd pan fydd archwilio, cynnal a chadw, adnewyddu a gwaith arall yn effeithio arnynt, sy'n rhan o'r ddogfen a elwir y "Datganiad Mynediad Peirianeg" a gyhoeddwyd gan Network Rail mewn perthynas â'r Rhwydwaith Network Rail.

	Mae'r Datganiad Mynediad Peirianeg cyfredol ar gael ar wefan Network Rail: yma
IM CVL	Seilwaith Amey Cymru / Amey Infrastructure Wales Limited, cwmni sydd wedi'i gofrestru yng Nghymru a Lloegr gyda rhif cwmni 11389544 y mae ei swyddfa gofrestredig yn Depo Seilwaith CVL Trafnidiaeth Cymru Tŷ Trafnidiaeth, Ystad Ddiwydiannol Trefforest, Heol Gwent, Pontypridd, y Deyrnas Unedig, CF37 5UT.
Rhwydwaith CVL	Llinellau Craidd y Cymoedd fel y dangosir yn Atodiad A - mae ganddo'r ystyr a roddir i'r term "CVL" yn Rhan A Cod Rhwydwaith CVL.
Cod Rhwydwaith CVL	y ddogfen a elwir yn God Rhwydwaith CVL fel y'i cyhoeddwyd gan IM CVL, sydd i'w gweld yma
Datganiad Rhwydwaith CVL	y ddogfen hon, a elwir yn Ddatganiad Rhwydwaith CVL.
Cod Gweithredol Rheilffyrdd CVL	y ddogfen o'r enw Cod Gweithredol Rheilffyrdd CVL a gyhoeddwyd gan IM CVL yn unol â Chynllun ROC CVL.
Cynllun ROC CVL	y ddogfen o'r enw "Cynllun ROC CVL" a gyhoeddir gan IM CVL, y bydd Cod Gweithredol Rheilffordd CVL yn cael ei sefydlu yn unol â hi, y nodir ei manylion yn Rhan H o'r Cod Rhwydwaith CVL.
Gorsafoedd CVL	y gorsafoedd a restrir yn Appendix B i'r Datganiad Rhwydwaith CVL hwn.
Nwyddau Peryglus	mae ganddo'r ystyr a roddir iddo yn adran 3.4.4 y Datganiad Rhwydwaith CVL hwn.
Egwyddorion a Rheolau Priodoli Oedi	yr ystyr a roddir iddo yn Rhan A o'r Cod Rhwydwaith CVL. Yn unol â chyhoeddiad Bwrdd DAPR yma
Digwyddiad Aflonyddol	unrhyw ddigwyddiad neu amgylchiad sy'n atal neu'n tarfu'n sylweddol ar weithrediad trenau neu unrhyw ran o'r Rhwydwaith CVL yn unol â'r Amserlen Weithio.
ECM	endid sy'n gyfrifol am gynnal a chadw (ar Rhwydwaith CVL).
UE	yr Undeb Ewropeaidd.
Grŵp Llywio Digwyddiad	mae ganddo'r ystyr a roddir iddo yn Rhan D Cod Rhwydwaith CVL.
Digwyddiad	digwyddiad neu grŵp o ddigwyddiadau yn ymwneud â'r Rhwydwaith CVL, a ddangosir yn y Calendr Digwyddiadau.
Datganiad Capasiti Fframwaith	mae ganddo'r ystyr a roddir iddo yn adran 4.4.1 y Datganiad Rhwydwaith CVL hwn.
Hawl Gadarn	Hawl:

	(a) Cyfranogwr Amserlen o dan Gytundeb Mynediad mewn perthynas â chwantwm, amseriad, neu unrhyw nodwedd arall o symudiad trên. (b) IM CVL o dan y Rheolau ac na fynegir yn y naill achos na'r llall ei fod yn ddarostyngedig i unrhyw ddigwyddiad wrth gefn y tu hwnt i reolaeth deiliad yr hawl (ac eithrio yn achos (a), gall yr hawl fod yn ddarostyngedig i'r Rheolau.
FTN	Rhwydwaith Telathrebu Sefydlog.
GSM-R	System Fyd-eang ar gyfer Cyfathrebu Symudol - Rheilffordd.
Gwefan IM	yw adran rheolwr seilwaith gwefan Gwasanaethau Rheilffyrdd Trafnidiaeth Cymru yma
Rheolwr Seilwaith	mae ganddo'r ystyr a roddir iddo yn y Rheoliadau Rheilffyrdd.
Pecyn Isafswm Mynediad	mae ganddo'r ystyr a roddir iddo yn adran 5.3 y Datganiad Rhwydwaith CVL hwn.
Cyhoeddiadau Gweithrediadau Cenedlaethol	a gynhyrchwyd o dan y Cod Safonau Rheilffyrdd. Mae NOP yn diffinio cyfarwyddiadau ar gyfer defnydd uniongyrchol gan staff a gyflogir gan weithredwyr trafndiaeth, er enghraifft y Llyfr rheolau sy'n cynnwys cyfarwyddiadau ar gyfer gyrwyr, signalwyr, neu weithwyr trac.
Cofrestr Cerbydau Cenedlaethol	Cronfa ddata o gerbydau, gan gynnwys statws awdurdodi, fel sy'n ofynnol o dan Reoliadau Rheilffyrdd (Rhyngweithredu) 2011 (fel y'u diwygiwyd), gyda'r gofrestr honno'n cael ei chynnal gan Network Rail.
Network Rail	Network Rail Infrastructure Limited, cwmni sydd wedi'i gofrestru yn Lloegr o dan y rhif 029045877 sydd â'i swyddfa gofrestredig yn Swyddfa Gyffredinol Waterloo, Llundain, y Deyrnas Unedig, SE1 8SW.
Rhwydwaith Network Rail	y seilwaith rheilffyrdd a'r cyfleusterau rheilffordd y mae Network Rail yn berchen ar y cyfleuster (fel y'i diffinnir yn y Ddeddf Rheilffyrdd) a'r Rheolwr Seilwaith.
Gwasanaethau Rhwydwaith	mae ganddo'r ystyr a roddir iddo yn adran 82(2) o Ddeddf Rheilffyrdd 1993.
Amserlen Weithio Newydd	fersiwn yr Amserlen Weithio Newydd a gyhoeddwyd gan Network Rail ar ran IM CVL yn D-26 yn unol ag Amod D2.7.1 o'r Cod Rhwydwaith CVL (fel y gellir ei ddiwygio yn unol ag Amod D2.7.4 o'r Cod Rhwydwaith CVL), a fydd yn rhan o'r amserlen a elwir yn "Amserlen Weithio Newydd" a gyhoeddwyd gan Network Rail mewn perthynas â'r Rhwydwaith Network Rail.

ORR	Swyddfa'r Rheilffyrdd a'r Ffyrdd.
Cod Cywirdeb Data Perfformiad	mae ganddo'r ystyr a roddir iddo yn Rhan B o'r Cod Rhwydwaith CVL.
Prif Ddyddiad Newid	y dyddiad gweithredu newid cyntaf, a'r prif ddyddiad, ar gyfer gwneud diwygiadau i'r Amserlen Weithio, sy'n digwydd yng ngeaf blwyddyn galendr.
Prif Amserlen	yr Amserlen Weithio a sefydlir ar gyfer y flwyddyn sy'n dechrau ar y dydd Sul yn syth ar ôl yr ail ddydd Sadwrn ym mis Rhagfyr.
Dyddiad Blaenoriaeth	mae ganddo'r ystyr a roddir iddo yn Rhan D Cod Rhwydwaith CVL.
Rheoliadau Rheilffyrdd (Trwyddedu)	Rheoliadau Rheilffyrdd (Trwyddedu Ymgymeriadau Rheilffyrdd) 2005, fel y'u diwygiwyd.
Rheoliadau Rheilffyrdd	Rheoliadau Rheilffyrdd (Mynediad, Rheoli a Thrwyddedu Ymgymeriadau Rheilffyrdd) 2016, fel y'u diwygiwyd. yma
Safonau'r Grŵp Rheilffyrdd	a gynhyrchwyd o dan y Cod Safonau Rheilffyrdd. Mae Safonau'r Grŵp Rheilffyrdd yn diffinio gofynion ac yn cynnwys rheolau technegol cenedlaethol a rheolau diogelwch cenedlaethol sy'n berthnasol i'r brif system reilffyrdd.
Safonau'r Diwydiant Rheilffyrdd	a gynhyrchwyd o dan y Cod Safonau Rheilffyrdd. Mae RIS yn diffinio gofynion o ran y brif system reilffyrdd, nad ydynt o fewn cwmipas rheolau technegol cenedlaethol.
Ymgymeriadau Rheilffyrdd	unrhyw ymgymeriad cyhoeddus neu breifat, sydd wedi'i drwyddedu yn unol â'r Rheoliadau Trwyddedu Rheilffyrdd, a'i brif fusnes yw darparu gwasanaethau ar gyfer cludo nwyddau a/neu deithwyr ar y rheilffordd gyda gofyniad bod yn rhaid i'r ymgymeriad sicrhau tyniant (mae hyn hefyd yn cynnwys ymgymeriadau sy'n darparu tyniant yn unig).
Trwydded Ymgymeriad Rheilffyrdd	yr ystyr a roddir iddo yn Rheoliadau Rheilffyrdd (Trwyddedu Ymgymeriadau Rheilffyrdd) 2005.
Deddf Rheilffyrdd	Deddf Rheilffyrdd 1993 (fel y'i diwygiwyd).
RNE	RailNetEurope, cymdeithas o reolwyr seilwaith Ewropeaidd.
Rheoliadau ROGS	Rheoliadau Rheilffyrdd a Thrafnidiaeth Arweiniol Arall (Diogelwch) 2006 fel y'u diwygiwyd.
Llwybrau	yr ystyr a roddir iddo yn Rhan A o'r Cod Rhwydwaith CVL.
RSSB	Bwrdd Diogelwch a Safonau'r Rheilffyrdd.
Rheolau	y Rheolau Cynllunio Amserlen a'r Datganiad Mynediad Peirianeg CVL.

Atodiad Adrannol	mae ganddo'r ystyr a roddir iddo yn adran 2.3 y Datganiad Rhwydwaith CVL hwn.
Is-ddeddfwriaeth	Mae is-ddeddfwriaeth yn gyfraith a grëwyd gan weinidogion (neu gyrff eraill) o dan bwerau a roddwyd iddynt gan Ddeddf Seneddol. Fe'i defnyddir i lenwi manylion Deddfau (deddfwriaeth sylfaenol). Mae'r manylion hyn yn darparu mesurau ymarferol sy'n galluogi'r gyfraith i gael ei gorfodi a'i gweithredu mewn bywyd pob dydd.
Panel SoAR	Mae'r Panel Gwerthu Hawliau Mynediad (SoAR) yn gorff llywodraethu sy'n sicrhau dull cyson, teg ac effeithlon o drafod a chytuno ar werthu hawliau mynediad trac i weithredwyr trên a dyrannu capasiti sydd ar gael ar draws rhwydwaith rheilffyrdd CVL.
SNRP	Datganiad o Ddarpariaethau Rheoleiddio Cenedlaethol.
Cytundeb Mynediad i Orsafoedd	contract ar gyfer hawliau mynediad i Orsafoedd CVL.
Amodau Mynediad i Orsafoedd	mewn perthynas â Cytundeb Mynediad i Orsafoedd, yr amodau a ymgorfforir yn y Cytundeb Mynediad i Orsafoedd perthnasol a elwir yn Amodau Mynediad i Orsafoedd, fel y'u haddasir o bryd i'w gilydd â chymeradwyaeth ORR. Mae copi o'r amodau CVL ar gael ar wefan IM yma .
Datganiad Capasiti Strategol	y datganiad a gyhoeddir gan IM CVL yn nodi Llwybrau Strategol.
Llwybr Strategol	y gallu posibl i gynnwys gwasanaethau newydd yn yr Amserlen Weithio Newydd a'r Amserlen Weithio trwy Slot Trên Strategol.
Slot Trên Strategol	Slot Trên wedi'i gynnwys yn yr Amserlen Weithio Newydd a'r Amserlen Weithio i gynrychioli Llwybr Strategol.
Amserlen Atodol	addasiad y Brif Amserlen a sefydlir am hanner nos ar y trydydd dydd Sadwrn ym mis Mai yn ystod cyfnod cyfredol y Brif Amserlen.
TfW	Trafnidiaeth Cymru, cwmni cyfyngedig preifat sy'n eiddo llwyr i Weinidogion Cymru, sydd wedi'i gorffori yng Nghymru a Lloegr gyda rhif cwmni 09476013 a gyda'i swyddfa gofrestredig yn 3 Llys Cadwyn, Pontypridd, Cymru, CF37 4TH.
TfWRL	Rheilffyrdd Trafnidiaeth Cymru Cyf, cwmni cyfyngedig preifat sydd wedi'i gorffori yng Nghymru a Lloegr gyda rhif cwmni 12619906 a gyda'i swyddfa gofrestredig yn 3 Llys Cadwyn, Pontypridd, Cymru, CF37 4TH.
Grŵp Asesu Risg ar gyfer Newid Amserlen	y grŵp gyda'r enw hwn wedi'i sefydlu gan Network Rail.

Grŵp Sicrwydd ar gyfer Newid Amserlen	y grŵp gyda'r enw hwn wedi'i sefydlu gan Network Rail.
Panel Amserlennu	mae ganddo'r ystyr a roddir iddo yn Rheolau Datrys Anghydfodau Mynediad CVL.
Rheolau Cynllunio Amserlen	y ddogfen o'r un enw a gyhoeddir gan Network Rail yma .
Cytundeb Mynediad Trac	contract rhwng IM CVL ac Ymgymeriad Rheilffyrdd sy'n llywodraethu mynediad yr Ymgymeriad Rheilffyrdd i'r Rhwydwaith CVL.
TDLCR	Rheoliadau Rheilffyrdd a Systemau Trafnidiaeth Gyfeiriedig Eraill (Diwygiadau Amrywiol) 2013 fel y'u diwygiwyd
Amrywiad Gweithredwr Trenau	mae ganddo'r ystyr a roddir iddo yn Rhan D Cod Rhwydwaith CVL.
Llwybr Trenau	capasiti'r seilwaith sydd ei angen i redeg trêen rhwng dau le dros gyfnod penodol o amser.
Slot Trêen	mae ganddo'r ystyr a roddir iddo yn Rhan D Cod Rhwydwaith CVL.
Gweinidogion Cymru	Gweinidogion Cymru y mae eu prif le busnes yn Adeiladau'r Goron, Parc Cathays, Caerdydd, CF10 3NO, neu unrhyw olynnydd i'w holl hawliau neu swyddogaethau neu ran ohonynt.
Amserlen Weithio	yr amserlen a ddefnyddir at ddibenion gweithio, fel y disgrifir ymhellach yn adran 4.1y Datganiad Rhwydwaith CVL hwn, a fydd yn rhan o'r amserlen a elwir yr "Amserlen Weithio" a gyhoeddwyd gan Network Rail mewn perthynas â'r Rhwydwaith Network Rail.

1. Gwybodaeth gyffredinol

1.1 Rhagymadrodd

TfW sy'n berchen ar Rwydwaith Llinellau Craidd y Cymoedd (CVL) ac mae wedi'i brydlesu i Reolwr Seilwaith CVL. IM CVL yw Rheolwr Seilwaith y Rhwydwaith CVL at ddibenion y Rheoliadau Rheilffyrdd, ac mae wedi cyhoeddi'r Datganiad Rhwydwaith CVL hwn mewn perthynas â'r Rhwydwaith CVL.

Mae IM CVL yn gyfrifol am weithredu, cynnal a chadw, adnewyddu ac amnewid y seilwaith rheilffyrdd ar Rwydwaith CVL yn unol ag amodau ei drwydded rhwydwaith, am reoli a diogelwch yr holl draffig trenau, yn ogystal ag am gymryd rhan yn natblygiad y seilwaith.

Mae'r Rhwydwaith CVL yn cynnwys twneli, traciau a seilwaith cysylltiedig. Mae'r trac yn cwmpasu'r llwybrau sy'n cael eu dangos ar fap y Rhwydwaith CVL (gweler Appendix A) ac yn cysylltu â Rhwydwaith Network Rail mewn dau bwynt cysylltu ar wahân. Mae un pwynt cysylltu i'r gogledd o Orsaf Caerdydd Canolog ac mae'r pwynt cysylltu arall i'r gogledd o Orsaf Parc Ninian.

Ar gyfer 2027, mae 57 o orsafoedd yn cael eu gwasanaethu gan Rwydwaith CVL, gyda dwy orsaf newydd yn Tre Bute a Crwys Road i'w hagor erbyn 2027. Ar hyn o bryd, mae'r Gorsafoedd CVL yn cael eu prydlesu gan IM CVL i TfWRL (fel perchennog cyfleuster y Gorsafoedd CVL). Gweler adran 1.6.2y Datganiad Rhwydwaith CVL hwn i gael manylion cyswllt TfWRL.

Os oes gan Ymgymeriad Rheilffyrdd sy'n ceisio mynediad i'r Rhwydwaith CVL gytundeb mynediad trac presennol â Network Rail, bydd angen newid y cytundeb mynediad trac presennol â Network Rail er mwyn adlewyrchu gweithrediad y gyfundrefn berfformiad sy'n cael ei gweinyddu gan Network Rail ar ran IM CVL, fel y disgrifir yn adran 5.7.

1.2 Pwrpas y Datganiad Rhwydwaith CVL

Pwrpas y Datganiad Rhwydwaith CVL hwn yw rhoi gwybod i Ymgeiswyr, yr awdurdodau perthnasol, a phartïon eraill sydd â diddordeb am y Rhwydwaith CVL a'r telerau ac amodau ar gyfer dyrannu capasiti a defnydd mewn perthynas â'r Rhwydwaith CVL.

Mae'r Datganiad Rhwydwaith CVL hwn yn cyflwyno'r gwasanaethau y mae IM CVL yn eu cynnig, gyda gwybodaeth am ble mae gwasanaethau o'r fath yn hygyrch, sut mae dyrannu swyddogaethau gwasanaethau, pa ffioedd sy'n

berthnasol a'r amodau sy'n berthnasol ar gyfer cael mynediad at wasanaethau o'r fath.

Datblygwyd y Datganiad Rhwydwaith CVL hwn yn unol â'r Rheoliadau Rheilffyrdd. Yn benodol, mae'r Datganiad Rhwydwaith CVL hwn yn darparu gwybodaeth gyffredinol am y Rhwydwaith CVL, amodau mynediad i'r Rhwydwaith CVL gan weithredwyr trafnidiaeth, rheolau, gweithdrefnau a meini prawf ar gyfer dyrannu capasiti a thaliadau ar gyfer yr un peth.

Ymgysylltodd IM CVL yn agos â'r diwydiant cyn cyhoeddi'r Datganiad Rhwydwaith CVL hwn.

1.3 Agweddau Cyfreithiol

1.3.1 Fframwaith cyfreithiol

Mae fframwaith cyfreithiol diwydiant rheilffordd Prydain Fawr wedi ei lywodraethu'n bennaf gan Ddeddf Rheilffyrdd 1993, Deddf Rheilffyrdd 2005, y Ddeddf Diogelwch Rheilffyrdd a Thrafnidiaeth 2003 ac ystod o ddeddfwriaeth eilaidd.

Mae'r rheilffyrdd hefyd yn cael eu llywodraethu gan y Rheoliadau Rheilffyrdd a'r Rheoliadau Rheilffyrdd (Trwyddedu). Mae'r rheoliadau hyn yn nodi gofynion amrywiol gan gynnwys:

- dyrannu capasiti seilwaith rheilffyrdd (gweler adran 4 am fanylion ynghylch dyrannu capasiti ar Rhwydwaith CVL).
- codi tâl am ddefnyddio seilwaith rheilffyrdd (gweler adran 5 y Datganiad Rhwydwaith CVL hwn i gael manylion yr egwyddorion ar gyfer codi tâl y bydd IM CVL yn gosod taliadau yn unol â hwy);
- trwyddedu Ymgymeriadau Rheilffyrdd (gweler adran 3.2.3 y Datganiad Rhwydwaith CVL hwn am fanylion y gofynion trwyddedu perthnasol).
- cynhyrchu a chynnwys datganiadau rhwydwaith.

Defnyddir Rheoliadau Rheilffyrdd a Systemau Trafnidiaeth Gyfeiriedig Eraill (Diogelwch) 2006 (fel y'u diwygiwyd) (ROGS) ar gyfer rheoli diogelwch.

Gweler adran 3.2.4 y Datganiad Rhwydwaith CVL hwn am wybodaeth am dystysgrifau diogelwch.

Fel Rheolwr Seilwaith, mae IM CVL yn cynnal ac yn datblygu'r Rhwydwaith CVL ac mae ganddo drefniadau ar waith ar gyfer panel o'r enw Panel Sicrhau Seilwaith Amey Cymru (AIWAP) i wirio diogelwch seilwaith newydd neu newid

cyn iddo gael ei roi mewn gwasanaeth ar Rwydwaith CVL, ar yr amod nad yw diogelwch seilwaith o'r fath eisoes wedi'i asesu gan y panel a sefydlwyd gan Network Rail o'r enw Panel Derbyn Network Rail.

Bydd IM CVL yn gweithredu'r Rhwydwaith CVL yn unol â'r holl ddeddfwriaeth berthnasol.

1.3.2 Statws cyfreithiol ac atebolrwydd

Bwriedir y Datganiad Rhwydwaith CVL hwn i fod yn ffynhonnell wybodaeth ar gyfer cwsmeriaid presennol a chwsmeriaid posibl IM CVL. Oherwydd hynny, bwriedir iddo fod yn ddogfen addysgiadol yn unig ac yn unol â hynny nid oes ganddo rym contractol. Ni fwriedir iddo fod yn wahoddiad i drin neu i fod yn gynnig i ymrwmo i gontract.

Fe wnaed ymdrechion rhesymol i sicrhau bod y wybodaeth a ddarperir yn y Datganiad Rhwydwaith CVL hwn yn gywir. Nid yw'r CVL yn derbyn unrhyw atebolrwydd am wallau, hepgoriadau, neu anghywirdebau ynghylch gwybodaeth gan bartïon allanol. Paratowyd y Datganiad Rhwydwaith CVL hwn er budd cwsmeriaid presennol a chwsmeriaid posib, er mwyn cydymffurfio â gofynion y Rheoliadau Rheilffyrdd. Bwriedir iddo fod yn addysgiadol, ond ni ddylai cwsmeriaid (rhai presennol a rhai posib) ddibynnu ar unrhyw eitem o wybodaeth sydd ynddo heb wirio'n gyntaf gyda ni i ba raddau y mae'n briodol gwneud hynny.

Bydd unrhyw wallau, anghysondebau, neu hepgoriadau yn y Datganiad Rhwydwaith CVL hwn a hysbysir i IM CVL yn cael eu hadolygu a (lle bo'n briodol) eu cywiro yng nghyhoeddiad nesaf y Datganiad Rhwydwaith CVL hwn.

Ni all IM CVL dderbyn unrhyw gyfrifoldeb am gynnwys unrhyw wefan allanol neu ddogfen trydydd parti y cyfeirir ati yn y Datganiad Rhwydwaith CVL hwn.

1.3.3 Gweithdrefn apelio

Mae gan "Fuddiolwr Mynediad" sy'n barti i Gytundeb Mynediad Trac gyda IM CVL neu "Barti Mynediad Posib" (fel y diffinnir termau o'r fath yn Rhan A y Cod Rhwydwaith CVL) yr hawl i herio penderfyniadau a wneir gan y IM CVL mewn perthynas â'i swyddogaethau o dan Ran D y Cod Rhwydwaith CVL ynghylch y canlynol:

- amserlennu.
- y Datganiad Mynediad Peirianeg CVL; a'r
- Rheolau Cynllunio Amserlen.

Mae unrhyw heriau o'r fath yn cael eu clywed gan y panel perthnasol o dan y Rheolau Datrys Anghydfodau Mynediad CVL. Gweler adran 4.5.5.2 y Datganiad Rhwydwaith CVL hwn am ragor o fanylion ynghylch y Rheolau Datrys Anghydfodau Mynediad CVL, sydd ar gael fel atodiad i'r Cod Rhwydwaith CVL [yma](#).

Os yw unrhyw Ymgeisydd yn credu ei fod wedi cael ei drin yn annheg, wedi gwahaniaethu yn ei erbyn, neu wedi ei dramgwyddo fel arall ynghylch y Datganiad Rhwydwaith CVL hwn, neu unrhyw fater arall a bennir yn rheoliad 32(2) o'r Rheoliadau Rheilffyrdd, gellir gwneud apêl i'r ORR.

Byddai IM CVL yn gwahodd unrhyw un sydd â phryderon ynghylch y Datganiad Rhwydwaith CVL hwn neu'r materion y cyfeirir atynt ynddo, i'w codi gyda IM CVL (gan ddefnyddio'r manylion cyswllt ar gyfer y IM CVL a nodir yn adran 1.6.1 y Datganiad Rhwydwaith CVL hwn) yn y lle cyntaf, fel y gellir ystyried sut y gellir datrys y pryderon hynny.

1.4 Strwythur y Datganiad Rhwydwaith CVL

Mae strwythur y Datganiad Rhwydwaith CVL hwn yn dilyn Canllaw Strwythur a Gweithredu Cyffredin y Datganiad Rhwydwaith, a fabwysiadwyd gan Reolwyr Seilwaith Ewropeaidd sy'n perthyn i RailNetEurope (RNE) (gweler adran 1.7.2 isod). Adolygir y Datganiad Rhwydwaith Strwythur Cyffredin a Chanllaw Gweithredu pan fo angen, ac mae'r fersiwn diweddaraf ar gael ar wefan RNE [yma](#).

Nod y Canllaw Strwythur a Gweithredu Cyffredin yw y gall pob Ymgeisydd a phartïon sydd â diddordeb ddod o hyd i'r un wybodaeth yn yr un lle ym mhob Datganiad Rhwydwaith.

Felly mae'r Datganiad Rhwydwaith CVL hwn wedi'i strwythuro mewn saith adran sy'n ffurfio'r brif ddogfen, gydag atodiadau yn rhoi manylion pellach:

- **Mae Adran 1**(Gwybodaeth Gyffredinol) - yn rhoi gwybodaeth gyffredinol am y Datganiad Rhwydwaith CVL hwn a chysylltiadau perthnasol.
- **Mae Adran 2**(Seilwaith) – yn disgrifio prif nodweddion technegol a swyddogaethol y Rhwydwaith CVL.
- **Mae Adran 3**(Amodau Mynediad) - yn diffinio'r gofynion cyfreithiol a'r amodau mynediad i'r Rhwydwaith CVL.
- **Mae Adran 4**(Dyrannu Capasiti) - yn nodi'r weithdrefn ar gyfer dyrannu Llwybrau Trenau.

- **Mae Adran 5** (Gwasanaethau a Thaliadau) - yn rhoi trosolwg o'r gwasanaethau a ddarperir gan IM CVL yn ogystal â'r taliadau am y gwasanaethau hyn. Mae'r cynlluniau cymhelliant hefyd wedi'u cynnwys yn yr adran hon.
- **Mae Adran 6** (Gweithrediadau) - yn disgrifio'r gweithdrefnau rheoli traffig, gan gynnwys y gweithdrefnau i'w dilyn os bydd digwyddiadau.
- **Mae Adran 7** (Cyfleusterau Gwasanaeth) - yn darparu trosolwg o'r cyfleusterau gwasanaeth sy'n gysylltiedig â'r Rhwydwaith CVL.

1.5 Cyfnod Dilysrwydd, Diweddaru a Chyhoeddi

1.5.1 Cyfnod dilysrwydd

Mae'r Rheoliadau Rheilffyrdd yn ei gwneud yn ofynnol i IM CVL fel Rheolwr Seilwaith gyhoeddi datganiad rhwydwaith bedwar mis cyn y dyddiad cau ar gyfer ceisiadau am gapasiti seilwaith (y dyddiad blaenoriaeth ar gyfer yr amserlen berthnasol). O ganlyniad, mae'r Datganiad Rhwydwaith CVL hwn i'w ddefnyddio ar gyfer ceisiadau am gapasiti ar gyfer blwyddyn amserlen 2027 (13 Rhagfyr 2025 i 11 Rhagfyr 2027).

1.5.2 Diweddaru

Bydd y IM CVL yn diweddaru'r Datganiad Rhwydwaith CVL hwn fel y bo'n angenrheidiol i gynnwys gwybodaeth ddiwygiedig neu ychwanegol a/neu adlewyrchu newidiadau sylweddol o bryd i'w gilydd a chyhoeddi'r fersiwn wedi'i diweddaru ar y Wefan IM [yma](#).

Yn benodol, bydd Seilwaith Amey Cymru yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf, yn enwedig ym meysydd contractau mynediad a dyrannu capasiti, mewn digon o amser ar gyfer sefyllfa Rheilffyrdd Prydain Fawr yn y dyfodol.

Yn ogystal â'r diweddariadau hyn, bydd IM CVL yn cyhoeddi fersiwn wedi'i diweddaru y Datganiad Rhwydwaith CVL hwn unwaith y flwyddyn. Lle bydd angen, bydd IM CVL yn ymgynghori cyn ei gyhoeddi'n ffurfiol.

Ar ôl i ddogfen gael ei lawrlwytho o'r Wefan IM, bydd yn syrthio y tu allan i unrhyw broses rheoli newid a gynigir gan IM CVL.

Sylwch fod llawer o'r dogfennau ategol y cyfeirir atynt yn y Datganiad Rhwydwaith CVL hwn yn ddarostyngedig i'w proses rheoli newid eu hunain.

1.5.3 Cyhoeddi

Er mwyn i'r Datganiad Rhwydwaith CVL hwn fod yn ddogfen hawdd ei defnyddio, mae'n hwyluso mynediad at wybodaeth bellach drwy ddolenni i wefannau neu fanylion cyswllt yn ogystal â'r wybodaeth a nodir ynddo.

Bydd IM CVL yn cadw'r Datganiad Rhwydwaith CVL hwn yn gyfredol ac yn ei gwneud yn glir pan fydd diweddaru wedi digwydd (trwy weithredu rheolaeth fersiwn).

Cyhoeddir y Datganiad Rhwydwaith CVL hwn yn y Saesneg a Ffrangeg. Mae'r ddwy fersiwn ar gael yn rhad ac am ddim mewn fformat electronig ar wefan IM [yma](#). Yn ogystal â Saesneg a Ffrangeg, gall IM CVL ddewis cyhoeddi'r Datganiad Rhwydwaith CVL hwn mewn ieithoedd eraill o bryd i'w gilydd.

Er bod IM CVL wedi cymryd gofal i sicrhau bod holl fersiynau iaith y Datganiad Rhwydwaith CVL hwn wedi'u halinio, os bydd anghysondebau neu anawsterau dehongli rhwng y fersiynau Saesneg a'r rhai nad ydynt yn Saesneg, y fersiwn Saesneg sy'n drech.

1.6 Cysylltiadau

1.6.1 Materion neu fynediad sy'n ymwneud â'r Rhwydwaith CVL (gan gynnwys sylwadau ar y Datganiad Rhwydwaith CVL hwn)

Seilwaith Amey Cymru / Amey Infrastructure Wales Limited

At Sylw: Cyfarwyddwr Rheoli Seilwaith
Cyfeiriad: Depo Seilwaith CVL Trafnidiaeth Cymru
Ystad Ddiwydiannol Trefforest, Heol Gwent
Pontypridd CF37 5UT
E-bost: CVLTrackAccess@amey.co.uk

1.6.2 Ar faterion yn ymwneud â mynediad i Orsafoedd CVL

Rheilffyrdd Trafnidiaeth Cymru Cyf. (TfWRL) fel Perchennog Cyfleuster yr Orsaf

At Sylw: Chris Dellard, Pennaeth Cynllunio Mynediad
Cyfeiriad: 3 Llys Cadwyn
Pontypridd
Cymru
CF37 4TH
E-bost: Chris.Dellard@tfwrail.wales

1.6.3 Ar faterion yn ymwneud â Masnachfaint Cymru a'r Gororau

Trafnidiaeth Cymru (TfW)

At Sylw: Cyfarwyddwr Gweithrediadau
Cyfeiriad: 3 Llys Cadwyn
Pontypridd
Cymru
CF37 4TH

Gwefan: <https://trc.cymru/>

1.6.4 Ar faterion yn ymwneud â Gorsaf Caerdydd Canolog, Gorsafoedd Network Rail eraill a mynediad trac i'r Rhwydwaith Network Rail

Ar gyfer ymholiadau yn ymwneud â mynediad trac i deithwyr a Mentrau Rheilffyrdd posibl i deithwyr heb fasnachfaint:

At Sylw: Gianmaria Cutrupi
Rheolwr Gweithrediadau Mynediad Agored Aspirant
Cyfeiriad: Network Rail
Waterloo General Offices
Llundain SE1 8SW
E-bost: gianmaria.cutrupi@networkrail.co.uk

Ar gyfer ymholiadau yn ymwneud â chwsmeriaid cludo nwyddau newydd:

At Sylw: Guy Bates
Pennaeth Datblygu Cludo Nwyddau
Cyfeiriad: Network Rail
Waterloo General Offices
Llundain SE1 8SW
E-bost: guy.bates@networkrail.co.uk

1.6.5 Amserlennu

At Sylw: Tîm Amserlen Weithio
Network Rail
Cyfeiriad: The Quadrant
Milton Keynes MK9 1EN
Ffôn: +44 (0) 7734 282514
E-bost: NRT-WTT@networkrail.co.uk
Gwefan: <https://www.networkrail.co.uk/running-the-railway/the-timetable/working-timetable/>

a'i chopïo at:

Seilwaith Amey Cymru / Amey Infrastructure Wales Limited

At Sylw: Cyfarwyddwr Rheoli Seilwaith
Cyfeiriad: Depo Seilwaith CVL Trafnidiaeth Cymru
Ystad Ddiwydiannol Trefforest, Heol Gwent
Pontypridd CF37 5UT
E-bost: CVLTrackAccess@amey.co.uk

1.6.6 Materion sy'n ymwneud â thrwyddedau/eithriadau rheilffordd Prydain Fawr

At Sylw: Y Tîm Trwyddedu
Cyfeiriad: Swyddfa Rheilffordd a Ffordd
25 Cabot Square
Llundain E14 4QZ
E-bost: licensing.enquiries@orr.gov.uk
Gwefan: <https://www.orr.gov.uk>

1.6.7 Tystysgrifau Diogelwch

At Sylw: Uwch Weithredwr: Caniatáu Diogelwch
Cyfeiriad: Swyddfa Rheilffordd a Ffordd,
3rd Floor, Mallard House, Kings Pool,
1-2 Peasholme Green,
Caerefrog, YO1 7PX
E-bost: ROGS@orr.gov.uk
Gwefan: <https://www.orr.gov.uk>

1.6.8 Bwrdd Diogelwch a Safonau'r Rheilffyrdd.

Cyfeiriad: 25 Fenchurch Avenue
Llundain EC3M 5AD
Gwefan: <http://www.rssb.co.uk/>

1.7 Cydweithrediad rhwng Rheolwyr Seilwaith Ewropeaidd a Buddiolwyr Mynediad

1.7.1 Coridorau cludo nwyddau ar reilffyrdd

Dirymwyd Rheoliad (UE) Rhif 913/2010 yn y DU ar 31 Rhagfyr 2020 gan y Rheoliadau Rheilffyrdd (Diwygiadau Amrywiol, Dirymiadau a Darpariaethau Trosiannol) (Ymadael â'r UE) 2020.

Nid yw'r Rhwydwaith CVL yn cynnwys nac yn rhan o unrhyw goridor cludo nwyddau. Ar hyn o bryd mae Network Rail yn aelod o Rail Net Europe.

1.7.2 Rail Net Europe

Mae RailNetEurope (RNE), yn sefydliad ymbarél o Reolwyr Seilwaith rheilffyrdd Ewropeaidd a Chyrff Dyrannu (IM/AB). Mae RNE yn hwyluso busnes rheilffyrdd rhyngwladol drwy ddatblygu prosesau busnes rhyngwladol cyson ar ffurf templedi, llawlyfrau a chanllawiau, yn ogystal ag offer TG.

Nid yw AIW (IM CVL) yn aelod o RNE. Gallwch ddod o hyd i ragor o wybodaeth am RNE ar wefan RNE [yma](#).

- Mae arbenigwyr OSS wedi'u tynnu o faes gwerthiannau ac amserlennu yn uno eu harbenigedd yn y meysydd hyn i wasanaethu cwsmeriaid ynghyd â phwyntiau cyswllt OSS.
- Offer TG sy'n cynorthwyo Ymgeiswyr ymhellach drwy roi amcangyfrifon prisiau ar gyfer defnydd seilwaith rheilffyrdd, drwy gydlyn prosesau archebu a chyflenwi llwybrau trenau rhyngwladol, a thrwy olrhain trenau rhyngwladol mewn amser real.

Mae'r rhestr o bersonau cyswllt OSS a gwybodaeth bellach ar gael ar wefan RNE [yma](#).

2. Seilwaith

2.1 Rhagymadrodd

Mae adran 2 yn cynnwys disgrifiad o nodweddion swyddogaethol a thechnegol y Rhwydwaith CVL. Fe'i llunnir er mwyn diwallu anghenion gwybodaeth Ymgymeriadau Rheilffyrdd presennol a newydd mewn cysylltiad â chynllunio traffig rheilffyrdd. Darperir cyfeiriadau a dolenni at ddogfennaeth ategol fel y bo'n berthnasol yn yr adran hon.

Mae'r Rhwydwaith CVL yn system reilffyrdd wyneb prif linell sy'n cysylltu â Rhwydwaith Network Rail mewn dau bwynt cyswllt ar wahân (un i'r gogledd o Orsaf Caerdydd Canolog a'r llall i'r gogledd o Orsaf Parc Ninian) ac yn rhedeg i mewn i Gymoedd Caerdydd drwy linellau rheiddiol i Rymni, Coryton, Merthyr Tudful, Aberdâr a Threherbert, ac i Fae Caerdydd. Ar hyn o bryd, mae Rhwydwaith CVL yn cael ei gyfarparu â Thrydanu Llinell Uwchben 25 kV amharhaol y gellir ei ddefnyddio gan gerbydau aml-ddull gyda nodweddion penodol yn unig ac sydd â swyddogaethau ychwanegol i reoli'r newid pŵer. Disgwylir i'r gwaith hwn gael ei gwblhau yn ystod 2026.

Mae IM CVL yn gyfrifol am weithredu, cynnal a chadw, adnewyddu ac amnewid y seilwaith rheilffyrdd ar Rwydwaith CVL yn unol ag amodau ei drwydded rhwydwaith, am reoli a diogelwch yr holl draffig trenau, yn ogystal ag am gymryd rhan yn natblygiad y seilwaith.

Mae IM CVL yn gyfrifol am weithgareddau sy'n ymwneud â chynnal a chadw ar Rwydwaith CVL, gan gynnwys ond heb fod yn gyfyngedig i:

- pontydd a thraphontydd.
- twneli.
- gwrthgloddiau.
- gorsafoedd.
- adeiladau a strwythurau.
- offer cyflenwad pŵer.
- Systemau Trydaneiddio (OLE 25kV).
- croesfannau rheilffordd.
- systemau signalau.
- trac.

- oddi ar y trac (gan gynnwys draeniad a llystyfiant); a
- cyfathrebu ymyl llinell.

Cynllunnir gwaith cynnal a chadw yn barhaus gyda chylch deuddeg mis o weithgarwch wedi'i gadarnhau.

2.1.1 Gwybodaeth bellach

Ceir gwybodaeth a data manwl am y seilwaith yn yr Atodiad Adrannol, a ddisgrifir yn Adran 2.3.

Mae'r Atodiad Adrannol yn cynnwys data manwl am seilwaith y prif rwydwaith rheilffyrdd, sy'n cynnwys llinellau rhedeg (ond nid o reidrwydd cilffyrdd) ar sail llinell y llwybr, fel arfer ar ffurf diagram neu dabl. Ceir sawl cyfeiriad at dablau yn yr Atodiad Adrannol fel ffynonellau gwybodaeth fanwl yn yr adran ganlynol.

Network Rail sy'n cadw ac yn cynnal Cofrestr Rheilffyrdd y DU (gweler adran 3.4.1.1).

2.2 Maint y Rhwydwaith CVL

2.2.1 Terfynau

Mae'r Datganiad Rhwydwaith CVL hwn yn cwmpasu'r Rhwydwaith CVL cyfan.

Mae gan Rhwydwaith CVL brif ganolfan yn Heol y Frenhines Caerdydd ac mae'n rhedeg i:

- Gorsaf Ganolog Caerdydd (gweler paragraff 3.2.2 am ffiniau).
- Bae Caerdydd.
- Treherbert.
- Aberdâr.
- Merthyr Tudful;
- Coryton.
- Rhymni.
- Cwmbargoed (cludo nwyddau yn unig – allan o ddefnydd dros dro); a
- Hirwaun (cludo nwyddau yn unig - allan o ddefnydd dros dro).

Gweler Appendix A am fap llwybr y Rhwydwaith CVL.

Mae Rhwydwaith CVL yn rhyngddibynnol ac yn cael ei weithredu fel un rhwydwaith wedi'i integreiddio â Rhwydwaith Network Rail. Mae hyn yn cynnwys yr holl weithgareddau amserlennu ar Rhwydwaith CVL.

2.2.2 Rhwydweithiau rheilffyrdd cysylltiedig

Mae Rhwydwaith CVL yn cysylltu â rhwydweithiau rheilffyrdd eraill yn y lleoliadau canlynol:

Lleoliad	Rheolwr Seilwaith
Pont groesffordd (Cyffordd Gogledd Canol Caerdydd)	Network Rail
Gorsaf Parc Ninian (i'r gogledd o orsaf Parc Ninian)	Network Rail
Rhymni LMD	TfW Rail Ltd
Depo Ffynnon Taf	Depo ar gyfer cynnal a chadw Cerbydau math 398.

2.3 Disgrifiad rhwydwaith

Disgrifir cyfluniad a nodweddion ffisegol y Rhwydwaith CVL yn Adran Orllewinol yr Atodiad Adrannol Electronig Cenedlaethol [yma](#). Caiff ei gyhoeddi

a'i reoli gan Network Rail ac mae ar gael (yn gyfan gwbl neu'n rhannol) i'r Ymgymeriadau Rheilffyrdd hynny sy'n defnyddio Rhwydwaith CVL.

Lle nad yw Ymgymeriadau Rheilffyrdd yn gallu cyrchu'r Atodiad Adrannol Electronig Cenedlaethol, gellir gwneud cais am wybodaeth i IM CVL (cyfeiriwch at fanylion cyswllt IM CVL yn adran 1.6.1 uchod).

2.3.1 Teipolegau traciau

Mae Rhwydwaith CVL yn cynnwys cyfanswm o 215.3km o gymysgedd o drac sengl a dwbl. Mae hyn yn cynnwys 21.4km o drac cludo nwyddau yn unig (gyda 6km allan o ddefnydd dros dro ar hyn o bryd).

Mae trac dwbl o Gaerdydd Canolog (ar Rwydwaith Network Rail) i Heol y Frenhines Caerdydd sy'n lleihau i drac sengl gyda mannau pasio wrth i'r llwybr ymestyn i flaenau pob cwm.

Y ffynhonnell derfynol o ddeunydd cyfeirio ar gyfer manylion topoleg traciau ar Rwydwaith CVL yw Tabl A o'r Atodiad Adrannol [yma](#).

Gweler adran 2.3 am ragor o wybodaeth am yr Atodiad Adrannol.

2.3.2 Mesuryddion Traciau

Mae Rhwydwaith CVL yn gweithredu i fesur trac safonol enwol o 1435mm, sydd yr un fath â Rhwydwaith Network Rail.

2.3.3 Gorsafoedd a nodau

Ar hyn o bryd, mae Rhwydwaith CVL yn gwasanaethu 57 o orsafoedd (mae rhestr ohonynt yn Appendix B y Datganiad Rhwydwaith CVL hwn).

Mae'r Gorsafoedd CVL yn cael eu prydlesu gan IM CVL i TfwRL (perchennog cyfleuster y Gorsafoedd CVL). Mae manylion cyswllt TfwRL yn adran 1.6.2 y Datganiad Rhwydwaith CVL hwn.

Mae pwyntiau nodol allweddol yng Nghyffordd Gogledd Heol y Frenhines Caerdydd, Cyffordd y Mynydd Bychan, Cyffordd Pontypridd a Chyffordd Abercynon. Gwasanaethir Cyffordd Radur drwy orsafoedd Heol y Frenhines Caerdydd a Chaerdydd Canolog.

Gellir canfod y pellteroedd rhwng gorsafoedd a phrif nodau o'r Atodiad Adrannol, sydd hefyd yn cynnwys uchafswm pwysau a hyd y trê'n y gellir ei gynnwys ar Rwydwaith CVL. Gweler adran 2.3 am ragor o wybodaeth am yr Atodiad Adrannol.

Ceir rhagor o fanylion am orsafoedd yn adran 7.3 y Datganiad Rhwydwaith CVL hwn.

2.3.4 Mesurydd Llwytho

Gellir diffinio dimensiynau ffisegol cerbyd rheilffordd a'i lwyth fel rhai sy'n cydymffurfio ag un o gyfres o broffiliau uchder a lled neu fesuryddion cludo nwyddau safonol. Gellir defnyddio'r mesuryddion hyn ar lwybr penodol er mwyn sicrhau na fydd cerbyd rheilffordd yn dod i gysylltiad ag ochr y llinell neu strwythur tros-linell megis platfformau gorsaf, canopïau, cyflenwadau pŵer uwchben, trosbontydd, neu dwneli.

Y mesurydd llwytho ar Rwydwaith CVL fel arfer yw W6a. Rhaid asesu cerbydau rheilffordd teithwyr yn unigol, fodd bynnag, fel y disgrifir yn adran 3.4.1 y Datganiad Rhwydwaith CVL hwn, cyn cael eu derbyn i'w defnyddio ar Rwydwaith CVL.

Nid yw rhannau o'r Rhwydwaith CVL yn bodloni gofynion GE/RT8073, a chyfyngir, felly, ar rai cerbydau. Mae manylion unrhyw gyfyngiadau i'w gweld yn yr Atodiad Adrannol [yma](#).

2.3.5 Terfynau pwysau

Mae'r cyfyngiadau argaeledd llwybrau a ddisgrifir yn yr adran 2.3.5 hon yn berthnasol i gerbydau cludo nwyddau a locomotifau.

Uchafswm y llwyth echel ar Rwydwaith Rheilffordd CVL yw 25.4 tonnell. Mae terfynau pwysau echel a llwythi cerbydau dosbarthedig cyfatebol yn cael eu dosbarthu i werthoedd argaeledd llwybr (RA) rhwng 1 a 10, fel y dangosir isod.

Argaeledd llwybr	Llwyth echel
RA3	≤16.5 tonnell
RA5	≤19.0 tonnell
RA6	≤20.3 tonnell
RA8	≤22.8 tonnell
RA9	≤24.1 tonnell
RA10	≤25.4 tonnell
Cyfartaledd yr UE	≈22.5 tonnell

Mae argaeledd llwybrau ar Rwydwaith CVL fel arfer yn RA6, er bod rhai rhannau o'r Rhwydwaith CVL yn gyfyngedig. Mae rhannau eraill o'r Rhwydwaith CVL yn RA8. Cyfrifir Gallu Pontydd ar Rwydwaith CVL yn unol â GE/RT8006. Mae manylion llawn, gan gynnwys cyfyngiadau safle penodol, i'w gweld yn yr Atodiad Adrannol [yma](#).

Gellir rhoi goddefeb ar gyfer gweithrediad hyd at RA10 ar rai rhannau o lwybr CVL. Dylid gwneud ymholiadau am oddefeb i: cvltrackaccess@amey.co.uk
Gweler adran 2.3 am ragor o wybodaeth am yr Atodiad Adrannol.

Mae'r tabl isod yn dangos y llwythi echel a ganiateir ar gyfer cerbydau dwy echel a phedair echel ar Rwydwaith CVL.

Enghreifftiau o amodau llwyth o fewn mesuryddion safonol	Argaeledd llwybr (RA)
Cerbyd dwy-echel =-Pwysau gyda Llwyth Gros (tunelli)	
Hyd at 27.9t	1
Dros 27.9t a hyd at 30.4t	2
Dros 30.4t a hyd at 33.0t	3
Dros 33.0t a hyd at 35.5t	4
Dros 35.5t a hyd at 38.1t	5
Dros 38.1t a hyd at 40.6t	6
Dros 40.6t a hyd at 43.1t	7
Dros 43.1t a hyd at 45.7t	8
Dros 45.7t a hyd at 48.2t	9
Dros 48.2t a hyd at 50.8t	10
Cerbyd pedair echel (2 x bogi dwy echel) - Pwysau gyda Llwyth Gros (tunelli)	
Hyd at 66.0t	3
Dros 66.0t a hyd at 71.1t	4
Dros 71.1t a hyd at 76.2t	5
Dros 76.2t a hyd at 81.2t	6
Dros 81.2t a hyd at 86.3t	7
Dros 86.3t a hyd at 91.4t	8

Dros 91.4t a hyd at 96.5t	9
Dros 96.5t a hyd at 101.6t	10

2.3.6 Graddiant llinell

Y graddiant llinell uchaf ar Rwydwaith CVL yw 1 mewn 34. Mae yna ddeuddeg lleoliad gyda graddiant yn fwy na neu'n hafal i 1 mewn 100. Gellir cael manylion penodol gan IM CVL pan fyddant yn gysylltiedig ag ymholiad am fynediad.

2.3.7 Uchafswm Cyflymder Llinell

Y cyflymder uchaf a ganiateir ar Rwydwaith CVL yw 75mya (120km/a) er bod gan lawer o'r Rhwydwaith CVL gyflymder uchaf o 55mya (88km/a) neu is. Ceir manylion llawn yn yr Atodiad Adrannol [yma](#).

Gweler adran 2.3 am ragor o wybodaeth am yr Atodiad Adrannol.

2.3.8 Hyd Uchaf Trenau

Fel arfer, mae'r hyd mwyaf y gall trên weithredu arno yn cael ei bennu gan baramedrau seilwaith megis hyd yr adran signalau, hyd dolenni neu seidins y mae eu hangen i ganiatáu i drenau basio. Cyhoeddir hyd trên teithwyr a ganiateir yn y Rheolau Cynllunio Amserlen – gweler adran 4.5.4

Gweler yr Atodiad Adrannol [yma](#) am fanylion hyd y cilffyrdd. Gweler adran 2.3 am ragor o wybodaeth am yr Atodiad Adrannol.

2.3.9 Cyflenwad pŵer

Mae'r gwaith i drydaneiddio'r Rhwydwaith CVL gydag OLE ar 25Kv yn mynd rhagddo i ganiatáu cyflwyno cerbydau teithwyr trydan newydd o 2025. Bydd yr OLE yn amharhaol, a dim ond cerbydau aml-ddull y gellir ei groesi. Rhaid i gerbydau sy'n defnyddio'r CVL OLE fod wedi'u ffitio â chyfarpar rhyngwyneb tywysydd APCO, a rhaid iddynt fod â modd pŵer arall lle nad yw OLE byw yn bresennol (gweler hefyd 5.3.3.2).

Gweler adran 2.6 am wybodaeth am ddatblygu seilwaith.

Mae trenau cludo nwyddau diesel yn gweithredu ar Rwydwaith CVL. Gellir gweithredu Gwasanaethau Teithwyr gan unedau lluosog diesel neu goetsis teithwyr a gludir gan ddiesel.

2.3.10 Systemau signalau

Mae gan Rwydwaith CVL ddwy Ganolfan Rheoli Signalau gyda'r holl signalau yn trosglwyddo i Ganolfan Rheoli Integredig CVL erbyn diwedd 2027:

- Canolfan Rheoli Integredig CVL (CVLICC) Ffynnon Taf
- Canolfan Gweithredu Llwybr Cymru, Caerdydd (yr WROC).

Mae mwyafrif y Rhwydwaith CVL yn floc sefydlog gyda signalau golau lliw LED modern a gosodiad helaeth o gownteri echel.

2.3.11 Systemau rheoli traffig

Mae trenau ar Rwydwaith CVL yn cael eu rheoleiddio yn unol â'r polisïau rheoleiddio y cytunwyd arnynt yn unol â Chod Rhwydwaith CVL. Mae traffig yn cael ei reoleiddio ar gyfer rheoli perfformiad amser real.

Mae cymysgedd o osodiadau llwybr awtomatig ac nad ydynt yn awtomatig ar Rwydwaith CVL. Defnyddir Meddalwedd Gosod Llwybr Deinamig yn ICC CVL i helpu i ddatrys gwrthdaro.

Gweler adran 2.3.10 am fanylion y canolfannau rheoli.

Mae gweithrediad Llinellau Gweld yn cael ei gomisiynu ar Linell Bae Caerdydd (a gynlluniwyd yn 2026), sy'n cynnwys defnyddio system Signalau Rheilffordd Ysgafn.

2.3.12 Systemau cyfathrebu

Mae GSM-R wedi'i osod ledled Rhwydwaith CVL, ac fe'i defnyddir ar gyfer cyfathrebu diogel rhwng gyrwyr a signalwyr. Mae'n caniatáu cyswllt uniongyrchol rhwng signalwr a gyrrwr unigol, ac yn darparu cyfrwng ar gyfer creu galwadau brys a darllediadau eraill i bob trên mewn ardaloedd a ddiffiniwyd ymlaen llaw i'w rhybuddio am ddigwyddiadau neu amgylchiadau gweithredol sy'n effeithio arnynt. Gall gyrwyr hefyd wneud galwadau brys os oes argyfwng sy'n bygwth diogelwch gwasanaethau rheilffyrdd.

Mae'n orfodol bod pob cerbyd sy'n defnyddio'r Rhwydwaith CVL yn gallu cyfathrebu gan ddefnyddio'r system GSM-R.

Network Rail sy'n berchen ar y system GSM-R ar Rwydwaith CVL, sy'n cael ei chynnal a'i chadw ac yn cael ei darparu fel gwasanaeth i IM CVL.

2.3.13 Systemau rheoli trenau

System Rhybudd Awtomatig (AWS)

Mae AWS yn system orfodol sydd wedi'i gosod mewn cabiau gyrru ar locomotifau, Trelars Fan Gyrru (DVT), unedau lluosog a pheiriannau ar y trac. Mae'n darparu nodyn atgoffa gweledol a chlywadwy i'r gyrrwr o:

- arwydd signal "rhybudd" neu "clir"; neu
- rhai cyfyngiadau cyflymder parhaol neu dros dro penodol.

Bydd methiant y gyrrwr i gydnabod arwyddion rhybudd AWS yn gosod y brecio trên yn awtomatig.

System Rhybudd Diogelu Trên (TPWS)

Mae TPWS yn system awtomatig orfodol a osodir ym mhob cab gyrru ar locomotifau, DVT, unedau lluosog a pheiriannau ar y trac, sydd wedi'i dylunio i:

- cychwyn gosod y brêc pe bai'r trên yn pasio signalau dethol sydd mewn perygl neu'n mynd at signalau dethol sydd mewn perygl yn rhy gyflym.
- cychwyn gosod y brêc pe bai'r byffer dynesu trên yn stopio'n rhy gyflym; a
- cychwyn gosod y brêc lle mae trên yn agosáu at rai cyfyngiadau cyflymder parhaol yn rhy gyflym.

2.4 Cyfyngiadau traffig

2.4.1 Seilwaith Arbenigol

Nid oes unrhyw adran o'r Rhwydwaith CVL wedi'i dynodi i'w defnyddio fel seilwaith arbenigol o dan reoliad 25 y Rheoliadau Rheilffyrdd.

2.4.2 Cyfyngiadau amgylcheddol

Mae gweithredu trenau ar Rwydwaith CVL yn ddarostyngedig i ofynion cyfraith amgylcheddol a chyfraith gysylltiedig y DU, gan gynnwys niwsans statudol megis sŵn a mygdarth. Gwaherddir gollwng gwastraff o doiledau trên ar Rwydwaith CVL. Mae'n ofynnol i Ymgymeriadau Rheilffyrdd ddarparu copi o'u polisi amgylcheddol presennol i IM CVL, a rhaid i hyn roi sylw priodol i bolisi amgylcheddol IM CVL ei hun (ar gael ar gais) a mabwysiadu arfer da yn y diwydiant mewn perthynas ag effeithlonrwydd ynni.

Ceir rhagor o wybodaeth am gyfyngiadau amgylcheddol ar Rwydwaith CVL yn Rhan E Cod Rhwydwaith CVL.

Mae polisi rheoli llystyfiant IM CVL yn unol â'r safonau a gyhoeddwyd gan Network Rail mewn perthynas â rheoli llystyfiant.

2.4.3 Nwyddau Peryglus

Ar hyn o bryd nid oes llinellau neu adrannau penodol ar y seilwaith CVL lle na chaniateir nwyddau peryglus. Am ragor o wybodaeth, ewch i adran 3.4.4 y Datganiad Rhwydwaith CVL hwn.

2.4.4 Cyfyngiadau twneli

Dim ond dau dwnnel sydd ar Rwydwaith CVL, Caerffili a Bargod, ac mae'r olaf yn eiddo i Gyngor Sir Caerffili. Nid oes unrhyw gyfyngiadau penodol yn berthnasol i'r naill na'r llall o'r twneli hyn.

2.4.5 Cyfyngiadau pontydd

Mae Tabl D yr Atodiad Adrannol [yma](#) yn rhoi manylion cyfyngiadau cyffredinol ar lwybrau, ac mae'r Atodiad Adrannol hefyd yn dangos manylion cyfyngiad cyflymder parhaol ar Rwydwaith CVL

Nid oes unrhyw gyfyngiadau pontydd penodedig ychwanegol ar Rwydwaith CVL.

2.4.6 Cyfyngiadau oherwydd elfennau naturiol

Gosodir cyfyngiadau o bryd i'w gilydd i reoli'r risg sy'n gysylltiedig â thywydd garw neu eithafol. Gall y cyfyngiadau hyn gynnwys cyfyngiadau cyflymder, gostyngiadau mewn gwasanaethau trên, neu atal neu gwtogi gwasanaethau'n llwyr.

Mae IM CVL wedi mabwysiadu'r gweithdrefnau diffiniedig a gyhoeddwyd gan Network Rail (fel bod yr egwyddorion a'r rheolau perthnasol yn berthnasol i lywodraethu'r Rhwydwaith CVL) i ymdrin â'r materion hyn sydd, yn fras, yn perthyn i ddau gategori, effaith uniongyrchol y tywydd neu ffactorau tymhorol.

- cyflymder gwynt uchel neu hyrddio dros 50mya, gan gynnwys yr effaith ar offer llinellau uwchben:
- dyddodiad (glaw neu eira), gan gynnwys effaith llifogydd, fflachlifoedd, dirlawnder arglawdd a lluwchfeydd eira.
- glaw darfudol.

- eithafion tymheredd, gan gynnwys tymereddau rheilffordd uchel, iâ ar offer llinellau uwchben, clychau iâ; a
- effaith anuniongyrchol y tywydd neu ffactorau tymhorol e.e. adlyniad gwael i ben y rheilffordd a achosir gan ddail yn cwmpo.

2.5 Argaeledd y Seilwaith

Mae Rhwydwaith CVL ar gau ar hyn o bryd ar 25 Rhagfyr bob blwyddyn. Gall Ymgymeriadau Rheilffyrdd wneud cais yn y ffordd arferol i redeg trenau ar y dyddiad hwn a gall IM CVL ddarparu ar gyfer cais o'r fath.

Effeithir ar argaeledd seilwaith gan y cyfyngiadau sy'n ofynnol at ddibenion gwaith cynnal a chadw, adnewyddu a gwella, boed o natur adweithiol neu wedi'i gynllunio. Mae'r rhain wedi'u nodi yn Natganiad Mynediad Peirianeg CVL, a gyhoeddwyd fel rhan o ddatganiad Mynediad Peirianeg Network Rail, sydd i'w weld [yma](#), o dan Reolau Gweithredol EAS/TPR.

Mae Datganiad Mynediad Peirianeg CVL yn disgrifio'r rheolau sy'n rheoleiddio'r trefniadau ar gyfer mynediad peirianeg i'r Rhwydwaith CVL.

Mae'n nodi lleoliad, nifer, dyddiadau a hyd mynediad meddiant (cyfyngiadau defnydd) y mae IM CVL ei angen i gyflawni gweithgareddau arolygu, cynnal a chadw, adnewyddu a gwella, boed o natur wedi'i gynllunio neu adweithiol, i'r Rhwydwaith CVL.

Bydd IM CVL yn sicrhau bod Gwasanaethau Rheilffyrdd sy'n gweithredu ar Rwydwaith CVL yn cael y wybodaeth ddiweddaraf am beryglon ar Rwydwaith CVL.

Am ragor o wybodaeth am argaeledd Rhwydwaith CVL, gweler adran 4 y Datganiad Rhwydwaith CVL hwn.

2.6 Datblygu Seilwaith

Mae'r rhaglen barhaus o waith a noddir gan Drafnidiaeth Cymru i drawsnewid y Rhwydwaith CVL yn parhau, gan wella capasiti ac amseroedd rhedeg ar Linellau Craidd y Cymoedd. Bwriedir cwblhau'r rhaglen erbyn diwedd 2026, ac mae'n cynnwys yr elfennau allweddol canlynol:

- mae'r gwaith i drydaneiddio rhannau sylweddol o'r Rhwydwaith CVL yn mynd rhagddo, a bwriedir cwblhau'r gwaith ynni yn ystod 2026.
- ailreolaeth o orsaf waith y Dyffryn yn ROC Cymru (i ICC CVL yn Ffynnon Taf), a gynlluniwyd i ddigwydd yn ystod 2027).

- gwelliannau i gyflymder y llinell gyda gwaith galluogi, gan gynnwys adrannau trac dwbl ychwanegol / mannau hirach – cyflwyniad parhaus hyd at fis Tachwedd 2025.
- Cyflwyno tywysyddion i gyfathrebu â cherbydau newydd
- Trydaneiddio Llinell Bae Caerdydd a chyflwyno Unedau Dosbarth 398, gyda Llinellau Gweld yn rhedeg ar y llinell hon.

Ceir rhagor o fanylion am y Gwaith Trawsnewid ar Wefan Trafnidiaeth Cymru: [yma](#).

3. Amodau Mynediad

3.1 Rhagymadrodd

Mae Adran 3 y Datganiad Rhwydwaith CVL hwn yn disgrifio'r amodau a theleru sy'n ymwneud â mynediad i'r Rhwydwaith CVL.

3.2 Gofynion mynediad cyffredinol

Mae mynediad i'r Rhwydwaith CVL yn cael ei lywodraethu'n bennaf gan y Ddeddf Rheilffyrdd a'r Rheoliadau Rheilffyrdd. Mae'r drefn hon hefyd yn cwmpasu rhwydweithiau ym Mhrydain Fawr, ac eithrio'r Rhwydwaith CVL, i'r graddau nad yw rhwydweithiau o'r fath wedi'u heithrio.

O dan y Ddeddf Rheilffyrdd, bydd unrhyw un sy'n ceisio mynediad i'r Rhwydwaith CVL er mwyn gweithredu trenau angen Cytundeb Mynediad Trac gyda IM CVL (fel y Rheolwr Seilwaith), a bydd IM CVL yn rhoi caniatâd i ddefnyddio'r Rhwydwaith CVL yn unol ag ef. Yn y mwyafrif o achosion, er mwyn gwneud cais am Lwybr Trenau ar Rwydwaith CVL, rhaid i Ymgeisydd fod wedi ymrwymo i Gytundeb Mynediad Trac. Gall buddiolwyr mynediad posib gymryd rhan yn y broses cynllunio trenau ar yr amod eu bod wedi cadarnhau'n ysgrifenedig y byddant yn fodlon bod yn llofnodwr i ran D Cod Rhwydwaith CVL. Ewch i adran 3.3 am ragor o wybodaeth. Dylid gwneud ceisiadau am fynediad i'r Rhwydwaith CVL i CVLTrackAccess@amey.co.uk

Mae gorsafoedd a depos cynnal a chadw ysgafn yn cael eu trin fel cyfleusterau ar wahân. Os oes angen mynediad i orsaf neu ddepo cynnal a chadw ysgafn ar Ymgymeriad Rheilffyrdd, bydd angen iddo ymrwymo naill ai i gontract mynediad gyda pherchennog y cyfleuster (lle mae'r cyfleuster yn cael ei reoleiddio o dan y Ddeddf Rheilffyrdd) neu gytundeb defnydd gyda'r perchennog perthnasol (lle bo'r cyfleuster wedi'i eithrio rhag darpariaethau perthnasol y Ddeddf Rheilffyrdd).

TfWRL yw perchennog y cyfleuster ar gyfer pob un o'r Gorsafoedd CVL. Mae cyfleuster cynnal a chadw yn Ffynnon Taf ar gyfer cynnal a chadw Unedau Dosbarth 398. Gweler adran 7.3.6 y Datganiad Rhwydwaith CVL hwn am ragor o wybodaeth am y cyfleusterau cynnal a chadw nad ydynt ar Rwydwaith CVL.

O dan y Ddeddf Rheilffyrdd, dim ond gyda chymeradwyaeth ORR y gall Ymgeiswyr ymrwymo i gontract gyda pherchennog cyfleuster am ganiatâd i ddefnyddio cyfleuster rheilffordd y perchennog hwnnw. Os na chaiff y contractau hyn (a diwygiadau iddynt) eu cymeradwyo gan ORR lle mae hynny'n ofynnol yn ôl y gyfraith, maent yn annilys.

Lle nad yw'r partïon wedi gallu cytuno ar delerau contract newydd, neu ddiwygiad dilynol i gontract presennol lle mae'r Ymgeisydd yn ceisio mwy o ddefnydd o fynediad i'r Rhwydwaith CVL, gall yr Ymgeisydd ofyn i ORR roi cyfarwyddiadau sy'n gofyn bod perchennog y cyfleuster yn ymrwmo i gontract mynediad neu ei ddiwygio fel y pennir gan ORR.

Bydd IM CVL yn arwain Ymgymeriadau Rheilffyrdd sy'n ceisio mynediad i'r Rhwydwaith CVL drwy'r broses ymgeisio am fynediad i drac. Gweler y manylion cyswllt ar gyfer IM CVL a nodir yn adran 1.6.1 y Datganiad Rhwydwaith CVL hwn.

Mae ORR hefyd wedi datblygu nifer o ddogfennau canllaw mynediad i gynorthwyo darpar Ymgymeriadau Rheilffyrdd, sydd i'w gweld [yma](#).

3.2.1 Amodau ar gyfer gwneud cais am gapasiti ar Rwydwaith CVL

Mae'r broses amserlennu (fel y'i llywodraethir gan Ran D Cod Rhwydwaith CVL) yn agored i unrhyw un sy'n rhan o'r Cod Rhwydwaith CVL yn rhinwedd cael Cytundeb Mynediad Trac gyda'r CVL IM, neu unrhyw un sydd yn ddiwyll yn bwriadu ymrwmo i un ac sydd wedi cytuno i gael ei rymo gan ddarpariaethau perthnasol Cod Rhwydwaith CVL a'r Rheolau Datrys Anghydfod Mynediad CVL. Nid oes angen i berson o'r fath fodloni'r gofynion y cyfeirir atynt yn adran 3.2.2 y Datganiad Rhwydwaith CVL hwn er mwyn cymryd rhan yn y broses amserlennu, er y bydd angen bodloni'r gofynion hynny cyn defnyddio'r Llwybrau Trenau mewn gwirionedd.

Mae Ymgymeriadau Rheilffyrdd fel arfer yn cymryd rhan yn uniongyrchol yn y broses amserlennu. Fodd bynnag, gall Ymgymeriad Rheilffyrdd (neu Ymgymeriad Rheilffyrdd posib neu ddeiliad hawliau mynediad) ymgysylltu â thrydydd parti (megis Ymgymeriad Rheilffyrdd arall neu ymgynghoriaeth annibynnol) i wneud ceisiadau am Llwybrau Trenau.

O dan y Rheoliadau Rheilffyrdd ni all Ymgeisydd sydd wedi ymrwmo i Gytundeb Mynediad Trac gyda IM CVL, sy'n nodi nodweddion y mynediad a roddwyd neu gapasiti seilwaith penodol ar ffurf Llwybr Trenau, fasnachu'r capasiti hwnnw ag Ymgeisydd arall na'i drosglwyddo i ymgymeriad neu wasanaeth arall.

Ni fydd gan unrhyw berson sy'n masnachu gallu yn groes i'r darpariaethau a nodir uchod hawl i wneud cais am gapasiti am gyfnod yr Amserlen Weithiol y mae'r dyraniad a drosglwyddwyd yn berthnasol iddo.

3.2.2 Amodau mynediad i'r Seilwaith Rheilffyrdd

Mae nifer o amodau y mae'n rhaid i unrhyw Ymgeisydd eu bodloni cyn y gall ddefnyddio Llwybr Trên. Mae'r amodau hyn yn ei gwneud yn ofynnol i'r Ymgeisydd:

- (i) dal trwydded ddilys i fod yn weithredwr trenau a roddwyd o dan adran 8 y Ddeddf Rheilffyrdd neu esemptiad dilys a roddwyd gan ORR, neu (ii) trwydded Ymgymeriad Rheilffyrdd¹ a SNRP a roddwyd gan ORR o dan y Rheilffyrdd (Trwyddedu) Rheoliadau
- meddu ar dystysgrif diogelwch ddilys a chyfredol a roddwyd o dan y Rheoliadau ROGS (gweler adran 3.2.4).
- Os ydynt yn bwriadu rheoli a gweithredu gorsaf, mae'n ofynnol iddynt feddu ar awdurdodiad diogelwch fel y nodir yn Rheoliad 3(2) (Prif Linell) neu 4(2) (Heb fod yn Brif Linell) ROGS.
- Cynnal Cytundeb Mynediad Llwybrau CVL ar gyfer y seilwaith y mae'r ymgeisydd yn bwriadu ei ddefnyddio, a chytundeb arall a nodir yn y TAC perthnasol.
- dod yn llofnodwr i'r Cytundeb Dyrannu a Thrin Hawliadau ac i Reolau Datrys Anghydfodau Mynediad CVL sydd wedi'u hymgorffori mewn Cytundeb Mynediad Trac drwy God Rhwydwaith CVL.
- dod yn llofnodwr i Gytundeb Mynediad i Orsafoedd ar gyfer y gorsafoedd y mae'n bwriadu eu defnyddio, ac unrhyw gytundebau eraill a nodir yn y Cytundeb Mynediad Trac perthnasol; a
- meddu ar yswiriant priodol (gweler adran 3.2.5) – gall hyn hefyd fod yn rhan o'r amodau i gael y drwydded y cyfeirir ati uchod.

Er mwyn i'r Cytundeb Mynediad Trac perthnasol fod yn ddilys, rhaid i ORR fod wedi cyfarwyddo IM CVL i ymrwymo iddo.

Cyn cwblhau Cytundeb Mynediad Trac newydd, neu ymestyn neu gynyddu'n sylweddol capasiti fframwaith Cytundeb Mynediad Trac presennol, bydd Pamel SoAR IM CVL yn ystyried y canlynol:

- sicrhau'r defnydd gorau posibl o'r capasiti seilwaith sydd ar gael ar Rwydwaith CVL, gan gynnwys y defnydd o rwydweithiau eraill, gan ystyried cyfyngiadau capasiti a gynlluniwyd.

¹ Cafodd trwyddedau Ewropeaidd eu hail-enwi yn Drwyddedau Ymgymeriad Rheilffyrdd yn y Rheoliadau (Trwyddedu) Rheilffyrdd diwygiedig yn dilyn ymadael â'r UE.

- anghenion masnachol cyfreithlon yr Ymgeisydd lle mae'r Ymgeisydd wedi dangos bod ganddo'r bwriad a'r gallu gwirioneddol i ddefnyddio'r capasiti y gofynnir amdano yn y Cytundeb Mynediad Trac.
- anghenion teithwyr, y sector cludo nwyddau a buddsoddwyr, gan gynnwys endidau gwladwriaethol ac endidau cyhoeddus a phreifat eraill.
- sicrhau mynediad anwahaniaethol i'r Rhwydwaith CVL a chymryd i ystyriaeth argaeledd y cyfleusterau a'r gwasanaethau cysylltiedig a gyflenwir yn y cyfleusterau hyn cyn belled ag y bo'r wybodaeth hon ar gael i IM CVL.
- cyllid IM CVL a datblygiad y Rhwydwaith CVL yn y dyfodol.
- hyrwyddo effeithlonrwydd yng ngweithrediad y Rhwydwaith CVL, a chyhyd ag y bo modd, cyfleusterau cysylltiedig, gan gynnwys gwaith cynnal a chadw, gwella ac adnewyddu wedi'u cynllunio.
- bod gwasanaethau cludo nwyddau, yn enwedig gwasanaethau Cludo Nwyddau Rhyngwladol, yn cael ystyriaeth ddigonol yn unol â'r Rheoliadau Rheilffyrdd.
- sicrhau rheolaeth gymesur, wedi'i thargedu, tryloyw, teg, gyda digon o adnoddau ar gyfer y Rhwydwaith CVL.
- methiant blaenorol, os o gwbl, i ddefnyddio capasiti fframwaith a'r rhesymau dros y methiant hwnnw fel y nodir yn y Rheoliadau Rheilffyrdd.
- y meini prawf blaenoriaeth sy'n berthnasol i'r dyraniad llwybrau yn y weithdrefn amserlennu, fel y cyfeirir atynt yn rheoliad 26 y Rheoliadau Rheilffyrdd a datganiadau o seilwaith tagfeydd; ac
- os yw'n berthnasol, yr angen i sicrhau perfformiad ariannol hirdymor trafndiaeth gyhoeddus a ddarperir o dan gontract gwasanaeth cyhoeddus.

Cynghorir ymgeiswyr sydd angen mynediad i'r Rhwydwaith CVL ac allan ohono drwy rwydweithiau eraill (yn enwedig Rhwydwaith Network Rail) i wirio gofynion Rheolwyr Seilwaith perthnasol rhwydweithiau o'r fath hefyd. Os oes gan Ymgymeriad Rheilffyrdd sy'n ceisio mynediad i'r Rhwydwaith CVL gytundeb mynediad trac presennol gyda Network Rail, bydd angen gwelliant i gytundeb mynediad trac presennol o'r fath gyda Network Rail er mwyn adlewyrchu gweithrediad y drefn berfformio sy'n cael ei gweinyddu gan Network Rail ar ran IM CVL, fel y disgrifir yn adran 5.7 isod.

3.2.3 Trwyddedau

Mae'r Ddeddf Rheilffyrdd yn ei gwneud yn drosedd i weithredu fel gweithredwr trenau ym Mhrydain Fawr heb drwydded neu eithriad trwydded a roddwyd o dan y Ddeddf Rheilffyrdd. Bydd angen i geisiadau am drwyddedau a wneir fod yn unol â'r gofynion a nodir yn y Rheoliadau (Trwyddedu) Rheilffyrdd diwygiedig.

ORR yw'r corff sy'n gyfrifol am roi trwyddedau o dan y Ddeddf Rheilffyrdd a'r Rheoliadau (Trwyddedu) Rheilffyrdd, i weithredu gwasanaethau trenau ym Mhrydain Fawr. Rhaid i ddeiliaid Trwydded Ymgymeriad Rheilffyrdd hefyd feddu ar SNRP. Dylid gwneud ceisiadau am drwyddedau, eithriadau neu SNRP i ORR (gweler adran 1.6 am fanylion cyswllt). Mae canllawiau ychwanegol ar gael [yma](#).

Byddai trwyddedau teithwyr a chludo nwyddau, a/neu'r SNRP cysylltiedig, fel arfer yn gofyn am fodloni amodau sy'n ymwneud â'r canlynol:

- aelodaeth o RSSB.
- aelodaeth o'r Grŵp Cyflenwi Rheilffyrdd.
- ymuno â threfniadau'r diwydiant rheilffyrdd ar gyfer dyrannu a thrin hawliadau.
- cael polisi amgylcheddol gydag amcanion gweithredol a threfniadau rheoli cysylltiedig.
- rhwymedigaethau tocynnau (trwyddedau teithwyr yn unig); a
- rhwymedigaethau sy'n ymwneud ag yswiriant (gweler adran 3.2.5).

3.2.4 Tystysgrifau Diogelwch

Bydd yn ofynnol i unrhyw un sydd am weithredu trenau ar Rwydwaith CVL sefydlu a chynnal system rheoli diogelwch briodol a meddu ar dystysgrif diogelwch sy'n bodloni gofynion y Rheoliadau ROGS.

Rhaid i ymgymeriad trafndiaeth prif linell wneud cais am dystysgrifau yn y ddwy ran ganlynol:

- Mae Rhan A yn cadarnhau derbyniad system rheoli diogelwch yr Ymgymeriad Rheilffyrdd; ac
- Mae Rhan B yn ymwneud â system drafnidiaeth benodol ac yn cadarnhau derbyn y darpariaethau a fabwysiadwyd gan yr

Ymgymieriad Rheilffyrdd i fodloni gofynion penodol sy'n angenrheidiol ar gyfer gweithrediad diogel y rhwydwaith perthnasol.

Dylid gwneud ceisiadau am dystysgrif diogelwch o dan y Rheoliadau ROGS i ORR (gweler adran 1.6 am fanylion cyswllt) a dylid anfon copi at bartïon yr effeithir arnynt (gan gynnwys IM CVL).

Mae rhagor o wybodaeth, gan gynnwys canllawiau a manylion ar sut i wneud cais, ar gael ar wefan yr ORR [yma](#).

Ymdrinnir â gofynion diogelwch ar gyfer cerbydau a chymhwysedd staff cysylltiedig yn adran 3.4.1 ac adran 3.4.2 yn y drefn honno.

3.2.5 Yswiriant

Bydd trwydded gweithredwr trenau, neu SNRP, yn cynnwys gofynion ar gyfer yswiriant yn erbyn rhwymedigaethau trydydd parti. Mae isafswm rhagosodedig presennol yr yswiriant indemniad wedi'i osod ar £155 miliwn o yswiriant fesul digwyddiad, fel sy'n ofynnol gan gymeradwyaeth gyffredinol ORR ar gyfer trefniadau yswiriant atebolrwydd trydydd parti. Fodd bynnag, gellir cytuno ar amrywiad i'r gymeradwyaeth gyffredinol hon lle bo'n briodol ar gais i ORR. Gellir lawrlwytho'r gymeradwyaeth gyffredinol hon o wefan ORR [yma](#).

3.3 Trefniadau Contractol

Mae amrywiaeth o ddogfennau sy'n nodi amodau a rheolau masnachol cyffredinol mewn perthynas â Rhwydwaith CVL. Disgrifir dogfennau allweddol isod.

3.3.1 Cytundeb Fframwaith

Mae "cytundeb fframwaith" (fel y'i diffinnir yn y Rheoliadau Rheilffyrdd) yn pennu nodweddion y capasiti seilwaith a ddyrennir i Ymgeisydd dros gyfnod o amser sy'n hwy na hyd un cyfnod amserlen. Mae'n darparu ar gyfer y pecyn mynediad isafswm (gweler adran 5.3). Nid yw'n nodi Llwybrau Trenau yn fanwl, ond mae'n rhoi sicrwydd y dylai capasiti addas fod ar gael i ddiwallu anghenion masnachol yr Ymgeisydd, fel y rhagwelwyd ar adeg ymrwymo i'r cytundeb.

Ar gyfer y Rhwydwaith CVL, cyflawnir swyddogaeth cytundebau fframwaith gan y Cytundebau Mynediad Trac a wneir [yma](#) rhwng yr Ymgeisydd ac IM CVL. Mae Cytundebau Mynediad Trac yn ymgorffori Cod Rhwydwaith CVL.

Cyn dod â chytundeb fframwaith newydd i ben neu ymestyn neu gynyddu capasiti fframwaith cytundeb fframwaith presennol, bydd IM CVL yn ystyried y canlynol:

- (a) sicrhau'r defnydd gorau posibl o'r capasiti seilwaith sydd ar gael, gan gynnwys y defnydd o rwydweithiau eraill, gan ystyried cyfyngiadau capasiti a gynlluniwyd.
 - (b) anghenion masnachol cyfreithlon yr Ymgeisydd lle mae'r Ymgeisydd wedi dangos bod ganddo'r bwriad a'r gallu gwirioneddol i ddefnyddio'r capasiti y gofynnir amdano yn y cytundeb fframwaith.
 - (c) anghenion teithwyr, y sector cludo nwyddau a buddsoddwyr, gan gynnwys endidau Gwladwriaethol ac endidau cyhoeddus a phreifat eraill.
 - (d) sicrhau mynediad anwahaniaethol i seilwaith a chymryd i ystyriaeth argaeledd y cyfleusterau a'r gwasanaethau cysylltiedig a gyflenwir yn y cyfleusterau hyn cyn belled ag y bo'r wybodaeth hon ar gael i'r rheolwr seilwaith.
 - (e) ariannu'r rheolwr seilwaith a datblygu'r rhwydwaith yn y dyfodol.
 - (f) hyrwyddo effeithlonrwydd yng ngweithrediad seilwaith, a chyhyd ag y bo modd, cyfleusterau cysylltiedig, gan gynnwys gwaith cynnal a chadw, gwella ac adnewyddu wedi'u cynllunio.
 - (g) sicrhau rheolaeth gymesur, wedi'i thargedu, tryloyw, teg, gyda digon o adnoddau ar gyfer y rhwydwaith.
 - (h) methiant blaenorol, os o gwbl, i ddefnyddio capasiti fframwaith a'r rhesymau dros y methiant hwnnw.
 - (j) y meini prawf blaenoriaeth sy'n berthnasol i'r dyraniad llwybrau yn y weithdrefn amserlennu, fel y cyfeirir atynt yn y Rheoliadau Rheilffyrdd a datganiadau o seilwaith tagfeydd.
 - (k) os yw'n berthnasol, yr angen i sicrhau perfformiad ariannol hirdymor trafnidiaeth gyhoeddus a ddarperir o dan gontract gwasanaeth cyhoeddus.
- Lle bo Ymgeisydd am ymrwymo i Gytundeb Mynediad Trac ynghylch y Rhwydwaith CVL, dylai gysylltu ag IM CVL cyn gynted â phosib i drafod ei ofynion. Nid oes unrhyw ofyniad i gyflwyno unrhyw ffurflen gais cyn cysylltu ag IM CVL.

3.3.2 Contractau ag Ymgymeriadau Rheilffyrdd

Rhaid i Ymgymeriadau Rheilffyrdd sy'n ceisio mynediad i'r Rhwydwaith CVL ymrwymo i Gytundeb Mynediad Trac gyda IM CVL i gwmpasu cwrdd llawn y gweithrediadau arfaethedig cyn y gall y gweithrediadau hynny ddechrau. Bydd angen i Ymgymeriadau Rheilffyrdd sy'n ceisio mynediad i orsafoedd neu ddepos cynnal a chadw ysgafn nad ydynt yn gweithredu eu hunain, ymrwymo i gytundebau mynediad ar wahân gyda pherchennog y cyfleuster perthnasol (yn achos cyfleuster a reoleiddir o dan y Ddeddf Rheilffyrdd), neu gytundebau defnydd lle mae'r cyfleuster wedi ei eithrio rhag rhai darpariaethau yn y Ddeddf Rheilffyrdd.

Os oes gan Ymgymeriad Rheilffyrdd sy'n ceisio mynediad i'r Rhwydwaith CVL gytundeb mynediad trac presennol gyda Network Rail, bydd angen gwelliant i gytundeb mynediad trac presennol o'r fath gyda Network Rail er mwyn adlewyrchu gweithrediad y drefn berfformio sy'n cael ei gweinyddu gan Network Rail ar ran IM CVL, fel y manylir yn adran 5.7 isod.

Fel y nodwyd uchod, mae pob contract mynediad rheoledig (ac unrhyw ddiwygiadau i gontractau mynediad o'r fath) yn amodol ar gymeradwyaeth gan ORR. Os na chânt eu cymeradwyo, bydd y contractau'n gyfreithiol annilys.

Bydd IM CVL yn cyhoeddi ystod o gontractau mynediad templed ar Wefan IM [yma](#).

3.3.3 Contractau ag Ymgeiswyr nad ydynt yn Ymgymeriadau Rheilffyrdd

Lle bo ymgeisydd nad yw'n Ymgymeriad Rheilffyrdd yn ceisio mynediad i'r Rhwydwaith CVL, mae'n arferol i'r Ymgeisydd gael mynediad drwy Ymgymeriad Rheilffyrdd trydydd parti. Byddai'r hawliau'n cael eu dal gan yr Ymgymeriad Rheilffyrdd a threnau'n gweithredu ar y llwybr CVL ar ran yr Ymgeisydd. Felly, dylai Ymgeiswyr nad ydynt yn Ymgymeriadau Rheilffyrdd sy'n ceisio mynediad i'r Rhwydwaith CVL gysylltu ag Ymgymeriad Rheilffyrdd.

3.3.4 Amodau a Thelerau Cyffredinol

Mae'r amodau a thelerau y mae angen eu bodloni er mwyn defnyddio'r Rhwydwaith CVL wedi'u nodi yn y gwahanol gontractau, codau ac amodau a ddisgrifir yn adrannau'r Datganiad Rhwydwaith hwn.

3.4 Gofynion Mynediad Penodol

3.4.1 Derbyn Stoc Treigl

Rhaid i unrhyw endid sydd am gyflwyno cerbyd i'r Rhwydwaith CVL, neu wneud newidiadau i weithrediad neu beirianeg cerbyd sydd eisoes yn cael ei ddefnyddio ar Rhwydwaith CVL, ystyried effaith hyn ar bob Ymgymeriad Rheilffyrdd arall ac IM CVL. Er mwyn cynorthwyo Ymgymeriadau Rheilffyrdd yn y broses hon, mae IM CVL yn cymryd rhan mewn prosesau ymgynghori cydweddoldeb sy'n darparu dull strwythuredig ar gyfer asesu a chytuno ar unrhyw faterion cynhwysedd, diogelwch, rheoleiddio a masnachol sy'n bodoli rhwng yr Ymgymeriad Rheilffyrdd, IM CVL ac Ymgymeriadau Rheilffyrdd eraill.

Mae angen ymgynghori ar gyfer:

- cyflwyno cerbydau rheilffyrdd newydd.
- ymestyn llwybr(au) ar gyfer cerbydau presennol.

- newidiadau sylweddol i gerbydau; ac
- ychwanegu cerbydau gyda chliriad llwybr i gerbydau a ganiateir dan Gytundeb Mynediad Trac.

Mae dwy broses dan sylw:

- arddangosiad o gydnawsedd rhwng cerbyd rheilffordd a'r llwybrau y mae'r Ymgymeriad Rheilffyrdd yn dymuno iddo weithredu drostynt, yn unol â Safon y Diwydiant Rheilffyrdd RIS-8270-RST. Mae'r broses hon yn weithgaredd cydweithredol rhwng y gweithredwr a'r partïon yr effeithir arnynt, a'r allbwn ohono yw 'Datganiad Cydnawsedd' terfynol. Ar CVL caiff y broses hon ei rheoli, a chaiff ei derbyn a'i hawdurdodi drwy AIWAP.
- Newid Cerbyd CVL (Rhan F Cod Rhwydwaith CVL) sy'n delio â'r materion masnachol sy'n gysylltiedig â chyflwyno cerbydau newydd neu lwybrau newydd ar gyfer cerbydau presennol.

Ni chaiff Ymgymeriadau Rheilffyrdd roi unrhyw gerbyd sydd angen awdurdodiad ar ei gyfer yn unol â Rheoliadau Rheilffyrdd (Gweithredu) 2011 (fel y'u diwygiwyd), oni bai bod ganddynt awdurdodiad o'r fath.

Yn dilyn hyn, a chydymffurfio â'r safonau rhyngweithredu, rhaid i unrhyw gerbyd newydd, wedi'i adnewyddu neu wedi'i uwchraddio gael awdurdodiad cerbyd gan ORR cyn ei gyflwyno i'r Rhwydwaith Rheilffyrdd y DU. Mae rhagor o wybodaeth am broses awdurdodi ORR ar gael [yma](#).

Mae rhedeg trenau prawf ar Seilwaith CVL hefyd yn amodol ar gymeradwyaeth drwy Broses Gymeradwyo AIW (AIWAP) fel rhan o'r broses dderbyn.

Mae rhagor o wybodaeth am ryngweithredu, rôl ORR fel yr Awdurdod Diogelwch a'r awdurdodiadau y mae'n eu caniatáu ar gael yn: <https://orr.gov.uk/rail/health-and-safety/health-and-safety-laws/interoperability> ac ar wefan yr Adran Drafnidiaeth [yma](#).

Gall cerbydau cymeradwy gael mynediad i'r Rhwydwaith CVL yn amodol ar yr amodau a nodir yn y Cytundeb Mynediad Trac perthnasol.

Cyfeiriwch hefyd at adran 2.4 y Datganiad Rhwydwaith CVL hwn a'r [Atodiad Adrannol](#) am fanylion y cyfyngiadau ar gerbydau cludo nwyddau a locomotifau sy'n ymwneud ag argaeledd llwybrau ar Rhwydwaith CVL.

3.4.1.1 Cofrestr Seilwaith

Mae'r Rheoliadau Rhyngweithredu Rheilffyrdd yn mynnu bod yn rhaid i Berchennog y Seilwaith (Trafnidiaeth Cymru) allu sicrhau bod ei ddata seilwaith ar gael, gan fodloni gofynion yr RINF. Pwrpas y Gofrestr Seilwaith hon yw darparu tryloywder ar nodweddion y rhwydwaith, a gellir defnyddio'r wybodaeth a ddarperir at ddibenion cynllunio wrth ddylunio trenau newydd, i gynorthwyo gydag asesu pa mor gydnaws yw trenau â llwybrau cyn dechrau gweithredu, ac i'w defnyddio fel cronfa ddata gyfeirio. Mae agen creu cyfrif defnyddiwr er mwyn defnyddio'r Gofrestr Seilwaith. Network Rail sy'n cadw cofrestr seilwaith y DU.

Mae'r gofrestr yn rhoi ystyriaeth i'r prosesau dylunio ar gyfer is-systemau cerbydau, gan alluogi asesiad cydnawsedd technegol ar gyfer systemau sefydlog, monitro statws rhyngweithredu rhwydwaith rheilffyrdd y DU ac asesu cydweddoldeb llwybrau ar gyfer trenau a gynllunnir.

Gellir defnyddio data a bennir gan y Gofrestr Seilwaith (Rheoliad Gweithredu y Comisiwn (UE) 2019/777) at ddibenion cynllunio wrth ddylunio trenau newydd a datblygu llwybrau cyn dechrau gweithredu. Mae pob Perchennog Seilwaith yn gyfrifol am sicrhau bod y wybodaeth a nodir ym manyleb data'r RINF ar gael o fewn 28 diwrnod i gais gan ymgeisydd am awdurdodiad o dan RIR2011 neu gorff cymeradwy.

I gael rhagor o wybodaeth am y RINF, cysylltwch â:

At Sylw: Endid Cofrestru Cenedlaethol
Network Rail
Cyfeiriad: The Quadrant MK
Elder Gate
Milton Keynes
MK9 1EN
Ffôn: +44 (0) 1908 781 000
E-bost: RINF.NRE@networkrail.co.uk

3.4.1.2 Cofrestr Cerbydau Cenedlaethol

Penododd yr Ysgrifennydd Gwladol dros Drafnidiaeth Network Rail fel yr endid cofrestru sy'n gyfrifol am gynnal y Gofrestr Cerbydau Cenedlaethol. Pan fydd cerbyd yn cael ei roi mewn gwasanaeth am y tro cyntaf, mae deiliad y cofrestriad yn gyfrifol am hysbysu'r endid cofrestru am fanylion yr ECM.

Cyflwynodd y Rheoliadau ROGS ofyniad na chaiff unrhyw berson roi cerbyd i wasanaeth na defnyddio cerbyd ar y brif reilffordd (megis y Rhwydwaith CVL)

oni bai bod gan y cerbyd hwnnw ECM wedi'i aseinio iddo, a bod ECM wedi'i gofrestru felly yn y Gofrestr Cerbydau Cenedlaethol.

Os oes gennych unrhyw amheuaeth a oes gan gerbyd ECM ynghlwm wrtho, cysylltwch â'r Endid Cofrestru Cenedlaethol:

At Sylw: Endid Cofrestru NVR
Network Rail
Cyfeiriad: The Quadrant MK
Elder Gate
Milton Keynes
MK9 1EN
Ffôn: +44 (0) 1908 781 346
E-bost: NVR@networkrail.co.uk

3.4.2 Derbyniad staff

Mae Ymgymeriadau Rheilffyrdd a Rheolwyr Seilwaith yn gyfrifol am sicrhau bod staff sy'n ymwneud â symud trenau neu sy'n effeithio ar symdu trenau yn gymwys i gyflawni eu dyletswyddau.

Mae'r gofynion cymhwysedd a nodir mewn safonau a dogfennau eraill, a ddatblygwyd ac a gyhoeddwyd gan yr RSSB (am fanylion cyswllt, gweler adran 1.6.7 y Datganiad Rhwydwaith CVL hwn) ar gael ar wefan RSSB [yma](#).

Mae ORR wedi cyhoeddi canllawiau ar ddatblygu a chynnal cymhwysedd staff, sydd i'w gweld [yma](#).

3.4.2.1 Trwyddedau gyrru trên

Mae'r TDLCR yn berthnasol i drwyddedu gyrrwyr trenau:

Mae'r gofyniad i ddal trwyddedau a thystysgrifau a roddwyd yn unol â TDLCR yn berthnasol i bob gyrrwr trawsffiniol a domestig. Rheolir y broses ymgeisio ac awdurdodi gan ORR.

Mae angen i bob gyrrwr trên trawsffiniol, gan gynnwys y rhai sydd eisoes â thrwydded gyrru trên yr UE, gael trwydded gyrru trên y DU a roddwyd gan y Swyddfa Rheilffyrdd a Ffyrdd er mwyn gyrru ar seilwaith Prydain Fawr. Ceir manylion ar wefan yr ORR [yma](#).

3.4.3 Llwythi Eithriadol

Efallai y bydd angen gosod amodau teithio arbennig ar rai cerbydau neu lwythi oherwydd eu maint, pwysau, neu nodweddion anarferol eraill. Gall yr amodau hyn gynnwys:

- cyfyngiadau cyflymder;
- cyfyngiadau trefnu; a/neu
- cyfarwyddiadau arbennig ar gyfer pasio trenau ar linellau cyfagos.

Mae unrhyw amodau arbennig gofynnol yn cael eu pennu ar sail unigol drwy gyfeirio at nodweddion y Rhwydwaith CVL.

3.4.4 Nwyddau Peryglus

Mae "**Nwyddau Peryglus**" yn golygu deunyddiau a gwrthrychau y gwaherddir eu cludo o dan y Rheoliad sy'n ymwneud â Chludo Nwyddau Peryglus yn Rhyngwladol ar Drên (RID) neu a awdurdodir o dan amodau penodol yn unig.

Mae cludo Nwyddau Peryglus ar y rheilffyrdd yn cael ei ddeddfu gan yr RID a Rheoliadau Cludo Nwyddau Peryglus a Defnyddio Offer Pwysau Cludadwy 2009. Mae'r ddwy set o reoliadau yn berthnasol i Ymgymeriadau Rheilffyrdd sy'n gweithredu ar Rwydwaith CVL.

I gael manylion am y broses dyrannu capasiti ar gyfer cludo nwyddau peryglus, gweler adran 4.7, ac ar gyfer y gwasanaethau perthnasol, gweler adrannau 5 a 7.

3.4.5 Trenau Prawf a Threnau Arbennig Eraill

Mae trenau a ddefnyddir gan IM CVL i brofi neu archwilio'r Seilwaith CVL yn cael eu darparu ar hyn o bryd gan Network Rail, sydd hefyd yn rheoli'r trefniadau llwybro. Mae Network Rail, a chyflenwyr trydydd parti eraill, yn cludo nwyddau ar drenau cymorth peirianeg, ac mae Network Rail hefyd yn rheoli'r trefniadau llwybro ar eu cyfer.

Caiff y trefniadau hyn eu hadolygu'n rheolaidd a gellir eu diwygio unrhyw bryd. Ar gyfer newid cerbyd a rhedeg prawf cysylltiedig, gweler adran 3.4.1 uchod.

4. Dyrnnu Capasiti

4.1 Rhagymadrodd

Mae'r adran 4 hon yn diffinio'r gweithdrefnau ar gyfer dyrnnu capasiti.

Yr IM CVL sy'n gyfrifol am ddyrnnu capasiti ar Rwydwaith CVL. Mae IM CVL a Network Rail wedi dod i drefniant cytundebol, fodd bynnag, ar gyfer gwasanaethau ar Rwydwaith CVL a gwasanaethau "trawsffiniol" sy'n defnyddio Rhwydwaith CVL a Rhwydwaith Network Rail, y bydd Network Rail yn ymarferol yn cyflawni cyfrifoldebau amserlennu IM CVL ar ran IM CVL.

Mae Ymgymeriadau Rheilffyrdd yn rhoi manylion i Network Rail (gyda chopi i'w anfon at IM CVL) am y trenau y maent am eu rhedeg ar Rwydwaith CVL ac mae Network Rail (ar ran IM CVL) yn cydlynu'r ceisiadau hyn am gapasiti i mewn i Amserlen Weithiol, a fydd yn rhan o'r ddogfen a elwir yn "Amserlen Weithiol" a gyhoeddir gan Network Rail.

Mae gan Ymgymeriadau Rheilffyrdd hawliau penodol i gael capasiti ar Rwydwaith CVL. Mae'r rhain wedi'u nodi mewn atodlen (Atodlen 5 fel arfer) i bob Cytundeb Mynediad Trac sydd gan yr Ymgymeriad Rheilffyrdd gyda IM CVL.

Gwneir darpariaeth hefyd drwy'r Datganiad Capasiti Fframwaith, a gyhoeddir gan IM CVL o bryd i'w gilydd, i'r rhai sydd am gael Cytundeb Mynediad Trac i gael mynediad at wybodaeth capasiti. Mae hyn er mwyn eu cynorthwyo i gael y Cytundeb Mynediad Trac a Slotiau Trên angenrheidiol yn yr amserlen. Pan fo Ymgymeriad Rheilffyrdd hefyd yn gofyn am fynediad i Rwydwaith Network Rail (yn ogystal â Rhwydwaith CVL), dylid nodi'r hawliau penodedig ar gyfer dyrnnu capasiti ar Rwydwaith Network Rail yn Atodlen 5 i gytundeb mynediad trac yr Ymgymeriad Rheilffyrdd â Network Rail. .

Gweler adran 3.2.1 uchod am ragor o wybodaeth am hyn.

4.2 Disgrifiad Cyffredinol o'r Broses

Mae'r weithdrefn a ddilynnir gan Network Rail (ar ran IM CVL) i ddyrnnu capasiti ar Rwydwaith CVL wedi'i nodi yn Rhan D Cod Rhwydwaith CVL [yma](#).

O ran ceisiadau am slotiau trên rhyngwladol, mae RNE wedi darparu ar gyfer proses amserlennu gyson ledled Ewrop. Mae llawlyfr RNE yn nodi sut y gall Ymgymeriadau Rheilffyrdd ac Ymgeiswyr eraill ofyn am slotiau trên rhyngwladol a'u cael. Mae gwybodaeth ar gael ar wefan RNE [yma](#).

Yr IM CVL fydd yn cadw capasiti ar Rwydwaith CVL drwy ymrwymo i Gytundeb Mynediad Trac. Mae'r hawliau capasiti o dan Gytundeb Mynediad Trac yn cael

eu trosi i Slotiau Trên yn yr amserlen drwy'r broses amserlennu. Ceir manylion y broses amserlennu yn Rhan D Cod Rhwydwaith CVL, ac fe'u disgrifir yng ngweddill yr adran hon 4.

Mae mynediad i Rwydwaith CVL yn gyffredinol yn gofyn am fynediad o Rwydwaith Network Rail. Lle mae hyn yn wir, rhaid i Ymgeiswyr am fynediad nid yn unig geisio hawliau i gael mynediad i Rwydwaith CVL, rhaid iddynt hefyd geisio hawliau gan Network Rail i gael mynediad i Rwydwaith Network Rail. Gallai methu â sicrhau hawliau mynediad gan Network Rail mewn perthynas â Network Rail olygu, at ddibenion ymarferol, na fydd yr Ymgymeriad Rheilffyrdd yn gallu cael mynediad i Rwydwaith CVL. Bydd angen i'r Ymgymeriadau Rheilffyrdd hynny sy'n gweithredu ar Rwydwaith CVL, ond nid Rhwydwaith Network Rail, geisio hawliau i gael mynediad i'r Rhwydwaith CVL yn unig.

Mae'r amserlen ar gyfer ceisiadau mynediad ar gyfer Rhwydwaith CVL, felly, yn adlewyrchu'r amserlen a ddefnyddir ar gyfer Rhwydwaith Network Rail (gweler Appendix C).

Bydd Network Rail, ar ran IM CVL, yn rheoli'r gwaith o gydlyn ceisiadau am gapasiti yn Amserlen Weithiol. Wrth wneud cais i Network Rail am fynediad i Rwydwaith Network Rail, felly, dylai Ymgeiswyr hefyd gynnwys manylion unrhyw lwybrau Rhwydwaith CVL yn unig yn eu cais.

4.2.1 Amserlen ar gyfer ceisiadau Llwybr Trenau a'r broses ddyrannu

Mae Network Rail, ar ran IM CVL, yn dilyn y broses a'r amserlen ar gyfer amserlennu ceisiadau Llwybr Trenau fel y nodir yn Rhan D Cod Rhwydwaith CVL.

Bydd yr amserlen flynyddol sy'n berthnasol i'r Rhwydwaith CVL yn dod i rym ar yr ail ddydd Sadwrn ym mis Rhagfyr. Gelwir hyn yn Brif Amserlen. Er mwyn galluogi Ymgymeriadau Rheilffyrdd i fireinio eu gwasanaethau hanner ffordd drwy'r flwyddyn, cyhoeddir amserlen wedi'i diweddaru bob mis Mai. Gelwir hyn yn Amserlen Atodol.

Bydd Prif Amserlen 2027 yn rhedeg o ddydd Sul, 13 Rhagfyr 2026 i ddydd Sadwrn, 15 Mai, 2027; a bydd yr Amserlen Atodol yn rhedeg o ddydd Sul, 16 Mai 2027 i ddydd Sadwrn, 11 Rhagfyr 2027.

Mae'r dyddiadau allweddol ar gyfer cynhyrchu amserlen 2027 gan Network Rail (ar ran IM CVL) wedi'u nodi yn Appendix C.

Bydd yr Amserlen Weithiol Newydd ar gyfer 2027 yn cael ei chyhoeddi ar 12 Mehefin 2026 a 13 Tachwedd 2026. Mae gan Ymgymeriadau Rheilffyrdd yr hawl i apelio os ydynt yn anfodlon â'r canlyniad.

4.2.2 Amserlen ar gyfer Amserlen Weithiol

Bob blwyddyn yn D-73 cyn y Prif Dyddiad Newid, bydd Network Rail (ar ran y IM CVL) yn cyhoeddi rhestr o ddyddiadau ar gyfer cynhyrchu amserlenni. Nodir hyn yn Appendix C y Datganiad Rhwydwaith CVL hwn. Mae Cod Rhwydwaith CVL yn nodi pryd y dylai pob cam gael ei gwblhau erbyn D – x. Mae pob amserlen newydd yn dechrau ar D-0, felly mae D-1 am 1700 ar y dydd Gwener wythnos cyn i'r amserlen newid. Mae'r gwahanol gamau wedyn yn rhifo'n ôl o'r pwynt hwn.

Mae Network Rail hefyd yn cynhyrchu dogfen fwy cynhwysfawr sy'n nodi'r holl ddyddiadau a chamau sydd ynghlwm wrth greu'r Prif Amserlenni a'r Is-Amserlenni (Appendix C) a'r broses amserlen ddiwygiedig wythnosol a fydd hefyd yn berthnasol i'r Rhwydwaith CVL. Mae rhagor o wybodaeth ar gael gan Network Rail, a gyhoeddwyd yn eu ffolder Rheolau Gweithredol (EAS – TPR) ar y ddolen ganlynol [yma](#).

Mae'r amserlen ar gyfer cynhyrchu'r Amserlen Weithiol ar gyfer Rhwydwaith CVL, a gyflawnir gan Network Rail ar ran IM CVL, yn gwbl gyson â'r amserlen a ddefnyddir gan Network Rail ar gyfer cynhyrchu'r amserlen weithiol ar gyfer Rhwydwaith Network Rail.

Cynghorir Ymgymeriadau Rheilffyrdd Posib i gysylltu â Network Rail i gael rhagor o wybodaeth am y broses amserlennu ar gyfer Rhwydwaith CVL, gyda chopi o'u cais am wybodaeth hefyd i'w hanfon at IM CVL (cyfeiriwch at y manylion cyswllt perthnasol Network Rail ac IM CVL yn adran 1.6 y ddogfen hon).

Rheolau Cynllunio Amserlen

Ni fydd gan y Rhwydwaith CVL ei reolau cynllunio amserlennu ei hun. Yn lle hynny, bydd y Rheolau Cynllunio Amserlenni a gyhoeddwyd gan Network Rail yn berthnasol i Rhwydwaith CVL. Mae'r Rheolau Cynllunio Amserlenni ar gael ar wefan Network Rail isod o dan y ffolder Rheolau Gweithredol (EAS – TPR) [yma](#).

Mae'r Rheolau Cynllunio Amserlen yn gosod sylfeini'r broses amserlennu. Maent yn cynnwys eitemau megis amseroedd rhedeg adrannol (yr amser y mae trenau'n ei gymryd rhwng dau bwynt) a'r amser rhwng cerbydau (yr amser rhwng dau drên ar yr un trac).

Mae'r Rheolau Cynllunio Amserlen yn cynnwys dwy ran:

- (i) Trosolwg cenedlaethol; ac

- (ii) Adrannau sy'n benodol i'r llwybr, yn cynnwys gwybodaeth eang ei chwmpas sydd ei hangen i lunio'r amserlen.

Mae'r fethodoleg genedlaethol ar gyfer y Rheolau Cynllunio Amserlen yn cynnwys disgrifiad "Saesneg clir" o'r broses cynllunio amserlen, ynghyd â manylion yr amserlen gynllunio a'r gofynion i'w bodloni mewn ceisiadau gan Ymgymeriadau Rheilffyrdd am slotiau trên. Mae hefyd yn cynnwys trefn ar gyfer cytuno ar newidiadau tymor byr i Reolau Cynllunio Amserlen. Mae Cod Rhwydwaith CVL yn berthnasol i Rwydwaith CVL, felly dylai unrhyw gyfeiriadau a gynhwysir yn y fethodoleg genedlaethol sy'n cyfeirio at Network Rail hefyd gael eu cymryd i ddarllen fel Rheilffyrdd Craidd y Cymoedd. Mae Cod Rhwydwaith CVL i'w weld [yma](#).

Mae'r adrannau llwybr-benodol yn cynnwys data megis pwyntiau amseru safonol, amseroedd rhedeg adrannol ar gyfer mathau penodol o drenau, amser rhwng cerbydau, terfynau ymyl i'w cynnal rhwng trenau, rheolau gweithiol gorsafoedd, a data capasiti llwybrau. Maent yn nodi'r rheolau sy'n rheoleiddio'r amseriadau safonol rhwng gorsafoedd a chyffyrdd, ynghyd â materion eraill sy'n galluogi trenau i gael eu cynnwys yn yr amserlen weithiol ar gyfer y gwahanol rannau o rwydwaith rheilffyrdd Prydain Fawr.

Mewn perthynas â Rhwydwaith CVL, rhaid i Ymgymeriadau Rheilffyrdd sy'n cynllunio gwasanaethau newydd sylweddol, neu newidiadau sylweddol i'w gwasanaethau nad ydynt yn cael eu hystyried yn Ddigwyddiadau, hysbysu Network Rail (ar ran IM CVL, gyda chopi o hysbysiad o'r fath hefyd i'w anfon at IM CVL) ar y cyfle cyntaf, a phan fo modd cyn D-55 (21 Tachwedd 2025). Bydd Network Rail wedyn yn gweithio ar gynigion datblygedig o D-55 (21 Tachwedd 2025) i D-40 (6 Mawrth 2026). Mae'r amserlen ddiweddaraf o ddyddiadau ar gyfer y broses amserlennu i'w gweld yn Appendix C y Datganiad Rhwydwaith CVL hwn. Dylai Ymgymeriadau Rheilffyrdd sydd am ddiwygio eu gwasanaethau anfon Cynnig Mynediad at Network Rail (ar ran IM CVL, gyda chopi o'r fath gais hefyd i'w anfon at IM CVL). Mae gan Gynigion Mynediad a dderbyniwyd erbyn y Dyddiad Blaenoriaeth yn D-40 (6 Mawrth 2026) fwy o flaenoriaeth na'r rhai a dderbyniwyd ar ôl y Dyddiad Blaenoriaeth.

Os yw Ymgymeriadau Rheilffyrdd am redeg gwasanaethau newydd, dylent ddatgan a oes ganddynt hawliau mynediad nas defnyddiwyd y dymunant eu harfer, neu a ydynt yn bwriadu cael hawliau mynediad newydd. Bydd gwasanaethau sydd heb eu newid gan Gynnig Mynediad yn parhau yn yr amserlen fel Cynnig Mynediad Treigl.

Unwaith y bydd Network Rail (ar ran IM CVL) wedi cael yr holl Gynigion Mynediad a'r holl Gynigion Mynediad Treigl, byddant yn cydlynu'r holl Slotiau Trên o fewn yr amserlen ar ran IM CVL, fel bod pob trên yn cydymffurfio â'r Rheolau Chynllunio Amserlen. Mae hyn yn digwydd rhwng D-40 (6 Mawrth

2026) a D-26 (12 Mehefin 2026). Cyhoeddir yr Amserlen Weithiol Newydd ar D-26. Os na all Network Rail ddod o hyd i slotiau sy'n cydymffurfio ar gyfer yr holl Gynigion Mynediad a Chynigion Mynediad Treigl, byddant yn dyrannu Slotiau Trên (ar ran IM CVL) yn y drefn flaenoriaeth a nodir yn Amod D4.2.2 Cod Rhwydwaith CVL [yma](#).

Os bydd rhaid i Network Rail wneud penderfyniad ar sut i amserlennu slotiau trê'n gyda'r un lefel o flaenoriaeth, byddant yn gwneud hynny gan ddefnyddio'r meini prawf penderfynu a nodir yn Amod D4.6 Cod Rhwydwaith CVL [yma](#).

Mae'r meini prawf penderfynu yn caniatáu i amrywiaeth o ffactorau gael eu hystyried wrth bennu blaenoriaethau mewn perthynas â defnyddio slotiau trenau. Gall y ffactorau hynny gynnwys lefelau blaenorol o ddefnydd o gapasiti fel y cyfeirir ato yn rheoliad 29(3) y Rheoliadau Rheilffyrdd.

4.2.3 Asesu risg a briffio newid amserlen

Mae cyfeiriadau at y Grŵp Asesu Risg Newid Amserlen a'r Grŵp Sicrwydd Newid Amserlen yn yr adran 4.2.3 hon yn cyfeirio at y grwpiau â'r enwau hyn a sefydlwyd gan Network Rail i reoli adolygu ac asesu newidiadau yn amserlen Rhwydwaith Network Rail, a fydd (o dan y trefniadau y cytunwyd arnynt rhwng IM CVL a Network Rail) hefyd yn rheoli adolygu ac asesu newidiadau amserlennu ar Rwydwaith CVL ar ran IM CVL.

Fel rhan o'r broses amserlennu a gynhelir gan Network Rail (ar ran IM CVL), mae Network Rail yn cynnal adolygiad ac asesiad manwl o'r newidiadau sydd i ddod yn yr amserlen a gyflwynir ym mis Rhagfyr a mis Mai bob blwyddyn. Mae hefyd yn ystyried effeithiau newidiadau yn y gorffennol, gan gynnwys adborth ar gamau gweithredu, ac yn edrych ymlaen at oblygiadau'r dyheadau newid y bwriedir eu cyflawni y tu hwnt i'r amserlen nesaf.

Mae cadeirydd y Grŵp Asesu Risg Newid Amserlen yn adolygu'r holl newidiadau i'r amserlen o ran eu harwyddocâd ac yn pennu'r lefel briodol o asesiad i'w gynnal yn seiliedig ar wybodaeth leol.

Mae'r Grŵp Sicrwydd Newid Amserlen yn cynnal gwiriad sicrwydd lefel uchel i fonitro gweithgareddau'r Grwpiau Asesu Risg Newid Amserlen a hefyd yn adolygu dyheadau ar gyfer newid y tu hwnt i'r amserlen nesaf.

Efallai y bydd angen i'r Grŵp Asesu Risg Newid Amserlen hefyd asesu gwaith peirianeg mawr (e.e. rhwystrau) a gweithgareddau newid busnes allweddol cyn i unrhyw amserlen ragnodedig fod ar gael. Yn yr achos hwn, efallai y bydd y Grŵp Asesu Risg Newid Amserlen yn cael ei gynnal am gyfnod sylweddol cyn y gall newid o'r fath ddigwydd, a gall ddefnyddio rhagolygon manylebau

gwasanaeth i ganiatáu i'r asesiad gael ei gynnal. Gall hyn gynnwys manylebau gwasanaeth a ddatblygwyd gan y Grŵp Llywio Digwyddiadau.

Bydd cadeiryddion y Grŵp Asesu Risg Newid Amserlen yn adolygu'r Calendr Digwyddiadau a'r rhestr gysylltiedig o Grwpiau Llywio Digwyddiadau sy'n manylu ar ble mae amserlenni yn neu'n gallu newid.

4.3 Cadw Capasiti ar gyfer Cyfyngiadau Capasiti Dros Dro

4.3.1 Egwyddorion Cyffredinol

Gweler adran 4.2 am fanylion y broses dyrannu capasiti, y weithdrefn gydlynw sy'n berthnasol a'r man cyhoeddi.

Mae Datganiad Mynediad Peirianeg CVL yn cael ei gadarnhau bob blwyddyn drwy broses ymgynghori a nodir yn Rhan D Cod Rhwydwaith CVL (sydd ar gael ar wefan yr IM [yma](#)).

Mae Datganiad Mynediad Peirianeg CVL a'r Rheolau Cynllunio Amserlen yn ffurfio hawliau cadarn IM CVL ar gyfer rhedeg trenau peirianeg a dyrannu capasiti at ddibenion ymgymryd â gweithgareddau peirianeg. Gweler Amodau D3.4 a D3.5 Cod Rhwydwaith CVL sy'n nodi'r broses i IM CVL ymgymryd â gweithgareddau cynnal a chadw heb eu cynllunio. Bydd angen i weithredwyr gwasanaethau cynnal a chadw ac archwilio a gludir ar drenau ar Rwydwaith CVL ymrwmo i Gytundeb Mynediad Trac gyda IM CVL, na fydd yn cael ei reoleiddio gan ORR.

4.3.2 Dyddiadau cau a gwybodaeth a ddarperir i ymgeiswyr

Mae manylion y gofynion ar gyfer derbyn gwybodaeth, gan gynnwys dyddiadau cyflwyno Blaenoriaeth ac amseroedd ymateb, wedi'u cynnwys yn y dyddiadau datblygu amserlenni Rhagfyr 2026 a Mai 2027 a gyhoeddwyd gan Network Rail (gweler Appendix C).

Mae Datganiad Mynediad Peirianeg CVL wedi'i gynnwys yng Nghyhoeddiad EAS Network Rail, ac mae'n nodi'r rheolau sy'n rheoleiddio'r trefniadau ar gyfer mynediad i'r rhwydwaith CVL pan fydd gwaith archwilio, cynnal a chadw, adnewyddu, a gwaith arall yn effeithio arno.

Mae dwy ran i'r Datganiad Mynediad Peirianeg. Trosolwg Cenedlaethol byr yw'r rhan gyntaf, sy'n nodi'r rheolau cynllunio, er budd pennaf i'r rhai sydd angen mynediad peirianeg (yn hytrach na thrên) i'r rhwydwaith. Mae'r ail ran yn cynnwys gwybodaeth am lwybr penodol ac yn rhoi manylion am y cynllun i ildio defnydd o'r rhwydwaith oherwydd gwaith cynnal a chadw, adnewyddu a gwella. Gellir crynhoi'r cynnwys fel a ganlyn:

- Adran 1 - Cyflwyniad i'r ddogfen a'r prosesau oddi'i mewn.
- Adran 2 - Geirfa, yn helpu defnyddwyr i ddeall y derminoleg a'r acronymau a ddefnyddir.
- Adran 3 - Canllawiau ar gyfer Caniatáu Meddiannau, yn nodi pa wybodaeth y mae ei hangen wrth wneud cais am feddiant, sut i wneud cais am feddiant rhybudd hwyr a dyddiadau cyflwyno.
- Adran 4 - Cyfleoedd Meddiant Safonol, sy'n nodi, er budd y rhai y mae angen mynediad at y llinell arnynt ar gyfer archwilio, cynnal a chadw ac adnewyddu, yr adegau hynny pan nad oes unrhyw drenau wedi'u cynllunio i redeg yn yr amserlen weithiol neu pan fo'r amserlen weithiol yn cefnogi trenau i redeg dros nifer llai o linellau, a phryd, felly, mae mynediad ar gael fel arfer.
- Adran 5 - Cynnal a Chadw Strategol, yn nodi manylion gweithgarwch peirianeg wedi'i gynllunio ar sail gylchol (gweithgareddau sy'n cael eu hailadrodd yn rheolaidd wedi'u cynllunio), ac efallai y bydd angen rhai newidiadau i drenau yn yr amserlen weithiol.
- Adran 6 - Disgrifio cyflwyniad y broses Effaith Mynediad i'w dilyn er mwyn galluogi cytundeb rhwng Network Rail a Chyfranogwyr yr Amserlen ar gyfer cyflawni ceisiadau Astudiaeth Capasiti sy'n ymwneud â'r Datganiad Mynediad Peirianeg.
- Adran 7 - Cofrestr Meddiannau Aflonyddgar, yn nodi manylion cau dros dro y rhannau o'r rhwydwaith sydd eu hangen i gyflawni gwaith cynnal a chadw, adnewyddu a gwaith prosiect a fydd yn effeithio ar drenau a gynhwysir yn yr amserlen weithiol. Mae'r manylion yn cynnwys dyddiadau, amseroedd, lleoliadau, llinellau yr effeithir arnynt mewn perthynas ag eiddo, cyfyngiadau cyflymder dros dro, dulliau gweithio dros dro ac unrhyw gyfyngiadau eraill ar ddefnydd.

Cyhoeddir Datganiad Mynediad Peirianeg CVL ar wefan Network Rail fel rhan o'r 'Rheolau Gweithredol' [yma](#).

Mae Datganiad Mynediad Peirianeg CVL a'r Rheolau Cynllunio Amserlen yn ffurfio hawliau cadarn IM CVL ar gyfer rhedeg trenau peirianeg a dyrannu capasiti at ddibenion ymgymryd â gweithgareddau peirianeg. Gweler Amodau D3.4 a D3.5 Cod Rhwydwaith CVL sy'n nodi'r broses i IM CVL ymgymryd â gweithgareddau cynnal a chadw heb eu cynllunio.

4.4 Effaith Cytundebau Fframwaith

Mae Cytundeb Mynediad Trac (sy'n gytundeb fframwaith) yn gytundeb rhwng IM CVL ac Ymgymeriad Rheilffyrdd sy'n pennu'r hawliau y mae gan yr

Ymgymeriad Rheilffyrdd hawl iddynt am gyfnod sydd fel arfer yn fwy na blwyddyn. Gall hawliau mynediad fod yn hawliau cadarn neu'n hawliau wrth gefn.

Rhaid i'r Amserlen Weithiol fod yn gyson â hawliau cadarn yr Ymgymeriad Rheilffyrdd, ar yr amod eu bod wedi'u harfer ar y Dyddiad Blaenoriaeth perthnasol neu cyn hynny. Rhaid i Network Rail (ar ran IM CVL) hefyd geisio darparu ar gyfer yr holl Gynigion Mynediad a gefnogir gan hawliau wrth gefn, ond mae hawliau cadarn bob amser yn cael blaenoriaeth. Os nad yw'n bosib darparu ar gyfer yr holl Gynigion Mynediad, bydd Network Rail (ar ran IM CVL) yn dyrannu Slotiau Trên yn y drefn a nodir yn Amod D4.2.2 Cod Rhwydwaith CVL.

4.4.1 Datganiad Capasiti Fframwaith

Mae angen tryloywder ar ymgeiswyr posib o ran capasiti'r fframwaith a ddyrennir a'r capasiti dangosol sy'n weddill ar linell. Cyhoeddir Datganiad Capasiti Fframwaith ar Wefan IM [yma](#) (o dan y Datganiad Gallu Fframwaith), sy'n nodi effaith gronol y capasiti a ddyrennir drwy Gytundebau Mynediad Trac ar wahanol rannau o'r Rhwydwaith CVL.

Amlinellir y gofynion ynghylch y gyfran o gapasiti fframwaith a ddefnyddir gan bartïon i Gytundebau Mynediad Trac yn Rhan J Cod Rhwydwaith CVL. Gweler adran 4.8.3 y Datganiad Rhwydwaith CVL hwn am ragor o fanylion.

4.5 Proseses Dyrannu Llwybr

4.5.1 Ceisiadau Llwybr Amserlen Blynnyddol

Gweler adran 4.2.1.

4.5.2 Ceisiadau Llwybr Amserlen Blynnyddol Hwyr

Disgrifir y prosesau ar gyfer derbyn cynigion mynediad rhwng D-40 a D-26, ac amrywiadau y gofynnwyd amdanynt ar ôl D-26 yn adran D3 Cod Rhwydwaith CVL. Lle bo Ymgymeriadau Rheilffyrdd yn dymuno cael Llwybrau Trenau ychwanegol neu addasu unrhyw un o'u Llwybrau Trenau presennol, bydd Network Rail (ar ran IM CVL) yn ymdrechu i brosesu ceisiadau o'r fath yn unol â'r broses a ddefnyddir ar gyfer Amrywiadau Gweithredwyr Trenau fel y nodir yn Amod D3 Cod Rhwydwaith CVL.

Yn unol â rhwymedigaethau IM CVL o dan y Rheoliadau Rheilffyrdd, mae'r gweithdrefnau sydd gan IM CVL (sy'n cael eu rheoli gan Network Rail ar ran IM CVL) ar gyfer ymdrin â cheisiadau am ddyrannu capasiti (gan gynnwys ceisiadau ad hoc) wedi'u cynllunio i sicrhau bod Network Rail (ar ran IM CVL)

yn trin pob cais o'r fath gan Ymgymeriadau Rheilffyrdd presennol a phosib mewn ffordd deg nad yw'n gwahaniaethu.

4.5.3 Ceisiadau Llwybrau Ad Hoc

Ar ôl i'r Amserlen Weithiol newydd gael ei chyhoeddi (D-26), efallai y bydd Ymgymeriadau Rheilffyrdd am gael llwybrau trenau ychwanegol neu ddiwygio unrhyw rai o'u llwybrau trenau sydd eisoes wedi'u cynnwys. Gelwir y newidiadau hyn yn Amrywiadau Amserlen, ac mae'r broses ar gyfer delio â nhw wedi'i nodi yn Amod D3 Cod Rhwydwaith CVL. Gall Ymgymeriadau Rheilffyrdd wneud ceisiadau ad hoc am gapasiti gan ddefnyddio'r trefniadau hyn i fodloni amrywiadau mewn traffig. Yn unol â rhwymedigaethau IM CVL o dan y Rheoliadau Rheilffyrdd a thrwydded rhwydwaith IM CVL, mae gweithdrefnau IM CVL ar gyfer ymdrin â cheisiadau am ddyrannu capasiti (gan gynnwys ceisiadau ad hoc), yr ymdrinnir â hwy gan Network Rail ar ran IM CVL, wedi'u cynllunio fel bod Network Rail (ar ran IM CVL) yn trin yr holl Ymgymeriadau Rheilffyrdd presennol a phosib (gan gynnwys gweithredwyr cludo nwyddau a gweithredwyr gwasanaethau rhyngwladol) mewn ffordd deg ac anwahaniaethol.

Lle mae Ymgymeriad Rheilffyrdd sy'n gweithredu mynediad agored neu wasanaethau teithwyr masnachfaint yn chwilio am gwmni ychwanegol Llwybr Trenau a/neu hawliau wrth gefn sy'n fwy na'r capasiti y mae wedi'i gadw yn ei Gytundeb Mynediad Trac, oni bai bod gan yr Ymgymeriad Rheilffyrdd o'r fath hawliau i slotiau trên ychwanegol (neu ryddhad) ar gyfer digwyddiadau arbennig yn ei Gytundeb Mynediad Trac, byddai angen cytundeb atodol i ganiatáu'r hawliau ychwanegol. Byddai angen i IM CVL a'r Ymgymeriad Rheilffyrdd gael cymeradwyaeth ORR i unrhyw gytundeb atodol. Mae gan Ymgymeriad Rheilffyrdd sy'n gweithredu gwasanaethau cludo nwyddau neu siarter yr hawl yn unol â'i Gytundeb Mynediad Trac i wneud cais i ddefnyddio capasiti sbâr ar Rhwydwaith CVL heb fod yn ofynnol iddo ymrwmo i gytundeb atodol gyda IM CVL (oni bai bod Ymgymeriad Rheilffyrdd o'r fath yn ceisio hawliau cadarn, os felly byddai angen cytundeb atodol gyda IM CVL). Byddai angen i IM CVL a'r Ymgymeriad Rheilffyrdd perthnasol gael cymeradwyaeth ORR i unrhyw gytundeb atodol.

Mae newidiadau ar gyfer gwaith peirianeg o dan Amod D3 Cod Rhwydwaith CVL yn cael eu cynllunio'n wythnosol gyda'r nod o gael amserlen wedi'i chadarnhau 12 wythnos cyn eu gweithrediad, y gellir wedyn ei defnyddio, yn hyderus, gan Ymgymeriadau Rheilffyrdd ac i'w teithwyr gynllunio eu teithiau.

Fodd bynnag, efallai y bydd rhaid i IM CVL ymgymryd â meddiannau byrrbudd o bryd i'w gilydd. Ymdrinnir â'r rhain o dan Amod D3 Cod Rhwydwaith CVL. Cyfeiriwch hefyd at baragraff 4.3.

4.5.4 Proses gydlynu

Mae'r broses gydlynu ynghylch ceisiadau am gapasiti seilwaith y cyfeirir ati yn Rheoliad 23 y Rheoliadau Rheilffyrdd wedi'i nodi yn Rhan D Cod Rhwydwaith CVL. Bydd IM CVL yn cysylltu â'r holl Ymgymeriadau Rheilffyrdd mewn perthynas â digwyddiadau y mae angen eu cynnwys yng Nghalendr Digwyddiadau Network Rail. Rheolir y newidiadau hyn drwy Grŵp Llywio Digwyddiadau a sefydlwyd yn unol ag Amod D7 Cod Rhwydwaith CVL. Mae dyddiadau cyhoeddi'r Calendr Digwyddiadau drafft a therfynol wedi'u nodi yn Appendix C.

4.5.5 Proses datrys anghydfodau

4.5.5.1 Panel Amserlennu

Mae gan Ymgymeriadau Rheilffyrdd rai hawliau apelio mewn perthynas â phenderfyniadau a wneir yn ystod y broses amserlennu. Clywir yr apeliadau hyn gan Banel Amserlennu arbenigol yn unol â'r Rheolau Datrys Anghydfodau Mynediad CVL (gweler isod am ragor o fanylion). Llywodraethir apeliadau gan Amod D5 Cod Rhwydwaith CVL ynghyd â Rheolau Datrys Anghydfodau Mynediad CVL. Mae'r rheolau hyn yn darparu'r fframwaith lle gall y Panel Amserlennu ofyn am wybodaeth at ddibenion penderfynu sut y gellir datrys anghydfod. Rhaid gwneud atgyfeiriadau i'r Panel Amserlennu o fewn y cyfnodau a ragnodir gan Amod D5. Cynlluniwyd y weithdrefn datrys anghydfodau hon i osgoi neu leihau effaith ar amserlenni'r broses amserlennu. Gall penderfyniadau'r Panel Amserlennu fod yn destun lefel bellach o apêl i ORR yn unol ag Amod D5 Cod Rhwydwaith CVL.

4.5.5.2 Rheolau Datrys Anghydfodau Mynediad CVL

Mae Cod Rhwydwaith CVL [yma](#) yn cynnwys y Rheolau Mynediad a Datrys Anghydfodau ac yn nodi'r opsiynau ar gyfer datrys anghydfodau sy'n codi o gontractau masnachol penodol. Pwrpas Rheolau Datrys Anghydfodau Mynediad CVL yw darparu strwythur clir, cydlynol ac effeithiol ar gyfer delio ag anghydfodau sy'n codi o gontractau mynediad a Chod Rhwydwaith CVL (gan gynnwys newidiadau i'r Rhwydwaith CVL a newidiadau i gerbydau a ddefnyddir ar Rwydwaith CVL, ond heb gynnwys anghydfodau amserlennu oni bai bod rhesymau cymhellol pam na ddylai'r anghydfod amserlennu perthnasol gael ei ddyrannu i'r Panel Amserlennu).

Rheolir anghydfodau sy'n ymwneud â pherfformiad yn unol â darpariaethau penodol y gyfundrefn berfformiad ei hun (a nodir yn llawn yn Atodlen 8 pob Cytundeb Mynediad Trac) sy'n galluogi datrys prydlon yn uniongyrchol rhwng partïon y contract mynediad. Gall partïon hefyd ofyn am arweiniad gan y Bwrdd Priodoldd Oedi traws-ddiwydiant. Os bydd anghydfod yn parhau heb ei

ddatrys drwy Atodlen 8 y Cytundeb Mynediad Trac neu ganllawiau a dderbyniwyd gan y Bwrdd Priodoldd Oedi, yna bydd darpariaethau Rheolau Datrys Anghydfodau Mynediad CVL yn berthnasol.

4.6 Seilwaith gorlawn

O dan Reoliad 26 y Rheoliadau Rheilffyrdd, rhaid i IM CVL ddatgan bod tagfeydd ar yr elfen berthnasol o'r Rhwydwaith CVL os:

- ar ôl cydgysylltu ac ymgynghori, nid yw'n bosib bodloni cais am gapasiti Rhwydwaith CVL yn ddigonol; neu
- wrth baratoi'r amserlen ar gyfer cyfnod nesaf yr amserlen, mae'n edrych yn debygol y bydd tagfeydd ar elfen o'r Rhwydwaith CVL yn ystod y cyfnod hwnnw.

Ar hyn o bryd, nid yw Rhwydwaith CVL yn rhwydwaith gorlawn o fewn y diffiniad uchod. Bydd unrhyw ddatganiad o seilwaith tagfeydd a wneir gan IM CVL yn cael ei gyhoeddi mewn Datganiadau Rhwydwaith CVL yn y dyfodol.

Os bydd y Rhwydwaith CVL cyfan, neu ran ohono, yn dod yn orlawn, bydd IM CVL yn dilyn y broses a nodir isod i reoli'r tagfeydd. Mae'r broses yn cynnwys y camau canlynol:

- Cam 1: nodi'r segment rhwydwaith gorlawn a/neu'r parth amser;
- Cam 2: cynnal dadansoddiad o gapasiti, oni bai bod cynllun gwella capasiti yn y broses o gael ei roi ar waith;
- Cam 3: trafod penderfyniad masnachol;
- Cam 4: cymhwyso'r fframwaith rheoleiddio i flaenoriaethu ceisiadau fel y nodir yn Rhan D4.2 Cod Rhwydwaith CVL [yma](#); a
- Cam 5: penderfynu ar ddatrysiad buddsoddi penodol fel y nodir yn y cynllun gwella capasiti.

Mae prosesau cynllunio hirdymor IM CVL eisoes yn darparu cyfleoedd i nodi elfennau o seilwaith gorlawn a darparu ystod o gynlluniau dadansoddi capasiti y mae'n ofynnol eu cyhoeddi ar y cyd ag unrhyw ddatganiadau o'r fath.

Sylwer – ar hyn o bryd, nid oes unrhyw ddatganiadau o dagfeydd sy'n berthnasol i'r Rhwydwaith CVL.

4.7 Cludiant eithriadol a Nwyddau Peryglus

Bydd Ymgymeriadau Rheilffyrdd yn gofyn am ganiatâd gan IM CVL er mwyn cludo Nwyddau Peryglus, a rhaid iddynt, wrth geisio caniatâd o'r fath, ddatgan a oes gan y cludiant y maent am ei redeg lwyth y bydd angen ei redeg fel cludiant eithriadol. Ar hyn o bryd, nid oes gan unrhyw Ymgymeriad Rheilffyrdd ganiatâd i gludo Nwyddau Peryglus ar Rwydwaith CVL.

Am ragor o wybodaeth, ewch i adrannau 3.4.3 a 3.4.4 y Datganiad Rhwydwaith CVL hwn.

4.8 Rheolau ar ôl Dyraniad Llwybr

4.8.1 Rheolau ar gyfer Addasu Llwybr

Mae'r rheolau wedi'u cynnwys yn amod D3 Cod Rhwydwaith CVL.

4.8.2 Rheolau ar gyfer Newid Llwybr

Mae'r rheolau wedi'u cynnwys yn amod D3 Cod Rhwydwaith CVL.

4.8.3 Rheolau Dim Defnydd

Mae Rhan J Cod Rhwydwaith CVL, sydd wedi'i ymgorffori ym mhob Cytundeb Mynediad Trac, yn darparu modd i ddileu hawliau mynediad pe bai Ymgymeriad Rheilffyrdd yn methu â'u defnyddio, oni bai bod y methiant hwn oherwydd rhesymau aneconomaidd y tu hwnt i reolaeth yr Ymgymeriad Rheilffyrdd. Mae'r cwota trothwy penodol sy'n ofynnol gan Reoliad 29 y Rheoliadau Rheilffyrdd wedi'i nodi yn Rhan J4.2 Cod Rhwydwaith CVL [yma](#), ond dylid ei ddarllen ar y cyd â Rhan J4 yn ei chyfanrwydd.

4.8.4 Rheolau Canslo

Lle mae un Ymgymeriad Rheilffyrdd yn disodli un arall wrth ddarparu gwasanaethau trafndiaeth i drydydd parti ar gyfer cludo nwyddau, mae proses yn Rhan J7 Cod Rhwydwaith CVL yn caniatáu ildio ac ailddyrannu hawliau mynediad. Mae hyn yn adlewyrchu Rheoliadau Rheilffyrdd, Rheoliad 29(1).

4.9 Ailgynllunio'r Broses Cynllunio Amserlen Ryngwladol (TTR)

Nid yw'r Rhwydwaith CVL yn cynnwys nac yn rhan o unrhyw Goridor Cludo Nwyddau rhyngwladol presennol, felly nid yw'r adran hon yn Gymwys ac nid yw'n cael ei defnyddio. Mae gwybodaeth am TTR hefyd i'w chael ar wefan RNE yn y ddogfen: Datganiad Rhwydwaith Strwythur Cyffredin a Chanllaw Rhoi Amserlen 2025 r Waith (4.9.1 i 4.9.3 [yma](#)).

5. Gwasanaethau a Thaliadau

5.1 Rhagymadrodd

Mae'r adran hon yn nodi'r trefniadau a'r egwyddorion codi tâl ar gyfer mynediad i'r Rhwydwaith CVL, sy'n berthnasol o 1 Ebrill 2024 i 31 Mawrth 2029. Wedi hynny, bydd taliadau'n cael eu hadolygu a'u haddasu gan IM CVL bob pum mlynedd i gyd-fynd â Chyfnodau Rheoli Network Rail.

Mae rhagor o wybodaeth wedi'i chynnwys yn Atodlen 7 Cytundebau Mynediad Trac IM CVL ar gyfer Ymgymeriadau Rheilffyrdd teithwyr masnachfaint, siarter a nwyddau. Mae templedi TAA i'w gweld ar wefan IM [yma](#), o dan Dogfennaeth Rheolwr Seilwith.

Mae rheoliadau 6(1) a 6(2) y Rheoliadau Rheilffyrdd yn ei gwneud yn ofynnol i IM CVL gyflenwi i bob Ymgymeriad Rheilffyrdd mewn modd anwahaniaethol:

- y Pecyn Mynediad Isfswm; a mynediad (gan gynnwys mynediad trac) i gyfleusterau gwasanaeth a chyflenwad gwasanaethau, pob un fel y nodir yn adran 5.3 isod.

Mae rheoliad 6(12) y Rheoliadau Rheilffyrdd yn darparu y caiff Ymgymeriad Rheilffyrdd ofyn am gyflenwad o unrhyw un o'r gwasanaethau ategol a nodir yn adran 5.5 isod gan IM CVL, ond nid oes unrhyw rwymedigaeth ar IM CVL i gyflenwi'r gwasanaethau y gofynnir amdanynt.

5.2 Egwyddorion Codi Tâl

Mae'r segmentau marchnad isod yn adlewyrchu Atodlen 3 y Rheoliadau Rheilffyrdd, sy'n nodi y bydd y rhestr o segmentau marchnad a ddiffinnir gan Reolwyr Seilwaith yn cynnwys o leiaf y tair rhan ganlynol: gwasanaethau cludo nwyddau, gwasanaethau teithwyr o fewn fframwaith contract gwasanaeth cyhoeddus, a gwasanaethau teithwyr eraill.

Y segmentau marchnad sy'n berthnasol i'n seilwaith yw:

- teithiwr masnachfaint
- teithiwr mynediad agored
- siarter
- cludo nwyddau.

Mae'r rhestr o segmentau marchnad i'w hadolygu o leiaf bob pum mlynedd, a bydd y corff rheoleiddio y cyfeirir ato yn rheoliad 31 y Rheoliadau Rheilffyrdd yn rheoli'r rhestr honno yn unol â rheoliad 32 y Rheoliadau Rheilffyrdd.

5.2.1 Statws credyd, cadernid ariannol a gallu gweithredol

Bydd angen i ddarpar ymgeiswyr ein sicrhau eu bod yn gallu gweithredu gwasanaeth trenau llwyddiannus yn ariannol ac yn ymarferol. Gall IM CVL geisio statws credyd ffurfiol ar gyfer Ymgymeriad Rheilffyrdd, neu ar gyfer rhiant-gwmni neu gefnogwr ariannol, ynghyd â gwarant banc hyd at werth a fydd yn cael ei osod i gwmpasu ein rhwymedigaethau.

5.2.2 System codi tâl

Mae'r taliadau wedi'u nodi yn y Cytundebau Mynediad Trac y mae IM CVL yn rhoi caniatâd i Ymgymeriadau Rheilffyrdd ddefnyddio'r Rhwydwaith CVL drwyddynt. Mae angen cymeradwyaeth ORR ar y contractau hyn, felly mae'r gymeradwyaeth hon yn ymestyn i'r trefniadau codi tâl ynddynt. Cafodd y taliadau mynediad trac eu hadolygu a'u haddasu gan IM CVL ar 1 Ebrill 2024, ac wedi hynny eu hadolygu a'u haddasu bob pum mlynedd.

- Mae ORR yn gyfrifol am ddatblygu'r fframwaith codi tâl ar gyfer y Rhwydwaith CVL, ac mae IM CVL yn gyfrifol am gyfrifo'r holl daliadau mynediad trac presennol o fewn y fframwaith hwn; a
- telir cost sylfaenol darparu'r Rhwydwaith CVL gan daliadau i Ymgymeriadau Rheilffyrdd.

Cyhoeddir y fframwaith codi tâl ar gyfer Rhwydwaith CVL ar wefan yr ORR [yma](#).

5.2.3 Tariffau

Mae'r adran hon yn nodi'r taliadau gwahanol ar gyfer mynediad i'r Rhwydwaith CVL. Maent yn seiliedig ar y trefniadau codi tâl sy'n berthnasol i Rhwydwaith Network Rail ar gyfer Cyfnod Rheoli 7 (CP7), a bennir gan ORR ac sy'n gymwys tan 31 Mawrth 2029.

Rydym yn codi amrywiaeth o daliadau mynediad ar Ymgymeriadau Rheilffyrdd teithwyr masnachfaint, teithwyr mynediad agored, siarter a nwyddau. Gall y taliadau hyn gynnwys:

- Tâl Defnydd Amrywiol
- Tâl Mynediad Ychwanegol
- Taliadau Ychwanegol e.e. (ar gyfer gwasanaethau y gofynnir amdanynt y tu allan i oriau gweithredu arferol)
- Tâl Defnydd Ased Trydaneiddio

- Tâl Trydan Tyniant

Trafodir y taliadau mynediad hyn yn fanylach isod.

Mae'r taliadau mynediad wedi'u tanategu gan y Pecyn Isafswm Mynediad a'r Rheoliadau Rheilffyrdd fel y trafodir yn adran 5.3.

Mae'r taliadau mynediad trac ar gyfer y Rhwydwaith CVL sy'n berthnasol o 1 Ebrill 2024 tan 31 Mawrth 2029 yn seiliedig ar daliadau NR ar gyfer yr un cyfnod.

Mae manylion y taliadau presennol ar gael [yma](#).

5.3 Pecyn Isafswm Mynediad a Thaliadau

5.3.1 Mae'r Pecyn Isafswm Mynediad fel y'i disgrifir yn Atodlen 2 y Rheoliadau Rheilffyrdd yn cynnwys y canlynol:

- a) ymdrin â cheisiadau am gapasiti seilwaith; ac
- b) yr hawl i ddefnyddio capasiti a roddir, yn arbennig:
 - (i) seilwaith rheilffyrdd, gan gynnwys traciau, pwyntiau a chyffyrdd fel sy'n angenrheidiol i ddefnyddio'r capasiti hwnnw.
 - (ii) offer cyflenwi trydan ar gyfer cerrynt tyniant, lle bo hynny ar gael ac yn ôl yr angen i ddefnyddio capasiti.
 - (iii) rheoli trenau, gan gynnwys signalau, rheoleiddio, anfon a chyfathrebu, a darparu gwybodaeth am symudiadau trenau; ac
 - (iv) yr holl wybodaeth arall sydd ei hangen i roi ar waith neu weithredu'r gwasanaeth y mae capasiti wedi'i ganiatáu ar ei gyfer.

Mae Rheoliad 6(1) y Rheoliadau Rheilffyrdd yn ei gwneud yn ofynnol i Reolwyr Seilwaith gyflenwi'r Pecyn Isafswm Mynediad i bob Ymgymeriad Rheilffyrdd mewn modd nad yw'n gwahaniaethu. Mae gan Ymgymeriad Rheilffyrdd hawl i apelio i ORR o dan reoliad 32 y Rheoliadau Rheilffyrdd os gwrthodir yr hawl a roddwyd iddo o dan reoliad 6(1).

5.3.2 Tâl Defnydd Amrywiol (VUC)

Pwrpas y Tâl Defnydd Amrywiol yw adennill ein costau gweithredu, cynnal a chadw ac adnewyddu sy'n amrywio yn ôl traffig. Mewn termau economaidd,

mae'n adlewyrchu'r gost ymylol tymor byr. Felly, nid yw'n adlewyrchu'r gost o ddarparu neu newid gallu neu gapasiti'r Rhwydwaith CVL. Telir y Tâl Defnydd Amrywiol gan Ymgymeriadau Rheilffyrdd teithwyr masnachfaint, nwyddau, siarter a theithwyr mynediad agored. Bydd y Tâl Defnydd Amrywiol ar gyfer Ymgymeriadau Rheilffyrdd teithwyr, cludo nwyddau, siarter a mynediad agored ar Rwydwaith CVL yn cael eu cyfrifo a'u codi yn yr un modd ag y mae Network Rail yn cyfrifo ac yn codi tâl ar Ymgymeriadau Rheilffyrdd am fynediad i draciau ar y Rhwydwaith NR, gan ddefnyddio'r Gyfrifiannell Defnydd Amrywiol ([yma](#)).

Dyfeisiwyd yr egwyddorion sy'n sail i'r Tâl Defnydd Amrywiol y bydd IM CVL yn ei godi ar Rwydwaith CVL gan Network Rail ar gyfer Rhwydwaith Network Rail, sydd wedi'u seilio'n bennaf ar ddadansoddiad o'r gwaelod i fyny o gostau cynyddol Network Rail. Yn gyntaf, cyfrifodd Network Rail gyfanswm y costau amrywiol sy'n gysylltiedig â'r holl draffig ar y rhwydwaith. Yna dosbarthwyd y costau hyn rhwng cerbydau unigol yn seiliedig ar eu tueddiad cymharol i achosi difrod i'r rhwydwaith. Mae'r tueddiad hwn wedi'i sefydlu o ddadansoddiad o achosion traul ar y rhwydwaith, a nodweddion cymharol gwahanol fathau o gerbydau. Bydd IM CVL yn codi tâl ar yr un sail ar Ymgymeriadau Rheilffyrdd ar Rwydwaith CVL.

Mae cost cynnal a chadw ac adnewyddu traciau'n amrywio yn ôl ffactorau megis llwyth echel, cyflymder, màs di-sbring, a anhyblygrwydd gwyro. Po uchaf yw llwyth echel y cerbyd, ei gyflymder, ei fâs di-sbring, a'i anhyblygrwydd gwyro, yr uchaf yw'r difrod y mae'n ei achosi i'r seilwaith, sy'n arwain at gostau cynnal a chadw ac adnewyddu uwch. O'r herwydd, mae'r Tâl Defnydd Amrywiol a godir ar Rwydwaith CVL yn adlewyrchu'r nodweddion hyn.

Ar gyfer ymholiadau Ymgymeriadau Rheilffyrdd, bydd IM CVL yn rhoi amcangyfrif o'r tâl am fath newydd o gerbyd, gan ddefnyddio methodoleg Network Rail, pan fydd yn cael y wybodaeth ganlynol:

- pwysau gweili
- nifer o echelau
- màs di-sbring
- anhyblygrwydd gwyro
- cyflymder uchaf neu gyflymder gweithredu'r cerbyd
- nifer o seddau (cerbydau teithwyr yn unig)
- Cyfrif Grym Reid (cerbydau cludo nwyddau yn unig)

- pwysau gweithredu (cerbydau cludo nwyddau yn unig).

Mae'r Taliadau Defnydd Amrywiol a godir ar gyfer rhedeg CVL yr un fath â'r rhai a ddefnyddir ar seilwaith Network Rail, am y cyfnod 1 Ebrill 2024 i 31 Mawrth 2029.

Er bod sail cyfrifiad Taliadau Defnydd Amrywiol ar gyfer cludo nwyddau yn debyg i'r un ar gyfer cerbydau teithwyr, mae rhai gwahaniaethau allweddol:

Yn gyntaf, ar gyfer wagenni cludo nwyddau, gwneir addasiadau i Taliadau Defnydd Amrywiol i adlewyrchu "cyfeillgarwch trac" cymharol math crogi/bogi. Pwrpas yr addasiad hwn yw cymell defnyddio mathau crogi/bogi "cyfeillgar i'r trac" a fydd yn arwain at gostau seilwaith is. Mae'r addasiad hwn yn amrywio o ostyngiad o 14.2 y cant i gynnydd o 9.8 y cant, ac mae'n seiliedig ar Gyfrif Grym Reid wagen cludo nwyddau penodol. Mae'r Cyfrif Grym Reid yn fetrig a ddatblygwyd i ddarparu asesiad meintiol o "gyfeillgarwch trac" wagen math crogi/bogi, yn dilyn modelu deinameg cerbyd.

Yn ail, mae Taliadau Defnydd Amrywiol cludo nwyddau yn amrywio yn dibynnu ar y math o nwyddau sy'n cael eu cludo. Y rheswm am hyn yw y gall cyflymder gweithredu a phwysau gweithredu cerbyd cludo nwyddau amrywio'n sylweddol yn dibynnu ar y math o nwyddau sy'n cael eu cludo, ac adlewyrchir hyn yn y Tâl Defnydd Amrywiol. Mae'r rhestr o fathau o nwyddau cludo a ddefnyddir at ddibenion codi tâl wedi'i nodi isod:

- biomas
- cemegau
- Diwydiant Cyflenwi Trydan Glo (CESI)
- glo arall
- deunyddiau adeiladu
- modurol domestig
- rhyngfoddol domestig
- gwastraff domestig
- menter
- Modurol Ewropeaidd
- Confensiynol Ewropeaidd
- Rhyngfoddol Ewropeaidd

- nwyddau cyffredinol
- mwynau diwydiannol
- mwyn haearn
- post a logisteg premiwm
- arall
- petrolewm
- Post Brenhinol
- dur.

5.3.3 Trydan Tyniant

Mae Ymgymeriadau Rheilffyrdd yn gallu defnyddio cerrynt trydan ar gyfer tyniant. Mae OLE 25kv amharhaol wedi'i osod ar lwybrau teithwyr ar y rhwydwaith CVL. Mae'r gofynion defnyddio wedi'u cynnwys yn yr adran hon. Sylwer: Nid oes gan linellau cludo nwyddau yn unig OLE wedi'i osod.

Mae'r egwyddorion codi tâl ar gyfer trydan tyniant ar gyfer y rhwydwaith CVL yn amrywio rhwng Ymgymeriad Rheilffyrdd sengl ac Ymgymeriad Rheilffyrdd Lluosog, (gweler 5.3.3.5)

5.3.3.1 Bydd dau fesurydd seilwaith pwynt cyflenwi trydan yn cael eu gosod, un ym mhwynt cyflenwi Network Rail yn Nhreganna, ac un ym mhwynt cyflenwi AIW yn Nhonteg (Glan-bad).

5.3.3.2 Mae trydaneiddio llinellau uwchben Llinellau Craidd y Cymoedd (CVL) ar 25kV AC yn defnyddio rhannau wedi'u daearu'n barhaol (PES), o dan strwythurau cyfyngedig, a sawl rhan heb gatena, a ddynodwyd yn "drydaneiddio clyfar" (trydaneiddio amharhaol). O ganlyniad, rhaid i bob trên trydan sy'n gweithredu ar rwydwaith CVL allu rhyngwynebu â'r system drydaneiddio drwy dywysyddion APCO seilwaith Track Link III drwy ddarllenwyr a gludir ar drenau, a bod â ffynhonnell pŵer eilaidd e.e. batris. Mae hyn yn wir am gerbydau trenau tram Citylink a thri modd Stadler Flirt.

5.3.3.3 Rhaid i bob trên sy'n defnyddio cyflenwad pŵer tyniant allu cael ei fesur.

5.3.3.4 Gall Ymgymeriadau Rheilffyrdd gaffael eu pŵer gan bwy bynnag y dymunant.

5.3.3.5 Costau Tyniant

- (i) Un gweithredwr: bydd y gweithredwr yn talu am yr holl gostau sy'n gysylltiedig â cherrynt tyniant, cyflenwad tyniant a cholledion.
- (ii) Ymgymeriadau Rheilffyrdd Lluosog: Bydd AIW yn galluogi'r dull cyflenwi a chodi tâl ar y Rheilffordd ar y pris trydan y cytunwyd arno gyda'u cyflenwr, ynghyd â thâl am weithredu a chynnal a chadw (yn cynnwys cyfraniad tuag at draul) yr offer pŵer Tyniant, a'r colledion trosglwyddo.

5.3.3.6 Trefniadau Cyflenwi

- (i) Un Ymgymeriad Rheilffyrdd: Ni fydd y Cerrynt Trydan ar gyfer Tyniant (EC4T) yn cael ei gyflenwi gan AIW ac mae'n eiddo i TfWRL.
- (ii) Ymgymeriadau Rheilffyrdd Lluosog: Bydd AIW yn galluogi cyflenwad pŵer i bob Ymgymeriad Rheilffyrdd.

5.3.3.7 Codi tâl

Tâl Defnydd Ased Trydaneiddio (EAUC)

Pwrpas yr EAUC yw adennill y costau cynnal a chadw ac adnewyddu amrywiol sy'n gysylltiedig ag asedau trydaneiddio [Rhwydwaith OLE CVL].

Mae'r tâl wedi'i alinio â'r hyn a godir gan Network Rail, ac wedi'i gyfrifo drwy amcangyfrif y ganran o gostau asedau trydaneiddio a ragwelir sy'n amrywio yn ôl lefelau traffig, a rhannu'r amcangyfrif hwn o gostau newidiol â'n traffig a ragwelir. Mae'r tâl yn daladwy fel a ganlyn:

- Mae Ymgymeriadau Rheilffyrdd Teithwyr sy'n defnyddio tyniant trydan yn cael eu codi ar sail ceiniogau fesul milltir cerbyd trydan.
- Codir tâl o £ fesul KGTM (Mil Tunnell Gros) drydanol ar Ymgymeriadau Rheilffyrdd Cludo sy'n defnyddio tyniant trydan.

Mae'r Tâl Defnydd Ased Trydaneiddio yn cael ei osod ar ddechrau'r Cyfnod Rheoli, a'i gynyddu'n flynyddol yn unol â'r Mynegai Prisiau Defnyddwyr.

Cerrynt Trydan ar gyfer Tyniant (EC4T)

Bydd y tâl EC4T yn cael ei gyfrifo fel a ganlyn:

Tâl EC4T (£) = (defnydd o drydan wedi'i gofnodi ar y mesuryddion ar y trên (kWh) – ailgynhyrchu trydan wedi'i gofnodi ar y mesuryddion ar y trên (kWh)) x (1 + codiad colledion dosbarthu) x tariff (ceiniog/kWh)

5.3.3.8 Bilio

Bydd bilio yn digwydd mewn ôl-daliadau bob 4 wythnos.

5.3.3.9 Bydd AIW yn codi tâl fel a ganlyn am Ddefnyddio Asedau Trydaneiddio.

- (i) Un Gweithredwr: Bydd AIW yn codi tâl am ddefnyddio ei offer dosbarthu a chyflenwi trydanol trwy Dâl Defnydd Ased Trydaneiddio (EAUC).
- (ii) Ymgymeriadau Rheilffyrdd Lluosog: Bydd AIW yn codi tâl am ddefnyddio ei offer dosbarthu a chyflenwi trydanol trwy Dâl Defnydd Ased Trydaneiddio (EAUC). Lle mae mwy nag un Ymgymeriad Rheilffyrdd yn defnyddio trydan tyniant tar y CVL ar unrhyw adeg, bydd addasiad blynyddol i adlewyrchu unrhyw wahaniaeth rhwng y gost a adenillwyd fel uchod a'r gost wirioneddol i AIW o ddarparu trydan tyniant . Bydd y broses addasu hon yn digwydd ar ddiwedd pob blwyddyn a ddaw i ben 31 Mawrth.

5.3.4 Tâl Mynediad Ychwanegol

Mae'n bosib y bydd angen tâl mynediad atodol gan Ymgymeriadau Rheilffyrdd masnachfaint a mynediad agored, i adennill y gost o orfod talu iawndal yn unol ag Atodlen 4 y Cytundeb Mynediad Trac am amhariad a achosir gan swm effeithlon o eiddo (neu gyfyngiadau defnydd) ar Rwydwaith CVL (gweler adran 5.6.6 am fanylion y trefniadau iawndal).

Mae'r Cytundeb Mynediad Trac teithwyr ar gyfer Rhwydwaith CVL yn cynnwys darpariaethau ar gyfer codi tâl mynediad atodol. Fodd bynnag, gall Ymgymeriadau Rheilffyrdd optio allan o ddarpariaethau Atodlen 4. Nid oes tâl mynediad atodol yn cael ei godi ar Rwydwaith CVL ar hyn o bryd.

5.3.5 Mynediad trac i gyfleusterau gwasanaeth

Yn ogystal â'r taliadau mynediad trac ar gyfer defnyddio'r seilwaith, mae'r Rheoliadau Rheilffyrdd yn darparu ar gyfer hawliau i gael mynediad trac at gyfleusterau a chyflenwi gwasanaethau fel y nodir yn adran 5.3.

O dan y rheoliadau hyn, gall IM CVL adennill y costau sy'n gysylltiedig â'r taliadau canlynol fel y disgrifir isod yn adran 5.3.6:

- Tâl Hirdymor yr Orsaf
- Rhent Eiddo
- Taliadau Depo
- Taliadau Amgylcheddol.

5.3.6 Cyflenwi gwasanaethau y cyfeirir atynt yn adran 5.3

Mewn perthynas â'r gorsafoedd ar Rwydwaith CVL, gellir codi taliadau o dan delerau unrhyw Gytundeb Mynediad i Orsafoedd ac unrhyw brydlesi y mae Ymgymeriadau Rheilffyrdd yn ymrwymo iddynt gyda ni ar draws Rhwydwaith CVL. Disgrifir y taliadau hyn yn adrannau canlynol yr adran hon 5.3.6.

5.3.6.1 Tâl Hirdymor yr Orsaf

Mae'r tâl yn galluogi IM CVL i adennill y gwariant cynnal a chadw, adnewyddu ac atgyweirio (MRR) sy'n gysylltiedig â'r holl orsafoedd y mae'n Rheolwr Seilwaith ar eu cyfer, ac nad ydynt wedi'u hariannu fel arall.

Y Tâl Hirdymor Gorsaf sy'n daladwy mewn gorsafoedd CVL ar hyn o bryd yw £0.

5.3.6.2 Rhent Eiddo ar gyfer gorsafoedd

Telir rhent eiddo gan Ymgymeriadau Rheilffyrdd gorsaf o dan delerau eu prydles gorsaf, ac nid yw'n cael ei reoleiddio gan ORR.

Er bod rhent eiddo ar gyfer gorsafoedd yn destun mynegeo RPI, nid oes proses ffurfiol ar gyfer adolygu neu ailosod y rhent i adlewyrchu newidiadau yn lefel gweithgarwch masnachol neu dwf incwm mewn gorsafoedd.

5.3.6.3 Taliadau Depo

Ar y Rhwydwaith CVL, mae cyfleuster ail-lenwi tanwydd yn Rhymni a weithredir gan TfWRL. Rhaid cytuno ar fynediad i'r cyfleuster hwn a thaliadau cysylltiedig gyda TfWRL (gweler adran 1.6.3 am fanylion cyswllt).

5.3.6.4 Taliadau amgylcheddol

Nid yw taliadau mynediad trac IM CVL ar hyn o bryd yn cynnwys unrhyw daliadau neu ostyngiadau amgylcheddol penodol. Mae Rhan E Cod Rhwydwaith CVL, fodd bynnag, yn darparu ar gyfer adennill costau mewn perthynas ag amodau amgylcheddol sy'n deillio o weithgareddau Ymgymeriadau Rheilffyrdd. Mae'n ofynnol i ostyngiadau, os cânt eu rhoi, gydymffurfio â pharagraff 6 Atodlen 3 y Rheoliadau Rheilffyrdd, a chyfeirir at y rhain yn ddiweddarach yn yr adran hon.

5.3.7 Ymdrin â cheisiadau am gapasiti seilwaith

Mae'r gwasanaeth hwn yn cyfeirio at y prosesau a amlinellir yn adran 4 (Dyrannu Capasiti) y Datganiad Rhwydwaith CVL hwn. Nid oes tâl am y gweithgarwch hwn ar hyn o bryd.

5.3.8 Y defnydd o gapasiti a ganiateir

Ar hyn o bryd, nid oes unrhyw dâl na chosb am beidio â defnyddio capasiti a roddir.

5.3.9 Pecyn Isafswm Mynediad ar gyfer cyfleusterau cysylltiedig

Mewn perthynas â chyfleusterau rheilffordd nad ydynt yn rhan o'r Rhwydwaith CVL, cyfrifoldeb y darparwr gwasanaeth perthnasol yw darparu'r Pecyn Isafswm Mynediad.

5.4 Gwasanaethau a Thaliadau Ychwanegol

5.4.1 Gwasanaethau ar gyfer trenau (cyn cynhesu, cyflenwad dŵr, gwaredu gwastraff toiled etc.)

Nid yw hwn yn cael ei ddarparu ar hyn o bryd ar Rwydwaith CVL.

5.4.2 Gwasanaethau ar gyfer cludiant eithriadol a Nwyddau Peryglus

Gall IM CVL ddarparu cefnogaeth ar gyfer Asesiad Risg angenrheidiol ar gyfer cludo Nwyddau Peryglus ar Rwydwaith CVL. Cytunir ar ffioedd ar gyfer y gweithgarwch hwn fesul achos.

5.4.3 Unrhyw wasanaethau ychwanegol eraill

Gellir codi taliadau ychwanegol os bydd angen agor blwch signal, er enghraifft, yn benodol y tu allan i'r oriau a nodir yn y rheolau cynllunio amserlen er mwyn darparu ar gyfer gwasanaeth newydd neu wasanaethau newydd. Penderfynir ar y rhain fesul achos a'u nodi yng Nghytundeb Mynediad Trac yr Ymgymeriad Rheilffyrdd perthnasol.

Mewn perthynas â'r gorsafoedd ar Rwydwaith CVL, gellir codi taliadau o dan delerau unrhyw Gytundeb Mynediad i Orsafoedd a phrydlesi y mae Ymgymeriadau Rheilffyrdd yn ymrwymo iddynt gyda ni ar draws Rhwydwaith CVL.

5.5 Taliadau a Gwasanaethau Ategol

I'r graddau y mae IM CVL yn cyflenwi gwasanaethau ategol lle mae'r rhain yn dod o fewn trefniadau Cytundeb Mynediad Trac, mae'r egwyddorion codi tâl wedi'u nodi o dan adran 5.2.

5.5.1 Mynediad i'r rhwydwaith telathrebu

Ar y Rhwydwaith CVL, mae seilwaith a gwasanaethau GSM-R ac FTN yn cael eu darparu gan Network Rail (gan ddefnyddio offer telathrebu sy'n eiddo i Network Rail) i'w defnyddio gan IM CVL.

Mae'r defnydd o rwydwaith cyfathrebu IM CVL, gan gynnwys yr elfennau hynny a ddisgrifir yn adran 2.3.12 y Datganiad Rhwydwaith CVL hwn, ar gyfer y gweithgareddau hynny sydd wedi'u cynnwys yn y Pecyn Isafswm Mynediad.

5.5.2 Darparu gwybodaeth atodol

Codir tâl am ddarparu gwybodaeth atodol, a asesir ar natur a chwmpas y wybodaeth y gofynnir amdani a'i chodi yn unol â'r Rheoliadau Rheilffyrdd, yn seiliedig ar yr amser a gymerir a chost y deunyddiau a ddefnyddiwyd.

5.5.3 Unrhyw wasanaethau ategol eraill

I'r graddau y mae IM CVL yn cyflenwi gwasanaethau ategol, a all gynnwys mynediad i'r rhwydwaith telathrebu a darparu gwybodaeth atodol, lle mae'r rhain yn dod o fewn trefniadau o fewn Cytundeb Mynediad Trac, mae'r egwyddorion codi tâl wedi'u nodi o dan Adran 5.2.

5.5.4 Taliadau prinder

Nid yw trefniadau codi tâl ar Rwydwaith CVL yn cynnwys taliadau prinder.

5.6 Cosbau a Chymhellion Ariannol

5.6.1 Cosbau am Addasu Llwybr

Mae rheolau cynllunio amserlen yn berthnasol. Mae'r rhain yn cynnwys ceisiadau cynllunio byr a byr iawn. Nid oes cosbau penodol am newidiadau a dderbynnir.

5.6.2 Cosbau am Addasu Llwybr

Mae newid llwybr oherwydd nad yw seilwaith ar gael, gwybodaeth y gyrrwr am lwybr neu ddigwyddiad amser real tebyg yn dod o dan y trefniadau cynllun perfformiad sydd ar waith (gweler adrannau 5.6.6 a 5.7).

5.6.3 Cosbau am beidio â defnyddio

Ar y Rhwydwaith CVL, ar hyn o bryd nid oes trefniadau tâl safonol am beidio â defnyddio/cadw o dan reoliad 17 y Rheoliadau Rheilffyrdd.

5.6.4 Cosbau am Ganslo Llwybr

Ar y Rhwydwaith CVL, ar hyn o bryd nid oes trefniadau tâl safonol am beidio â defnyddio/cadw o dan reoliad 17 y Rheoliadau Rheilffyrdd.

5.6.5 Cymhellion / Gostyngiadau

Y tu allan i'r Rheolau Cynllunio Amserlen craidd a threfniadau'r cynllun perfformiad cymhwysol, nid oes unrhyw gymhellion na gostyngiadau ychwanegol penodol yn cael eu defnyddio ar hyn o bryd ar Rwydwaith CVL.

5.6.6 Cyfyngiadau Defnydd

Pan fo Ymgymeriad Rheilffyrdd yn mynd i gostau ac yn colli refeniw o feddiannau peirianeg aflonyddgar a gymerwyd ar Rwydwaith CVL, ac ar yr amod bod yr Ymgymeriad Rheilffyrdd yn rhan o'r cynllun, mae Atodlen 4 y Cytundeb Mynediad Trac yn nodi'r trefniadau ar gyfer digolledu Ymgymeriadau Rheilffyrdd am y costau a cholledion refeniw hynny. Ers 1 Ebrill 2024, gall Ymgymeriadau Rheilffyrdd ddewis a ydynt am optio allan o'r trefniadau hyn.

Pan fydd gan Ymgymeriad Rheilffordd teithwyr (ac eithrio siarter) neu gludo nwyddau gytundeb mynediad trac gyda Network Rail hefyd, bydd y darpariaethau sy'n ymwneud â'r iawndal sy'n daladwy pan fydd cyfyngiad ar ddefnydd ar Rwydwaith CVL (h.y. y drefn meddiannu) yn cael eu gweinyddu gan Network Rail (ar ran CVL IM), a bydd darpariaethau Atodlen 4 yn y cytundeb mynediad trac gyda Network Rail yn gymwys, gan nodi y gall Ymgymeriadau Rheilffordd optio allan o'r trefniadau hyn.

5.7 Cynllun Perfformiad

5.7.1 Egwyddorion ac amcanion cyffredinol

Mae'r drefn perfformiad ar Rwydwaith CVL yn rhoi iawndal i Ymgymeriadau Rheilffyrdd am oedi a chanslo nad yw'r Ymgymeriad Rheilffyrdd yn uniongyrchol gyfrifol amdanynt. Mae'n drefn sy'n darparu iawndal yn seiliedig ar berfformiad IM CVL ac Ymgymeriadau Rheilffyrdd.

Ar Rwydwaith Network Rail, mae taliadau iawndal yn seiliedig ar oedi a briodolir, meincnodau, a chyfraddau talu: os yw parti'n achosi mwy o oedi na'i swm wedi'i feincnodi, mae'n talu swm sy'n hafal i'r oedi gormodol wedi'i luosi â chyfradd talu. Pennir taliadau yn fformiwläol (yn lle ei gwneud yn ofynnol i bartion drafod colledion gwirioneddol ar gyfer pob oedi), fel swyddogaeth cyfradd talu a sut mae perfformiad gwirioneddol yn cymharu â lefel meincnod. Mae'r system fformiwläig hon yn lleihau'r costau gweinyddol a chyfreithiol a

fyddai'n codi pe bai'n ofynnol i bartïon wneud hawliad am bob digwyddiad unigol. Mae meincnodau a chyfraddau talu gwahanol ar gyfer oedi a achosir gan Network Rail ac ar gyfer oedi a achosir gan Ymgymeriadau Rheilffyrdd. Yn yr un modd, mae'r drefn cludo nwyddau a'r drefn teithwyr yn defnyddio gwahanol fesurau oedi.

Mae'r drefn perfformiad hon wedi'i nodi yn Atodlen 8 templed cytundebau mynediad trac Network Rail.

Weithiau cyfeirir at y drefn berfformiad hon fel y "model seren". Mae'r diagram tros y ddalen yn dangos enghraifft syml o'r trefniant cytundebol:


Mae'r Cytundebau Mynediad Trac ar gyfer Rhwydwaith CVL yn cynnwys trefn berfformiad yn Atodlen 8 y cytundebau hynny, sydd wedi'i seilio'n sylweddol ar fodel Network Rail, y mae ei phrif egwyddorion wedi'u nodi yn adrannau 5.7.2 a 5.7.3 y ddogfen hon. Fodd bynnag, lle bo gan Ymgymeriad Rheilffyrdd sy'n gweithredu ar Rwydwaith CVL hefyd gytundeb mynediad trac gyda Network Rail, mae Network Rail wedi cytuno i weinyddu trefn perfformiad Network Rail a threfn perfformiad Rhwydwaith CVL fel "model seren sengl" fel petai'r ddau rwydwaith yn rhwydwaith cyfun. Mewn amgylchiadau o'r fath, caiff Atodlen 8 y Cytundeb Mynediad Trac ar gyfer Rhwydwaith CVL ei diffodd yn unol ag adran 1a Atodlen 8 Cytundebau Mynediad Trac Cyfunol CVL, fel y'i cyhoeddwyd gan ORR.

O dan y model seren sengl, bydd yr Ymgymeriad Rheilffyrdd yn cael ei ddigolledu gan Network Rail, ac yn talu iawndal iddo, mewn perthynas ag oedi a chanslo sy'n digwydd ar Rwydwaith CVL o dan delerau ei gytundeb mynediad trac Network Rail. Er mwyn cyflawni hyn, os oes gan Ymgymeriad Rheilffyrdd sy'n ceisio mynediad i'r Rhwydwaith CVL gytundeb mynediad trac presennol â Network Rail, bydd angen newid y cytundeb mynediad trac presennol â Network Rail er mwyn adlewyrchu gweithrediad y model seren sengl.

O dan y trefniant model seren sengl hwn, mae Network Rail ac IM CVL wedi ymrwymo i gytundeb y mae Network Rail yn talu iddo, neu'n derbyn iawndal, oddi wrth IM CVL mewn perthynas ag oedi a chanslo ar Rwydwaith CVL, a'r effaith y mae hyn yn ei chael ar y rhwydwaith Network Rail ac i'r gwrthwyneb (y "**Cytundeb Rheolwr Seilwaith**").

Mae'r diagram isod yn dangos darluniad syml o'r trefniant cytundebol model seren sengl (yn dangos Ymgymeriadau Rheilffyrdd (RU) gyda chytundebau mynediad trac ar y ddau rwydwaith):

[model seren sengl]



5.7.2 Monitro Perfformiad

Cyflawnir monitro perfformiad ar Rwydwaith CVL drwy adroddiadau amser real gan ddefnyddio system TRUST Network Rail. Mae digwyddiadau sy'n achosi oedi a chanslo a'r effaith ar drenau unigol yn cael eu cofnodi. Defnyddir allbwn y system hon i fesur oedi o ar sail dyddiol, wythnosol a chyfnodol, yn ogystal â dadansoddiadau tymor hwy megis perfformiad blwyddyn i flwyddyn.

Mesurir perfformiad IM ac Ymgymeriadau Rheilffyrdd yn erbyn eu targedau gan ddefnyddio data o TRUST, a hefyd perfformiad yn erbyn meincnodau, sy'n pennu a oes taliadau neu iawndal yn ddyledus.

5.7.3 Cymhelliant

Mewn perthynas ag Ymgymeriad Rheilffyrdd sy'n gweithredu ar Rwydwaith CVL yn unig, mae'r targedau meincnod ar gyfer yr Ymgymeriad Rheilffyrdd hwnnw ac IM CVL wedi'u nodi yn y Cytundeb Mynediad Trac rhwng y partïon hynny.

Lle mae Ymgymeriad Rheilffyrdd yn gweithredu ar Rwydwaith CVL a Rhwydwaith Network Rail, o dan y model seren sengl:

- bydd targed meincnod yr Ymgymeriad Rheilffyrdd yn cael ei gynnwys o fewn y targed meincnod yn ei gytundeb mynediad trac ar gyfer Rhwydwaith Network Rail; ac
- mae targed meincnod IM CVL o dan y model seren sengl wedi'i nodi yn y Cytundeb Rheolwr Seilwaith.

Bwriedir i IM CVL a'r targedau meincnod Ymgymeriad Rheilffyrdd teithwyr, siarter a chludo nwyddau o dan y drefn perfformiad gael eu gosod ar lefelau realistig ond heriol i bob parti. Os yw IM CVL a'r Ymgymeriadau Rheilffyrdd yn perfformio ar eu lefelau meincnod priodol, yna ni wneir unrhyw daliadau Atodlen 8.

Gall Ymgymeriadau Rheilffyrdd teithwyr masnachfaint a mynediad agored hefyd hawlio iawndal ychwanegol os yw perfformiad yn wael dros gyfnod parhaus, a'r sbardun yw pan fo perfformiad CVL fwy nag 20 y cant yn waeth na'r targed meincnod ar sail cyfartaledd blynyddol symudol.

Ar gyfer Ymgymeriadau Rheilffyrdd Cludo Nwyddau, mae meincnodau a chyfraddau talu IM CVL a gweithredwr cludo nwyddau yn gyffredin ar draws yr holl Ymgymeriadau Rheilffyrdd cludo nwyddau, gan adlewyrchu'r gost a ysgwyddir gan Ymgymeriadau Rheilffyrdd Cludo Nwyddau, gan adlewyrchu'r awydd i gadw symlrwydd yn y drefn perfformiad cludo nwyddau.

Ar gyfer Ymgymeriadau Rheilffyrdd siarter, mae meincnodau a chyfraddau talu IM CVL a gweithredwr siarter yn gyffredin ar draws yr holl Ymgymeriadau Rheilffyrdd siarter, gan adlewyrchu'r gost a ysgwyddir gan Ymgymeriadau Rheilffyrdd siarter, gan adlewyrchu'r awydd i gadw symlrwydd yn y drefn perfformiad siarter.

Rhaid i'r cynllun perfformiad fodloni'r gofynion a nodir yn Rheoliad 16 ac Atodlen 3 y Rheoliadau Rheilffyrdd.

5.7.4 Llywodraethu a Datrys Anghydfodau

Mae'r weithdrefn gychwynnol ar gyfer delio ag anghydfodau sy'n ymwneud â'r cynllun perfformiad wedi'i nodi yng Nghytundebau Mynediad Trac pob Ymgymeriad Rheilffyrdd. Lle bo gan Ymgymeriad Rheilffyrdd hefyd gytundeb mynediad trac gyda Network Rail (ac felly mae'r cynllun perfformiad yn cael ei weinyddu gan Network Rail ar ran IM CVL), mae'r weithdrefn ar gyfer anghydfodau sy'n ymwneud â'r drefn perfformiad wedi'i nodi yn Atodlen 8 i bob Cytundeb Mynediad Trac, fel arall bydd Rheolau Datrys Anghydfodau Mynediad CVL yn berthnasol. Mae'r rhain ar gael fel atodiad i god y Rhwydwaith ar wefan IM [yma](#).

5.8 Newidiadau taliadau

Pennir y taliadau y mae IM CVL yn eu codi ar Ymgymeriadau Rheilffyrdd trenau fel rhan o broses adolygu arferol a gynhelir gan IM CVL. Mae'r broses adolygu arferol yn pennu taliadau IM CVL am gyfnod o bum mlynedd (a ddechreuodd ar 1 Ebrill 2024). Yn ystod y cyfnod hwn gall newidiadau i daliadau fod yn destun cynnydd bob blwyddyn i adlewyrchu chwyddiant.

5.9 Trefniadau bilio

Bydd yr holl anfonebau'n cael eu hanfon at yr Ymgymeriadau Rheilffyrdd gan neu ar ran IM CVL, ac maent fel arfer ar sail cyfnodol (pedair wythnos). Amlinellir y manylion penodol yn y Cytundeb Mynediad Trac penodol. Mae camau unioni am beidio â thalu yn cynnwys taliadau llog, atal y contract a therfynu.

6. Gweithrediadau

6.1 Rhagymadrodd

Mae'r adran hon yn cynnwys manylion y rheolau ynghylch rhwymedigaethau'r ceisydd a/neu IM CVL i'w dilyn ar gyfer gweithrediadau trenau a siyntio.

Mae IM CVL yn cydweithredu â Network Rail i sicrhau cydgysylltu effeithiol ar ffiniau IM a gwneud y gorau o adfer gwasanaeth yn dilyn amhariad.

6.2 Rheolau Gweithredol

Mae'r Rhwydwaith CVL yn rhan o brif reilffordd Prydain Fawr, felly mae'r safonau o fewn cwrpas y Cod Safonau Rheilffyrdd (Safonau'r Grŵp Rheilffyrdd, Safonau'r Diwydiant Rheilffyrdd a Chyhoeddiadau Gweithrediadau Cenedlaethol gan gynnwys y Llyfr Rheolau) yn berthnasol. Mae cydymffurfio â Safonau'r Grŵp Rheilffyrdd yn orfodol. Mae'r rhain yn safonau technegol a gweithdrefnau gweithredu sy'n cyfrannu at weithrediad system reilffyrdd ddiogel a rhyngweithiol.

Cyhoeddir Safonau'r Grŵp Rheilffyrdd, Safonau'r Diwydiant Rheilffyrdd a Chyhoeddiadau Gweithrediadau Cenedlaethol gan RSSB, y gellir eu cyrchu ar wefan yr RSSB. Cefnogir rhai safonau gan nodiadau canllaw, a gyhoeddir hefyd gan RSSB. Mae'r RSSB wedi integreiddio rheolaeth y safonau hyn â'r gwaith y mae'n ei wneud i gefnogi'r diwydiant ar safonau rhyngweithredu.

Mae IM CVL yn aelod o'r RSSB.

Mae Safonau'r Grŵp Rheilffyrdd ar gael [yma](#).

Yn ogystal, mae'r rheolau canlynol hefyd yn berthnasol:

6.2.1 Cod Rhwydwaith CVL

Mae Cod Rhwydwaith CVL yn set gyffredin o reolau sy'n cael eu hymgorffori drwy gyfeiriad ym mhob Cytundeb Mynediad Trac. Mae Cod Rhwydwaith CVL yn ymdrin â'r berthynas gyfreithiol amlochrog rhwng IM CVL a phob Ymgymeriad Rheilffyrdd sy'n defnyddio Rhwydwaith CVL. Er nad yw Cod Rhwydwaith CVL yn creu unrhyw berthynas gytundebol rhwng Ymgymeriadau Rheilffyrdd, dylid nodi, mewn achos o wrthdaro dehongli rhwng Cod Rhwydwaith CVL a'r Cytundeb Mynediad Trac perthnasol, mai Cod Rhwydwaith CVL fydd drechaf.

Mae unrhyw berson sy'n rhan o Gytundeb Mynediad Trac yn ddarostyngedig i fodloni'r holl rwymedigaethau o fewn Cod Rhwydwaith CVL.

Mae Cod Rhwydwaith CVL yn nodi gweithdrefnau sy'n ymwneud â gweithrediad Rhwydwaith CVL. Mae'r cod yn rheoleiddio newid, gan gynnwys newidiadau i gerbydau rheilffordd ac i'r Rhwydwaith CVL ei hun. Mae Cod Rhwydwaith CVL hefyd yn ymdrin â'r broses ar gyfer sefydlu Amserlen Weithiol; mynd i'r afael ag aflonyddwch gweithredol; a gwella perfformiad, cynllunio a monitro.

Mae Cod Rhwydwaith CVL i'w weld o dan Dogfennau IM ar wefan IM [yma](#).

6.2.2 Cod Gweithredol Rheilffyrdd CVL

Pwrpas y Cod Gweithredol Rheilffyrdd yw cynnal gweithrediad gwasanaethau trenau ar Rwydwaith CVL ac adfer gweithrediad Rhwydwaith CVL yn dilyn aflonyddwch.

Mae Cod Gweithredol Rheilffyrdd CVL yn debyg i'r un a ddefnyddir ar rwydwaith Network Rail, ac mae wedi'i gynnwys yn Adran H Cod Rhwydwaith CVL (gweler 6.2.1). Mae bwriad i gyflwyno Cod Gweithredol Rheilffordd CVL penodol, a fydd yn cael ei gyhoeddi ar Wefan IM unwaith y bydd wedi ei sefydlu yn unol â Chynllun ROC CVL [yma](#).

6.2.3 Cod Cywirdeb Data Perfformiad

Mae'r Cod Cywirdeb Data Perfformiad [yma](#) wedi'i ymgorffori yng Nghod Rhwydwaith CVL (Rhan B) ac mae'n cwmpasu safonau diffiniedig o gywirdeb data perfformiad. Fe'i defnyddir mewn cysylltiad â'r system monitro perfformiad, sy'n asesu'r priod gyfrifoldebau am oedi a chanslo trenau. Mae'r system yn bwydo i mewn i drefniadau a phrosesau cytundebol sy'n annog gwella perfformiad a lleihau aflonyddwch.

6.2.4 Egwyddorion a Rheolau Priodoli Oedi

Mae'r ddogfen Egwyddorion a Rheolau Priodoli Oedi wedi'i hymgorffori yng Nghod Rhwydwaith CVL [yma](#) (Rhan B), ac mae'n darparu canllawiau ar gyfer cysondeb cymhwyso a dull gweithredu gan bob parti sy'n ymwneud â'r broses o briodoli oedi. Mae hyn yn galluogi cadw cofnodion cywir o achosion o oedi a chanslo gwasanaethau trên o ganlyniad i ddigwyddiadau ar draws Rhwydwaith CVL. Mae'r ddogfen yn cefnogi'r angen am wybodaeth reoli yn ogystal â'r gofyniad i bartïon gael eu digolledu yn unol â hynny am yr oedi a gafwyd.

6.2.5 Rheolau Datrys Anghydfodau Mynediad CVL

Mae Rheolau Datrys Anghydfodau Mynediad CVL yn nodi sut mae anghydfodau o dan gcontractau mynediad yn cael eu datrys. Ceir rhagor o wybodaeth yn adran 4.5.5.2.

6.2.6 Gweithdrefnau Gweithredu Cenedlaethol Network Rail

Er mwyn sicrhau cysondeb yn y trefniadau rhwng Rheolwyr Seilwaith cyfagos, mae Rhwydwaith CVL yn gweithredu i raddau helaeth yr un gweithdrefnau â Network Rail, ac mae ganddo drefniadau rhyngwyneb gweithredol ar waith i gefnogi hyn. Bydd y trefniadau hyn yn cael eu hadolygu a'u diwygio o bryd i'w gilydd (yn enwedig pan fydd canolfan reoli integredig CVL yn weithredol).

6.3 Mesurau Gweithredol

6.3.1 Egwyddorion

Mae'r mesurau i'w cymryd yn achos aflonyddwch neu amhariad a ragwelir ar Rwydwaith CVL er mwyn cynnal, a lle bo angen, adfer, gweithrediad gwasanaethau trenau ar Rwydwaith CVL yn unol â'r Amserlen Weithiol wedi'u nodi yng Nghod Gweithredol Rheilffyrdd CVL (gweler adran 6.2.2 y Datganiad Rhwydwaith CVL hwn am fanylion).

Pan fydd Digwyddiad Aflonyddgar yn digwydd, bydd Rheolwr Rheoli ar Ddyletswydd yr ICC, mewn cysylltiad â Network Rail, yn penderfynu ar y camau priodol i adfer yr Amserlen Weithiol cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol, gan ystyried anghenion yr Ymgymeriadau Rheilffyrdd, buddiannau diogelwch, a diogelwch a gweithrediad effeithlon ac economaidd trenau a'r Rhwydwaith CVL. Mae'n ofynnol i Ymgymeriadau Rheilffyrdd gydweithredu mewn perthynas â gweithgarwch o'r fath, gan gynnwys darparu trenau a chriw trên i gynorthwyo.

Bydd IM CVL yn arwain y broses i ddatblygu a chynnal cynlluniau wrth gefn a chodau ymarfer y gellir eu rhoi ar waith mewn achosion o Ddigwyddiadau Aflonyddgar. Lle disgwylir i Ddigwyddiad Aflonyddgar barhau am gyfnod estynedig, gall Network Rail (ar ran IM CVL) baratoi amserlen ddiwygiedig mewn ymgynghoriad â'r Ymgymeriadau Rheilffyrdd yr effeithir arnynt.

6.3.2 Rheoleiddio gweithredol

Mae IM CVL yn datblygu ac yn cynnal polisïau rheoleiddio trenau er mwyn darparu fframwaith i alluogi gwneud penderfyniadau rheoleiddio mewn ffordd sy'n deg, yn gyson, ac er lles gorau'r holl Ymgymeriadau Rheilffyrdd, cyn belled ag y gellir eu cyflawni yn rhesymol, gan hwyluso cyflawni eu hamcanion perfformiad.

Mae polisïau rheoleiddio trenau yn cael eu sefydlu gan IM CVL mewn ymgynghoriad ag Ymgymeriadau Rheilffyrdd, y gallant gynnig amrywiadau iddynt.

Penderfynir ar unrhyw anghydfodau drwy gyfeirio at Reolau Datrys Anghydfodau Mynediad CVL ac, os yn berthnasol, drwy apel bellach i ORR.

6.3.3 Aflonyddwch

Mae Cod Gweithredol Rheilffordd CVL yn darparu ar gyfer cynlluniau wrth gefn i ddarparu ar gyfer newidiadau i'r gwasanaeth trenau y gellir disgwyl iddynt arwain at amhariad gweithredol. Gall hyn gynnwys amserlenni diwygiedig a gynlluniwyd ymlaen llaw y gellir eu huwchlwytho i systemau'r diwydiant a ddefnyddir ar Rwydwaith CVL yn gyflym, fel y gall teithwyr weld pa wasanaethau trên fydd yn rhedeg y diwrnod canlynol.

Lle na ellir rhagweld problem, ond y gellir disgwyl iddi arwain at amhariad gweithredol, ac nad oes cynllun wrth gefn ar waith, bydd IM CVL yn ymgynghori â'r Ymgymeriadau Rheilffyrdd yr effeithir arnynt fel y bo'n rhesymol ymarferol, ac yn penderfynu ar y camau mwyaf priodol i'w cymryd.

6.4 Offer ar gyfer Gwybodaeth a Monitro Trenau

Cedwir gwybodaeth Perfformiad Trenau amser real ar gyfer Rhwydwaith CVL yn y system TRUST, a reolir gan Network Rail, sydd hefyd yn cynnwys gweddill rhwydwaith Prydain Fawr. Mae TRUST hefyd yn cefnogi System Gwybodaeth Trenau (TIS) RNE.

Mae TIS yn rhaglen we sy'n cefnogi rheoli trenau rhyngwladol drwy gyflwyno data trenau amser real sy'n ymwneud â threnau rhyngwladol. Ceir y data perthnasol yn uniongyrchol o systemau Network Rail, a chyfunir yr holl wybodaeth o'r gwahanol IM yn un rhediad trên o'r ymadawiad neu'r tarddiad i'r gyrchfan derfynol. Yn y modd hwn, gellir monitro trên o'r dechrau i'r diwedd ar draws ffiniau.

Gall Ymgymeriadau Rheilffyrdd a gweithredwyr terfynfeydd hefyd gael mynediad i'r TIS, a gallant ymuno â Bwrdd Cynghori TIS RNE. Mae holl aelodau'r Bwrdd hwn yn rhoi mynediad llawn i bob aelod arall i ddata TIS os ydynt yn ymwneud â'r un rhediad trên. Hebdo, rhaid arwyddo cyd-gytundebau rhwng Ymgymeriadau Rheilffyrdd a rhwng Ymgymeriadau Rheilffyrdd a gweithredwyr terfynfeydd.

Mae mynediad i TIS yn rhad ac am ddim. Gellir gofyn am gyfrif defnyddiwr drwy Gymorth TIS RNE:

support.tis@rne.eu

Mae rhagor o wybodaeth ar wefan RNE [yma](#).

Sylwer: Nid yw Rhwydwaith CVL yn rhan o Goridor Cludo Nwyddau Rhyngwladol presennol.

7. Cyfleusterau Gwasanaethau

7.1 Rhagymadrodd

Fel y'i diffinnir yn y Rheoliadau Mynediad a Rheolaeth, rhaid i Weithredwyr Cyfleusterau Gwasanaethau ddarparu gwybodaeth am fynediad a chodi tâl am y Cyfleusterau Gwasanaethau i'r IM.

Rhaid i weithredwyr cyfleusterau gwasanaethau ddarparu gwybodaeth am y cyfleusterau a'r gwasanaethau y maent yn gyfrifol amdanynt a'r taliadau sy'n gymwys i'w cynnwys yn y Datganiad Rhwydwaith hwn.

Rhaid i IM CVL hwyluso casglu gwybodaeth am gyfleusterau gwasanaethau. Er mwyn lleddfu baich gweinyddol gweithredwyr cyfleusterau gwasanaethau, mae templed ar gyfer casglu'r wybodaeth ofynnol [yma](#).

Mae'n ofynnol i weithredwyr cyfleusterau gwasanaethau gyflenwi'r holl wybodaeth berthnasol i'r Rheolwr Seilwaith. Darperir y wybodaeth yn yr adran hon i fanylu ar gyfleusterau gwasanaethau a weithredir gan IM CVL a'r rhai a weithredir gan eraill, sy'n gysylltiedig â Rhwydwaith IM CVL. Mae gwybodaeth am gyfleusterau gwasanaethau a weithredir gan eraill wedi'i chyfyngu i'r hyn a ddarperir gan y gweithredwr (gan gynnwys dolenni) ar adeg cyhoeddi (gweler 7.2).

I gynorthwyo gweithredwyr cyfleusterau, mae enghraifft o Ddatganiad Cyfleusterau Gwasanaethau wedi'i gwblhau (Avanti West Coast) i'w gweld [yma](#).

7.2 Trosolwg o Gyfleusterau Gwasanaethau

Mae'r wybodaeth a roddir yn yr adran hon yn rhoi manylion y cyfleusterau gwasanaethau sydd ar gael ar Rhwydwaith CVL.

Ar gyfer Cyfleusterau nad ydynt yn cael eu rheoli gan IM CVL, darperir dolenni i Gyfleusterau Gwasanaethau a ddarperir gan weithredwyr yn yr adrannau canlynol perthnasol

Bydd gwybodaeth a dderbynnir y tu hwnt i'r cyhoeddiad diweddar hwn yn cael ei chynnwys mewn rhifynnau arfaethedig y Datganiad Rhwydwaith yn unig.

Mae Templed Cyfleusterau Gwasanaethau wedi'i ddarparu i berchnogion cyfleusterau rhestredig ar gyfer darparu'r wybodaeth hon, ac mae copi ar gael [yma](#).

Mae IM CVL yn gwahodd gweithredwyr cyfleusterau gwasanaethau sy'n gysylltiedig â rhwydwaith rheilffyrdd CVL i anfon eu gwybodaeth barod i'w

chyhoeddi neu hyperddolen i'w gwybodaeth cyfleusterau gwasanaethau i CVLtrackaccess@amey.co.uk.

7.3 Cyfleusterau Gwasanaethau

Ar hyn o bryd, TfWRL yw perchennog y cyfleuster ar gyfer pob un o'r Gorsafoedd CVL.

Mae TfWRL hefyd yn gweithredu cyfleuster cynnal a chadw ar gyfer metro/cerbydau rheilffordd ysgafn yn Ffynnon Taf (gweler 7.3.6).

Mae TfWRL hefyd yn gweithredu cyfleuster ail-lenwi tanwydd yn Rhymni.

Nid oes unrhyw Derfynellau Cludo Nwyddau ar Seilwaith CVL.

Mae Disgrifiad o Gyfleusterau Gwasanaethau ar gyfer safleoedd a weithredir gan TfWRL i'w weld [yma](#).

7.3.1 Darpariaethau Cyffredin

Ar wahân i Orsafoedd Teithwyr, a brydlesir i TfWRL, ychydig iawn o gyfleusterau gwasanaeth sydd gan y Rhwydwaith CVL. Lle mae'r rhain yn bodoli, fe'u disgrifir yn yr isadrannau canlynol.

7.3.2 Gorsafoedd teithwyr

7.3.2.1 Gwybodaeth gyffredinol

Mae Adran 2.3.3 yn rhoi rhagor o wybodaeth am y Gorsafoedd CVL. Gweler y rhestr o Orsafoedd CVL yn Appendix B y Datganiad Rhwydwaith CVL hwn, sy'n cynnwys manylion plattfformau.

Mae uchder plattfformau ym mhob gorsaf ar Rwydwaith CVL yn gyffredinol uwch na'r rhai a geir ar reilffyrdd ar gyfandir Ewrop. Mae'r pellter camu (yn fertigol a llorweddol) rhwng plattfformau a threnau yn rhan o'r ystyriaeth a roddir wrth dderbyn cerbydau newydd i'r Rhwydwaith CVL.

Rhoddir rhagor o wybodaeth am dderbyn cerbydau yn adran 3.4.1, ac mae gwybodaeth fanwl am y seilwaith yn yr Atodiad Adrannol [yma](#). Gweler adran 2.3 am ragor o wybodaeth am yr Atodiad Adrannol.

7.3.2.2 Gwasanaethau

Mae maint y rhan fwyaf o gyfleusterau gwasanaeth a ddarperir mewn gorsafoedd a reolir gan Ymgymeriadau Rheilffyrdd fel arfer yn cael ei bennu gan berchennog y cyfleuster. Mae manylion y cyfleusterau yn y gorsafoedd hyn fel arfer ar gael ar wefan National Rail.

7.3.2.3 Disgrifiad o'r Cyfleuster Gwasanaeth

Mae'n ofynnol i weithredwyr cyfleusterau gwasanaeth gyflenwi'r holl wybodaeth berthnasol i'r rheolwyr seilwaith yn unol â Rheoliad 13(a)(a) Rheoliadau Rheilffyrdd (Mynediad, Rheoli a Thrwyddedu Ymgymeriadau Rheilffyrdd) 2016 fel y'i diwygiwyd.

Mae manylion cyfleusterau'r orsaf, mynediad, staffio, prynu tocynnau a hygyrchedd i'w gweld yn y ddogfen Disgrifiad o Gyfleusterau Gwasanaethau Trafnidiaeth Cymru [yma](#).

Cyhoeddir gwybodaeth mynediad technegol am y Gorsafoedd CVL yn yr Atodiad Adrannol [yma](#).

Codi Tâl

Mae'r Gorsafoedd CVL yn cael eu gweithredu gan TfWRL, sy'n prydlesu'r Gorsafoedd CVL oddi wrth IM CVL. Mae'r egwyddorion a'r fethodoleg ar gyfer costau wedi'u nodi yn adran 5.3.7. I gael gwybodaeth am fynediad a chostau mynediad i Orsafoedd CVL, ac i wneud cais am dempled o Gytundeb Mynediad i Orsafoedd (gan gynnwys yr Amodau Mynediad Gorsaf perthnasol), cysylltwch â TfWRL gan ddefnyddio'r manylion cyswllt a nodir yn adran 1.6 y Datganiad Rhwydwaith CVL hwn. Ar hyn o bryd, TfWRL yw'r unig Ymgymeriad Rheilffyrdd sy'n gweithredu gwasanaethau teithwyr ar Rwydwaith CVL.

7.3.2.4 Amodau Mynediad

Rhaid i Ymgymeriadau Rheilffyrdd eraill (a elwir yn fuddiolwyr) sydd am ddefnyddio Gorsaf CVL ymrwmo i Gytundeb Mynediad i Orsaf gyda TfWRL. Mae cytundebau o'r fath yn llywodraethu'r ddarpariaeth amwynderau a gwasanaethau gorsaf cyffredin gan berchennog y cyfleuster, gan gynnwys materion megis argaeledd cynteddau a phlatfformau, amwynderau anghyfyngedig i staff, goleuadau glanhau ac anfon trenau. Rhaid i Gytundebau Mynediad Gorsaf o'r fath gael eu cymeradwyo gan ORR cyn ymrwmo iddynt, fel arall ni fydd ganddynt unrhyw effaith gyfreithiol.

Mae Gorsaf Caerdydd Canolog, sy'n rhan o Seilwaith IM Network Rail, hefyd yn cael ei gweithredu gan TfWRL. Bydd angen i Ymgymeriadau Rheilffyrdd sydd am ddefnyddio cyfleusterau'r orsaf hon ymrwmo i Gytundeb Mynediad Gorsaf ar wahân gyda TfWRL.

Pan fydd Ymgeisydd yn ymrwmo i Gytundeb Mynediad Gorsaf mewn perthynas â Gorsaf CVL, rhaid i'r cytundeb mynediad i orsaf gynnwys yr Amodau Mynediad Gorsaf CVL sy'n nodi'r trefniadau gweithredol sy'n berthnasol i weithrediad Gorsafoedd CVL. Pan fo cais yn gofyn am gytundeb defnydd gorsaf mewn perthynas â Gorsaf CVL, bydd y cytundeb defnydd

gorsaf yn nodi'r trefniadau gweithredol sy'n berthnasol i weithrediad a defnydd yr Orsaf CVL berthnasol. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau at berchennog y cyfleuster neu weithredwr y cyfleuster gwasanaeth perthnasol, fel y bo'n berthnasol.

7.3.2.5 Dyrnnu Capasiti

Dylid cyfeirio ceisiadau am fynediad i wasanaethau gorsaf at TfWRL gan ddefnyddio'r manylion cyswllt yn Adran 1.6 y Datganiad Rhwydwaith hwn. Mae TfWRL yn gyfrifol am ymateb i unrhyw gais a chydlynu'r broses sy'n arwain at gytundebau angenrheidiol neu wrthod mynediad.

7.3.3 Terfynfeydd cludo nwyddau

Fel y Rheolwr Seilwaith, nid yw IM CVL yn gweithredu terfynfeydd cludo nwyddau nac yn cynnig unrhyw gyfleusterau terfynfa cludo nwyddau. Byddai angen i unrhyw barti sydd am ddefnyddio'r terfynfeydd hyn ddod i gytundeb ar wahân gyda pherchennog y cyfleuster neu ddarparwr gwasanaeth y derfynfa honno y mae'r Rheoliadau Rheilffyrdd yn berthnasol iddi. Darperir Manylion Cyswllt yn Adran 1.6 y Datganiad Rhwydwaith hwn.

Y ddau bwynt lle mae cyfleusterau cludo nwyddau'n cysylltu â'r Rhwydwaith CVL yw Cwmbargod, nad yw'n cael ei ddefnyddio ar hyn o bryd, a Hirwaun, nad yw'n cael ei ddefnyddio ar hyn o bryd ac sy'n destun trefniant Newid Rhwydwaith dros dro.

Ar hyn o bryd nid oes unrhyw gyfleusterau cludo nwyddau sy'n cael eu defnyddio sy'n gysylltiedig â'r Rhwydwaith CVL.

Mae gwybodaeth ychwanegol am terfynfeydd cludo nwyddau ar Rwydwaith Network Rail ar gael [yma](#).

7.3.4 Iardiau trefnu a chyfleusterau ffurfio trenau

Nid oes unrhyw gyfleusterau o'r fath ar Rwydwaith CVL ar hyn o bryd.

7.3.5 Cilffyrdd storio

Nid oes unrhyw gliffyrdd storio pwrpasol ar Rwydwaith CVL.

Rhoddir rhai trenau mewn stablau dros nos, a'r tu mewn yn cael eu glanhau yn cilffyrdd storio Aberdâr, Treherbert a Rhymni. Mae'r trefniant hwn fel y cytunwyd gydag IM, ac mae'n caniatáu ar gyfer cynnal a chadw angenrheidiol asedau IM. Ni chodir tâl am y trefniant hwn. Gweler yr Atodiad Adrannol am fanylion technegol y cilffyrdd hyn.

Mae'n bosib y bydd rhagor o ddarpariaeth sefydlogi ar y Rhwydwaith Network Rail cyfagos.

7.3.6 Cyfleusterau cynnal a chadw

Mae depo a chyfleuster Cynnal a Chadw a weithredir gan TfWRL wedi'i leoli yn Ffynnon Taf at ddefnydd y cerbydau Metro newydd yn unig. Darperir gwybodaeth am y depo a'r cyfleuster cynnal a chadw hwn yn nogfen cyfleusterau TfWRL [yma](#).

Mae cyfleuster LMD Ail-lenwi yn Rhymni, a weithredir gan TfWRL (gweler adran 7.3.10).

Ar y Seilwaith a reolir gan Network Rail, mae Depo Treganna yn darparu cyfleusterau ar gyfer cynnal a chadw golau. Nid yw'r depo hwn yn rhan o'r Rhwydwaith CVL, ond mae'n darparu gwasanaeth i rai cerbydau sy'n gweithredu ar Rwydwaith CVL.

Gelwir gweithredwr depo yn berchennog cyfleuster depo. Rhaid i weithredwyr trenau eraill, neu drydydd parti sy'n caffael gwasanaethau depo ar ran gweithredwr trenau (a elwir yn fuddiolwyr), sydd am ddefnyddio'r depo, ymrwmo i gontract mynediad gyda pherchennog y cyfleuster depo perthnasol. Fel arfer mae angen cymeradwyaeth ORR i'r cytundeb.

Gweler Datganiad Rhwydwaith Network Rail am ragor o wybodaeth am y cyfleusterau cynnal a chadw nad ydynt ar Rwydwaith CVL.

7.3.7 Cyfleusterau technegol eraill (gan gynnwys cyfleusterau glanhau a golchi)

Nid oes unrhyw gyfleusterau technegol o'r fath ar Rwydwaith CVL ar hyn o bryd.

Gweler adran 7.3.6 am y cyfleuster yn Ffynnon Taf.

7.3.8 Cyfleusterau Porthladdoedd Morol a Mewndirol

Nid oes unrhyw gyfleusterau porthladd morol na mewndirol ar Rwydwaith CVL.

7.3.9 Cyfleusterau Rhyddhau

Mae trefniadau rhyddhad yn cael eu rheoli gan TfWRL, fel arfer yn digwydd ym mlaenau'r cymoedd: Rhymni, Treherbert a Merthyr.

7.3.10 Cyfleusterau ail-lenwi tanwydd

Ar hyn o bryd mae un cyfleuster ail-lenwi tanwydd ar Rwydwaith CVL, a leolir yn Cliffordd Rhif 4 yn Rhymni. Mae'r cyfleuster hwn yn cael ei brydlesu i Tŷ WRL a'i weithredu ganddo. (gweler adran 1.6.3 am fanylion cyswllt).

Gweler adran 7.3.6 am y cyfleuster yn Ffynnon Taf.

Appendix B – Gorsafoedd CVL

Rhan 1: Rhestr o Orsafoedd CVL

<i>Rhestr o Orsafoedd CVL (yn nhrefn yr wyddor)</i>			
Aber	Energlyn a Churchill Park	Penrhiwceibr	Trehafod
Abercynon	Tyllgoed	Pentre-Bach	Treherbert
Aberdâr	Fernhill	Pontlotyn	Treorci
Bargoed	Gilfach Fargoed	Pontypridd	Troed-y-Rhiw
Birchgrove	Lefel Uchel y Mynydd Bychan	Porth	Tŷ Glas
Brithdir	Lefel Isaf y Mynydd Bychan	Mynwent y Crynwyr	Parc Waun-Gron
Tre Bute (2026)	Llys-faen a Thornhill	Radur	Eglwys Newydd (De Morgannwg)
Caerffili	Llanbradach	Rhiwbeina	Ynyswen
Bae Caerdydd	Llandaf	Rhymni	Ystrad Mynach
Heol y Frenhines Caerdydd	Llanisien	Ffynnon Taf	Ystrad Rhondda
Cathays	Llwynypia	Tir Phil	
Coryton	Merthyr Tudful	Ton Pentre	
Heol y Crwys (2027)	Bro Merthyr	Tonypandy	
Cwmbach	Aberpennar	Trefforest	
Danescourt	Pengam	Ystad Trefforest	
Dinas (Rhondda)			

Rhan 2: Manylion platfform – (gweler yr Atodiad Adrannol am wybodaeth ychwanegol)

Gorsaf	Platfform	Hyd y gellir ei ddefnyddio
Gorsafoedd CVL		Mewn metrau
Aber	I lawr	124
Aber	I fyny	124
Abercynon	I lawr	84
Abercynon	I fyny	84
Aberdâr	Sengl	101
Bargoed	1	124
Bargoed	2	124
Birchgrove	Sengl	65
Brithdir	Sengl	124
Tre Bute o 2026	1	125
Tre Bute o 2026	2	125
Caerffili	1 (Bae)	150
Caerffili	2 (I lawr)	230
Caerffili	3 (I fyny)	230
Bae Caerdydd	1	160
Bae Caerdydd o 2026	2	160
Heol y Frenhines Caerdydd	1 (Bae)	55
Heol y Frenhines Caerdydd	2 (I lawr)	124
Heol y Frenhines Caerdydd	3 (I lawr)	184
Heol y Frenhines Caerdydd	4 (I fyny)	160
Heol y Frenhines Caerdydd	5 (I fyny)	166
Cathays	I lawr	124
Cathays	I fyny	124
Coryton	Sengl	65
Heol y Crwys o 2027	I fyny	84
Heol y Crwys o 2027	I lawr	84
Cwmbach	Sengl	94
Danescourt	I lawr	84
Danescourt	I fyny	84
Dinas (Rhondda)	Sengl	137
Energlyn a Churchill Park	1	126
Energlyn a Churchill Park	2	126
Tyllgoed	I lawr	48
Tyllgoed	I fyny	46
Fernhill	Sengl	94
Gilfach Fargoed	I lawr	16
Gilfach Fargoed	I fyny	16
Lefel Uchel y Mynydd Bychan	I lawr	124
Lefel Uchel y Mynydd Bychan	I fyny	124
Lefel Isaf y Mynydd Bychan	Sengl	106
Hengoed	I lawr	124
Hengoed	I fyny	124
Llys-faen a Thornhill	I fyny	124
Llys-faen a Thornhill	I lawr	124

Dangosir uwchraddiadau
arfaethedig mewn testun glas

Tudalen 84 o 88

Llanbradach	I lawr	124
Llanbradach	I fyny	124
Llandaf	I lawr	143
Llandaf	I fyny	131
Llanisien	I lawr	124
Llanisien	I fyny	122
Llwynypia	Sengl	124
Merthyr Tudful	Sengl	111
Bro Merthyr	Sengl	94
Aberpennar	I lawr	97
Aberpennar	I fyny	97
Pengam	I lawr	124
Pengam	I fyny	124
Penrhiwceibr	Sengl	94
Pentre-Bach	Sengl	142
Pontlotyn	Sengl	127
Pontypridd	1	138
Pontypridd	2	124
Pontypridd	3	124
Porth	(I lawr)	124
Porth	(I fyny)	132
Mynwent y Crynwyr	Sengl	126
Radur	1 (I lawr)	124
Radur	2 (I fyny)	108
Radur	3 (I fyny)	124
Rhiwbeina	Sengl	107
Rhymni	Sengl	127
Ffynnon Taf	I lawr	142
Ffynnon Taf	I fyny	142
Tir-Phil	I lawr	124
Tir-Phil	I fyny	124
Ton Pentre	Sengl	147
Tonypandy	Sengl	147
Trefforest	I lawr	143
Trefforest	I fyny	143
Ystad Trefforest	I lawr	183
Ystad Trefforest	I fyny	183
Trehafod	I lawr	137
Trehafod	I fyny	137
Treherbert	Sengl	135
Treorci	Sengl	124
Troed-y-Rhiw	Sengl	139
Tŷ Glas	Sengl	65
Parc Waun-Gron	I lawr	84
Parc Waun-Gron	I fyny	84
Yr Eglwys Newydd (De Morgannwg)	Sengl	98
Ynyswen	Sengl	124
Ystrad Mynach	I lawr	124
Ystrad Mynach	I fyny	124

Ystrad Rhondda	I lawr	124
Ystrad Rhondda	I fyny	124
Dangosir uwchraddiadau arfaethedig mewn testun glas		

Amserlen CVL

Sylwer bod cyfeiriadau at "Network Rail" yn Appendix C yn gyfeiriadau at Network Rail yn gweithredu ar ran IM CVL.

Dyddiadau Datblygu Amserlenni – Amserlenni Rhagfyr 2026 a Mai 2027

	Prif Newid	Newid Ategol
D-73 Hysbysiad Ffurfiol o Ddyddiadau Proses	18/07/2025	
Diwygio'r Rheolau Cynllunio Amserlen		
D64 – Dechrau Ymgynghoriad NR ar Newidiadau Arfaethedig i Rheolau	19/09/2025	20/02/2026
D64 – TCRAG – Dechrau Adnabod Peryglon Cynllun Trenau (TP-HAZID)	19/09/2025	20/02/2026
D60 – Diwedd yr ymgynghoriad ar y newidiadau arfaethedig i'r Rheolau	17/10/2025	20/03/2026
D60 – Cyhoeddi Rheolau Cynllunio	15/10/2025	18/03/2026
D59 – Cyhoeddi "Rheolau Drafft" (V1/V3)	24/10/2025	27/03/2026
D56 – TCRAG – Diwedd Nodi Peryglon Cynllun Trenau	14/11/2025	17/04/2026
D55 – TCRAG – Dechrau Aseinio/Lliniaru Cynllun Trenau	21/11/2025	24/04/2026
D54 – Ymatebion Gweithredwyr i "Rheolau Drafft"	28/11/2025	01/05/2026
D54 i D44 – Adolygiad Network Rail o Ymatebion Gweithredwyr		
Cyhoeddi Rheolau i Gynllunio	27/01/2026	01/07/2026
D44 – Cyhoeddi "Rheolau Terfynol" (V2/V4)	06/02/2026	10/07/2026
D41 – Diwedd y Cyfnod Aelio "Rheolau Terfynol"	27/02/2026	31/07/2026
Cyfnod Ymgynghori Cychwynnol		
D64 – Cyhoeddi calendr digwyddiadau drafft	19/09/2025	20/02/2026
D45 – Cyhoeddi Datganiad Capasiti Strategol	30/01/2026	03/07/2026
D55 – Hysbysiad gan Gyfranogwyr TT o newidiadau TT mawr	21/11/2025	24/04/2026
D55 – Dechrau'r Cyfnod Ymgynghori Cychwynnol	21/11/2025	24/04/2026

D54 – Cyhoeddi Calendr Digwyddiadau Terfynol	28/11/2025	01/05/2026
D45 – Network Rail i ddarparu copi o "Amserlen Weithiol Flaenorol"	30/01/2026	03/07/2026
D48 – Hysbysiad o Lwybrau Rhyngwladol Dros Dro	09/01/2026	
D40 – Dyddiad Blaenoriaeth	07/03/2026	07/08/2026

Cyfnod Paratoi'r Amserlen

D40 – Dechrau Cyfnod Paratoi'r Amserlen	06/03/2026	07/08/2026
D38 – TCRAG – Diwedd Aseinio/Lliniaru Cynllun Trenau	20/03/2026	21/08/2026
D37 – TCRAG – Dechrau Gwerthusiad Peryglon Cynllun Trenau (T-REP)	27/03/2026	28/08/2026
D33 – TCRAG – Diwedd Gwerthusiad Peryglon Cynllun Trenau (T-REP)	24/04/2026	25/09/2026
D32 – TCRAG – Dechrau'r Panel Sicrwydd Newid Amserlen (TP-RAP)	01/05/2026	02/10/2026
D30 – TCRAG – Diwedd y Panel Sicrwydd Newid Amserlen (TP-RAP)	15/05/2026	16/10/2026
D26 – Network Rail yn Cyhoeddi TT Gweithio Newydd (WTT)	12/06/2026	13/11/2026
TT Gweithio newydd a Ffeiliau System Cysylltiedig ar gael i ATOC	12/06/2026	13/11/2026
TT Newydd a Ffeiliau System Cysylltiedig ar gael i ATOC		
Ymatebion gweithredwyr i WTT Newydd	26/06/2026	27/11/2026
D22 – Diwedd y Cyfnod Apelio "Amserlen Weithiol Newydd"	10/07/2026	11/12/2026
D15 – Proses Briffio Amserlen wedi'i Chwblhau	28/08/2026	29/01/2027
D14 – Data Electronig CIF Ar Gael	04/09/2026	05/02/2027
D9 – Dyfyniad Amserlen a gymerwyd ar gyfer Golygu NRT	09/10/2026	12/03/2027
D8 – Cynnig Dyddiadau Amserlen Dydd Cyfatebol i weithredwyr	16/10/2026	19/03/2027
D4 – Anfon data NRT at Gyhoeddwy	13/11/2026	16/04/2027
Dyddiad Cychwyn Amserlen	13/12/2026	16/05/2027
Dyddiad Gorffen Amserlen	15/05/2027	11/12/2027

Sylwer: Mae dyddiadau newid yn seiliedig ar y Prif Newid yn ddydd Sul ar ôl yr 2^{il} ddydd Sadwrn ym mis Rhagfyr, a Newid Ategol yn 3^{ydd} dydd Sul mis Mai.

